Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

# Dangos Tystiolaeth o Effaith y Grant Cymorth Tai yng Nghymru

Marc Fury, Gareth Lynn Montes a Dr Helen Taylor

Gorffennaf 2020

# Cynnwys


**Rhagair ........ 5**

**1.0 Cyflwyniad ........ 6**

1.1 Y Corff Comisiynu ........ 6

1.2 Y Cyrff Ariannu ........ 7

1.3 Y Tîm Ymchwil ........ 7

**2.0 Adolygiad Llenyddiaeth ........ 8**

2.1 Cefnogi Pobl ac Arbedion Effeithlonrwydd ........ 9

2.2 Y Cyd-destun Cymreig ........ 11

2.3 Dysgu o Astudiaethau'r Gorffennol ........ 12

**3.0 Methodoleg ........ 12**

3.1 Dull Methodolegol ........ 12

**4.0 Yr Effaith Gymdeithasol ........ 14**

4.1 Dulliau Ymchwil: Yr Effaith Gymdeithasol ........ 14

4.2 Dadansoddi Data: Yr Effaith Gymdeithasol ........ 15

4.3 Demograffeg ........ 17

4.4 Iechyd Cyffredinol ........ 21

4.5 Boddhad â Bywyd ........ 24

4.6 Mae Pethau mewn Bywyd yn Werth Chweil …. ........................................................ 26

4.7 Y Pethau sy'n Bwysig i Mi …. ........................................................................... 30

4.8 Rheolaeth Dros Fywyd …. ................................................................................ 32

4.9 Teimlo'n Ddiogel …. ......................................................................................... 35

4.10 Teimlo'n Dda …. ............................................................................................... 38

4.11 Meddwl yn Glir …. ............................................................................................ 41

4.12 Teimlo'n Ddefnyddiol …. .................................................................................. 43

4.13 Teimlo'n Agos at Bobl …. ................................................................................. 46

4.14 Diddordeb mewn Pethau Newydd ..................................................................... 48

4.15 Teimlo'n Hyderus …. ......................................................................................... 51

4.16 Teimlo’n Obeithiol am y Dyfodol …. ................................................................. 54

**5.0 Yr Effaith Ariannol ............................................................................................ 56**

5.1 Dulliau Ymchwil: Yr Effaith Ariannol …. ........................................................... 56

5.2 Dadansoddi Data: Yr Effaith Ariannol …. ......................................................... 60

5.3 Arbedion i'r Gwasanaeth Iechyd …. .................................................................. 63

5.4 Arbedion i'r Sector Gofal Cymdeithasol …. ...................................................... 64

5.5 Arbedion i’r System Cyfiawnder Troseddol …. ................................................. 66

**6.0 Casgliad ............................................................................................................ 67**

**7.0 Llyfryddiaeth ........ 71**

**8.0 Atodiadau ........ 74**

8.1 Atodiad A: Astudiaethau Blaenorol i Gyllid Cefnogi Pobl ........ 74

8.2 Atodiad B: Arbedion cost Cefnogi Pobl i Wasanaethau Cyhoeddus Eraill o Ymchwil Flaenorol ........ 87

# Rhagair

Yn 2018 dechreuwyd y prosiect ymchwil hwn gyda'r nod o ddangos tystiolaeth o effaith y Rhaglen Cefnogi Pobl yng Nghymru. Ers hynny, mae'r rhaglen wedi gweld rhai newidiadau strwythurol ac fe'i hunwyd â dwy ffrwd ariannu arall i greu'r Grant Cymorth Tai. Fodd bynnag, mae'n parhau i ganolbwyntio ar atal digartrefedd a chynorthwyo pobl i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartrefi a'u cymunedau.

Bob blwyddyn mae'r grant yn ariannu gwasanaethau digartrefedd a gwasanaethau cymorth cysylltiedig â thai sy’n hanfodol ar gyfer tua 60,000 o bobl ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys unigolion a theuluoedd sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref, pobl hŷn, pobl ifanc agored i niwed, pobl sy'n gadael gofal, pobl sy'n ffoi rhag trais neu gamdriniaeth, a phobl ag anableddau dysgu, problemau iechyd meddwl a phroblemau camddefnyddio sylweddau.

Fel y corff cynrychioliadol ar gyfer darparwyr digartrefedd, tai a chymorth yng Nghymru, clywn yn aml am fanteision eang gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai, gan gynnwys atal digartrefedd, gwella iechyd a llesiant, lleihau'r defnydd o wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, atal cam-drin domestig a lleihau aildroseddu. Fodd bynnag, ers blynyddoedd lawer bu prinder tystiolaeth gadarn o bob rhan o Gymru y gallwn ei defnyddio i gymhwyso a mesur hyn.

Wrth i etholiad nesaf y Senedd nesáu, mae angen i ni allu dangos gwerth y gwasanaethau hyn a brwydro o blaid parhad yn y buddsoddiad. Mae’r prosiect ymchwil hwn, dan arweiniad academyddion ac ymchwilwyr annibynnol, yn rhoi tystiolaeth gref o effaith gadarnhaol gwasanaethau’r Grant Cymorth Tai ar fywydau pobl. Wrth i bleidiau gwleidyddol ysgrifennu eu maniffestos, mae’r ymchwil hon yn cryfhau’r achos o blaid parhau i glustnodi’r Grant Cymorth Tai a chynyddu’r buddsoddiad ynddo.

Rydym yn ddiolchgar iawn i’r Oak Foundation am gydariannu’r prosiect hwn ac i Brifysgol Metropolitan Caerdydd am arwain yr ymchwil. Diolch i Marc Fury, Dr Helen Taylor, y tîm yn Alma Economics ac i’n Swyddog Ymchwil Gareth Lynn Montes. Hoffwn ddiolch hefyd i bawb a gymerodd ran yn yr ymchwil, am rannu eu profiadau a’n helpu i grynhoi’r dystiolaeth – fyddai’r adroddiad hwn ddim wedi bod yn bosib hebddoch chi.

Katie Dalton


Cyfarwyddwr: Cymorth Cymru

# 1.0 Cyflwyniad

Mae Cymorth Cymru a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd wedi cyd-gynhyrchu darn o ymchwil i effaith gymdeithasol ac ariannol y Grant Cymorth Tai, y Rhaglen Cefnogi Pobl gynt, sy'n ariannu llety â chymorth a gwasanaethau cymorth tenantiaeth i helpu i atal digartrefedd a galluogi pobl i gynnal tenantiaethau a byw'n annibynnol yn eu cymunedau. Mesurwyd yr effaith gymdeithasol drwy gyfres o arolygon ymysg pobl sy'n defnyddio gwasanaethau ledled Cymru. Ar gyfer yr effaith ariannol, rydym wedi ymchwilio i nifer o gategorïau gwahanol lle mae gwasanaethau cymorth y grant wedi cael effaith ac wedi dangos arbedion i wasanaethau cyhoeddus eraill.

Amcan 1: Bydd yn canolbwyntio ar ymchwil sy'n dangos unrhyw effaith gymdeithasol arsylwadwy, ac effaith ariannol digartrefedd a gwasanaethau cymorth cysylltiedig â thai ar amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Amcan 2: Mae'n defnyddio canfyddiadau'r ymchwil o Amcan 1 i ddatblygu pecyn cymorth methodolegol ar gyfer aelodau Cymorth Cymru a fydd yn eu galluogi i ddangos effaith eu gwasanaethau'n well ar lefel leol.




## 1.1 Y Corff Comisiynu

### Cymorth Cymru:

Cymorth Cymru yw'r corff sy'n cynrychioli darparwyr gwasanaethau digartrefedd, tai a chymorth yng Nghymru. Rydym yn gweithredu fel llais y sector, gan ddylanwadu ar y gwaith o ddatblygu a gweithredu polisi, deddfwriaeth ac arferion sy'n effeithio ar ein haelodau a'r bobl y maent yn eu cefnogi. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, ein haelodau a'n partneriaid i sicrhau newid. Credwn y gallwn, gyda'n gilydd, gael mwy o effaith ar fywydau pobl. Rydym am fod yn rhan o fudiad cymdeithasol sy'n rhoi

terfyn ar ddigartrefedd ac yn creu Cymru lle gall pawb fyw'n ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain a ffynnu yn eu cymunedau.

# 1.2 Y Cyrff Ariannu

Mae'r ymchwil hon wedi'i chydariannu gan Cymorth Cymru a'r Oak Foundation.

### Yr Oak Foundation:

Mae’r Oak Foundation yn sefydliad teuluol ac mae'n adlewyrchu gweledigaeth a gwerthoedd ei sylfaenwyr. Yn ei holl waith mae'n mynd ati i sicrhau dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau, cydraddoldeb rhywiol a gwaith partneriaeth gyda'r sefydliadau a ariennir gennym. Rydym yn cefnogi cymdeithas sifil fel piler democratiaeth a chyfiawnder ac yn meithrin arloesedd ac arweinyddiaeth seiliedig ar weledigaeth oddi mewn iddi. Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth yn Oak ac ymhlith ein partneriaid; rydym yn ceisio bod yn gynhwysol ac yn hyblyg a gwrando ar safbwyntiau gwahanol. Credwn fod y gwaith dyfarnu grantiau gorau yn adlewyrchu diwydrwydd dyladwy gofalus a'r parodrwydd i fentro.

Yn y Rhaglen Tai a Digartrefedd, rydym yn canolbwyntio ar atal digartrefedd.

Mae gennym dair blaenoriaeth:

- Hyrwyddo hunangynhaliaeth economaidd;
- Cynyddu argaeledd a chyflenwad tai fforddiadwy; ac
- Atal digartrefedd

Mae’r grantiau yn y rhaglen yn amrywio'n fawr o ran maint. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau sy'n gweithio'n genedlaethol ac yn lleol yn Boston, Efrog Newydd a Philadelphia yn yr Unol Daleithiau ac yn Llundain, De Cymru, Glasgow a Birmingham yn y Deyrnas Unedig.

# 1.3 Y Tîm Ymchwil

### Prifysgol Metropolitan Caerdydd (Tîm Ymchwil Arweiniol):

Mae ein gweledigaeth yn ymgorffori ymrwymiad i addysg, ymchwil ac arloesi a hynny mewn partneriaeth â'n myfyrwyr, llywodraethau, busnes a diwydiant a chyda manteision pendant i unigolion, cymdeithas a'r economi.

Mae gan y grŵp ymchwil Polisi Cymdeithasol ddiddordebau sy'n pontio llywodraethu, tai cymdeithasol, polisi lles, trosglwyddo polisi rhyngwladol, digartrefedd, a datganoli penderfyniadau. Rydym yn cael ein hysgogi gan ymchwil amlddisgyblaethol sy'n arwain at newid cadarnhaol i unigolion a chymunedau.

### Alma Economics:

Mae Alma Economics yn cyfuno arbenigedd mewn economeg a dadansoddi data uwch gyda dealltwriaeth gadarn o ddulliau ymchwil ansoddol. Rydym yn darparu cyngor a dadansoddiadau clir sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar faterion cymhleth sy'n cwmpasu pob agwedd ar strategaeth, polisi a gweithrediadau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mae ein gwaith yn pontio'r DU, Ewrop, y Dwyrain Canol ac Affrica, ac rydym yn gweithio gyda chleientiaid gan gynnwys y Comisiwn Ewropeaidd, Banc y Byd, a nifer o lywodraethau.

# 2.0 Adolygiad Llenyddiaeth

Mae'r Grant Cymorth Tai yn rhaglen grant ymyrraeth gynnar i gefnogi gweithgarwch sy'n atal pobl rhag mynd yn ddigartref, yn sefydlogi eu sefyllfa o ran tai, neu'n helpu pobl a allai fynd yn ddigartref i ddod o hyd i lety a'i gadw.[1] Mae'r grant yn gyfuniad o dri grant sy'n bodoli eisoes: y Rhaglen Cefnogi Pobl, y Grant Atal Digartrefedd a Gorfodi Rhent Doeth Cymru. Yn wreiddiol, nod y Rhaglen Cefnogi Pobl oedd galluogi pobl agored i niwed (yn cynnwys y rhai) sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, i fyw mor annibynnol â phosibl, drwy ddarparu gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai. [2] Yn ogystal â'i nodau cymdeithasol, roedd Llywodraeth Cymru yn gweld Cefnogi Pobl fel rhaglen "buddsoddi i arbed" hefyd sy'n arwain yn aml at arbedion i wasanaethau cost uwch eraill gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol[3] a chyfiawnder troseddol. Trwy gynnig gwasanaethau ataliol i bobl sy'n agored i niwed, dylai'r galw am wasanaethau cyhoeddus fel gofal cymdeithasol preswyl costus i oedolion a gofal brys mewn ysbytai leihau.

Cyflwynwyd Cefnogi Pobl yn 2003 ar lefel y DU, yn gyntaf fel grant wedi'i glustnodi ar gyfer awdurdodau lleol i alluogi unigolion i fyw'n annibynnol. Y buddsoddiad cyntaf oedd £1.8 biliwn, ac roedd yn dwyn ynghyd saith ffrwd ariannu a oedd yn bodoli ar y pryd ar gyfer cymorth sy'n gysylltiedig â thai.[4] Roedd dogfen cynnig y Rhaglen yn amlinellu'r grwpiau cleientiaid canlynol fel y rhai y gallai fod angen cymorth arnynt, gan nodi nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr ac y gallai fod gorgyffwrdd rhwng gwahanol grwpiau:

- yn agored i niwed oherwydd eu hoedran ifanc;
- yn ddigartref, neu'n cysgu ar y stryd;
- yn gaeth i gyffuriau neu alcohol;
- â sgiliau cymdeithasol gwael neu ymddygiad aflonyddgar;
- ymddygiad sy'n eu rhoi mewn perygl o droseddu;
- yn gadael sefydliadau (gan gynnwys rhai cyn-droseddwyr sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar);

[1] Llywodraeth Cymru, Ebrill 2020, *Canllawiau ar y Grant Cymorth Tai - Canllawiau Ymarfer i Awdurdodau Lleol* https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/grant-cymorth-tai-canllawiau-ymarfer_0.pdf
[2] Llywodraeth Cymru, 2013. *Supporting People Programme Grant (SPPG) - Guidance – Wales.* http://www.westernbay.org.uk/wp-content/uploads/Guidance-Doc-SPPG-June-2013.pdf
[3] Ibid.
[4] Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, 16 Gorffennaf 2012. *The Supporting People programme – Research Paper 12/40* https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/RP12-40/RP12-40.pdf

- yn profi trawma seicolegol (gan gynnwys trawma seicolegol a achosir gan drais domestig);
- â phroblemau iechyd meddwl;
- ag anabledd dysgu;
- â nam ar y synhwyrau;
- yn dioddef salwch cronig; neu
- yn fregus oherwydd oedran.

Felly, mae'r rhaglen Cefnogi Pobl, ac wedyn y Grant Cymorth Tai, yn darparu cymorth ar gyfer amrywiaeth eang o anghenion. Darperir llety i bobl hŷn, i unigolion ag anableddau dysgu, i bobl sy'n dianc rhag trais domestig ac i gyn-droseddwyr drwy'r grant, yn ogystal â chymorth i unigolion sy'n ddigartref drwy lety hostel neu gymorth fel y bo'r angen. Er ei fod yn ffrwd ariannu unffurf, mae'r mathau o ddarpariaeth y mae'n eu hariannu a'r gwahanol grwpiau cleientiaid y mae'n eu cefnogi yn amrywiol tu hwnt.

Bu gostyngiad yn y cyllid ar gyfer y Rhaglen ar ôl ei sefydlu ac yn 2009 collodd Cefnogi Pobl ei statws fel cyllid wedi'i glustnodi yn Lloegr. Roedd hyn yn golygu bod awdurdodau lleol yn rhydd i ddefnyddio'r cyllid hwn ar gyfer gwasanaethau eraill fel y gwelent yn dda. Yna cafwyd toriadau pellach i'r grant a daeth yn rhan o'r Grant Seiliedig ar Arwynebedd yn dilyn Adolygiad o Wariant 2010.[5] Digwyddodd y newidiadau hyn yng nghyd-destun cyni, lle'r oedd cyllid ar gyfer llywodraeth leol yn gyffredinol yn cael ei leihau. Felly, roedd awdurdodau lleol yn Lloegr yn gorfod gwneud penderfyniadau ynghylch sut i wario cyllidebau cyfyngedig, ac mewn rhai achosion roedd hyn yn golygu dewis rhwng ariannu gwasanaethau statudol megis gofal cymdeithasol i oedolion neu wasanaethau anstatudol megis cymorth sy'n gysylltiedig â thai.[6]

## 2.1 Cefnogi Pobl ac Arbedion Effeithlonrwydd

Mae cyfrif cost a budd a chanlyniadau Cefnogi Pobl wedi bod yn flaenoriaeth i'r gwahanol wledydd datganoledig a chynghorau sir a dinas yn y DU ers ei sefydlu'n wreiddiol. Yn wir, roedd pryderon ynghylch gorwario sylweddol yn ystod misoedd cyntaf y prosiect. Amcangyfrifwyd y byddai'n costio £350-750 miliwn i ddisodli'r ffrydiau ariannu gydag un rhaglen. Gwelodd y cyfrifiad terfynol o £1.8 biliwn gynnydd sylweddol yn y galw gan awdurdodau lleol i ariannu prosiectau a allai gyd-fynd â nodau Cefnogi Pobl. Mor fuan â mis Hydref 2003, comisiynwyd adolygiad o'r modd yr oedd y cyllid yn cael ei ddefnyddio, a daeth i'r casgliad nad oedd popeth a ddigwyddodd wrth drosglwyddo i'r trefniadau ariannu newydd yn cyd-fynd â bwriad ac amcanion y Rhaglen ac nad oedd hyn wedi'i ystyried yn nhybiaethau gwariant y sector cyhoeddus.[7]

[5] Ibid.
[6] Homeless Watch, Ionawr 2013. *Who is Supporting People Now? Experiences Of Local Authority Commissioning After Supporting People* https://www.homeless.org.uk/sites/default/files/site-attachments/Who%20is%20supporting%20people%20now%20Report%20Jan13_0.pdf
[7] *The Supporting People programme – Research Paper 12/40*, tt. 7-8.

Mae amrywiaeth eang o ddadansoddiadau cost a budd o'r Rhaglen wedi'u cynnal, ar lefel gwasanaethau unigol, ar lefel llywodraeth leol, ac ar lefel genedlaethol ehangach. Mae'r dulliau methodolegol o gynnal y rhain wedi amrywio, gyda rhai'n mesur yn erbyn gwariant amgen i gefnogi unigolion ac eraill yn mesur yn erbyn dim gwariant amgen. Fel y gwelir gyda'r amrywiaeth eang o wasanaethau sy'n gymwys i gael cymorth, mae nifer o newidynnau wrth fesur y Rhaglen. Mae unigolion sy'n cael cymorth drwy Cefnogi Pobl yn cael mathau gwahanol iawn o gymorth o larymau cymunedol i lety â chymorth i gymorth fel y bo'r angen. Felly, mae unigolion yn cael cymorth am gyfnodau gwahanol ac mewn gwahanol ffyrdd. Gall unigolion fod yn cael cymorth hefyd ar gyfer un 'angen arweiniol' ond hefyd yn cael cymorth ar gyfer anghenion eilaidd neu drydyddol. Felly, mae llunio methodoleg ar gyfer mesur effaith y Rhaglen hon (a'r Grant Cymorth Tai) yn gymhleth. Darperir detholiad o ddadansoddiadau cost a budd isod:

Tabl 1: Detholiad o Ddadansoddiadau Cost a Budd

| Adroddiad | Gwrthffeithiol | Mesur cost a budd |
|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru / Matrix 2006 | Wedi'i fesur yn erbyn darparu dim cymorth | Am bob £1 a fuddsoddwyd mewn Cefnogi Pobl, arbedwyd £0.68 o'r £1.68 y byddai wedi'i gostio heb Cefnogi Pobl |
| Cyngor Sir Caerfyrddin / Matrix<br><br>2010 | Wedi'i fesur yn erbyn senario amgen mwyaf tebygol o gymorth | £1.30 am bob £1 o gyllid Cefnogi Pobl |
| Yr Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau / Capgemini<br><br>2010 | | £2.10 am bob £1 o gyllid Cefnogi Pobl |
| Tribal Consulting Scotland<br><br>2007 | Wedi'i fesur yn erbyn senario amgen mwyaf tebygol o gymorth | £0.10 am bob £1 o gyllid Cefnogi Pobl |
| Cyngor Brighton a Hove<br><br>2013 | Wedi'i fesur yn erbyn senario amgen mwyaf tebygol o gymorth | £3.11 am bob £1 o gyllid Cefnogi Pobl |

Mae'n bwysig nodi canfyddiadau amrywiol y dadansoddiadau cost a budd ar draws y gwahanol adroddiadau, a'r gwahanol ddulliau methodolegol a ddefnyddiwyd. Mae'r gwerthusiadau hyn o'r rhaglen yn canolbwyntio ar effaith ariannol yn hytrach nag effaith gymdeithasol y prosiectau. Cydnabuwyd pwysigrwydd effaith gymdeithasol y rhaglen ar unigolion, ond mae wedi bod yn anodd mesur yr effaith mewn ffordd gyson.[8]

## 2.2 Y Cyd-destun Cymreig

Yn wahanol i Loegr, gwnaeth cyllid Cefnogi Pobl yng Nghymru barhau i gael ei glustnodi y tu hwnt i 2009 ond parhau wnaeth y problemau ynghylch effeithlonrwydd a ffocws ar ddefnydd strategol o'r rhaglen. Comisiynwyd Adolygiad Aylward gan Jocelyn Davies AC, y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio ar y pryd, a gwnaeth argymhellion i gryfhau'r Rhaglen a gwneud y mwyaf o'r cyfraniad roedd yn ei wneud at iechyd a llesiant pobl roedd y rhaglen wedi'i bwriadu ar eu cyfer.[9]

Argymhellodd Adolygiad Aylward y dylid bwrw ymlaen ar frys â gwaith o wireddu cronfa ddata gynhwysfawr i lywio'r gwaith o ddethol a gwerthuso canlyniadau diriaethol priodol ar draws ystod eang o ymyriadau'r presennol a'r dyfodol.[10] Yn dilyn Adolygiad Aylward a nifer o geisiadau gan y sector, penderfynodd Llywodraeth Cymru wneud casglu data seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer gwasanaethau a ariannwyd gan Cefnogi Pobl – Holiadur Ymadael a Chanlyniadau Prosiectau Cefnogi Pobl – yn orfodol o fis Ebrill 2012 ymlaen.

Diben y fframwaith yw:

- mabwysiadu system i gasglu gwybodaeth ystyrlon am ganlyniadau.
- defnyddio'r wybodaeth i fesur, cynnal a gwella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir.
- cydnabod effeithiolrwydd Cefnogi Pobl.[11]

O 2016/17 ymlaen, roedd gan Cefnogi Pobl yng Nghymru gyllideb flynyddol o £123.6 miliwn, a oedd yn cynrychioli dros 57,000 o unedau cymorth.[12] Ym mis Hydref 2017, fodd bynnag, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chyllideb ddrafft ddwy flynedd, a oedd yn datgelu cynlluniau i uno Cefnogi Pobl â nifer o gynlluniau grant eraill ar gyfer teuluoedd a chymunedau yn 2019/20. Roedd pryder gan y sector y byddai'r uno hwn yn lleihau'r cyllid sydd ar gael ar gyfer digartrefedd a chymorth sy'n gysylltiedig â thai ac yn atal tryloywder o ran y cyllid mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu ar gyfer hyn.[13] Yn dilyn ymgyrch dan arweiniad Cymorth Cymru ac ar ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol graffu ar y cynlluniau, penderfynodd Llywodraeth Cymru fabwysiadu ateb arall. Ym mis Ebrill 2019 sefydlwyd y Grant Cymorth Tai a oedd yn uno

---

[8] Gweler Atodiad A: Astudiaethau Blaenorol i Gyllid Cefnogi Pobl

[9] Aylward, et al, 2010. *The Supporting People Programme in Wales: Final report on a Review commissioned by Jocelyn Davies AM, Deputy Minister for Housing and Regeneration, 'Aylward Review'*

[10] Ibid.

[11] Llywodraeth Cymru, 2012. *Canllawiau'r Rhaglen Cefnogi Pobl*

[12] Ibid.

[13] Cymorth Cymru, 24 Hydref 2017. *Cymorth Cymru responds to detailed Welsh budget and disappearance of Supporting People budget line in 2019/20* https://www.cymorthcymru.org.uk/en/news-blog/news/cymorth-cymru-responds-detailed-welsh-budget-and-disappearance-supporting-people-budget-line-201920

ffrydiau gorfodi Cefnogi Pobl, Atal Digartrefedd, a Rhentu Doeth Cymru. Mae hyn bellach yn ariannu'r rhan fwyaf o wasanaethau digartrefedd a chymorth sy'n gysylltiedig â thai yng Nghymru.[14]

## 2.3 Dysgu o Astudiaethau'r Gorffennol

Y cyd-destun allweddol i asesu effeithiolrwydd cyllid Cefnogi Pobl yw ei gymhlethdod. Mae trin a thrafod sut i fesur effaith y rhaglen a sut mae hyn yn ymwneud â chost wedi bod yn rhan o ddatblygiad polisi Cefnogi Pobl ers ei sefydlu. Elfen bwysig arall o hyn yw sut y gellir asesu'n gadarn effeithiolrwydd rhaglen sydd wedi'i chynllunio i alluogi annibyniaeth. Mae'r adroddiadau a'r methodolegau uchod wedi canolbwyntio'n bennaf ar effaith ariannol y gwariant ar wasanaethau cyhoeddus ehangach. Hanner arall y darlun hwn, fodd bynnag, yw'r effaith ansoddol y mae gwasanaethau Cefnogi Pobl neu'r Grant Cymorth Tai yn ei chael ar fywydau unigolion.

# 3.0 Methodoleg

Gan adeiladu ar y drafodaeth yn yr adran flaenorol, mae nifer o faterion i'w nodi wrth ystyried mesuriadau o effaith cyllid y Grant Cymorth Tai:

- Rhaid i unrhyw fodel gyfiawnhau a yw'n mesur yn erbyn dim darpariaeth arall neu ddarpariaeth amgen – mae hyn yn effeithio ar ddyfarniadau gwerthusol o'r grant
- Mae nifer o newidynnau wrth ddarparu gwasanaethau sy'n gwneud mesur yn anodd: cymorth sefydlog neu gymorth fel bo'r angen, am ba hyd y darperir cymorth, gwahanol lefelau o gymhlethdod anghenion ar gyfer aelwydydd
- Caiff unigolion eu categoreiddio yn ôl eu prif anghenion, ond yn aml bydd ganddynt anghenion eilaidd a thrydyddol sy'n cael bron llawn cymaint o effaith ar eu bywyd
- Pa werthoedd sy'n cael eu mesur – mae manteision heb eu costio yn debygol o gael effaith fawr ar unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau ond nid ydynt yn rhan reolaidd o werthusiadau cenedlaethol o'r gwasanaethau

Yng nghyd-destun y cymhlethdod hwn, nod y prosiect hwn yw datblygu ffordd o fesur effaith wedi'i chostio a heb ei chostio gwasanaethau cymorth y Grant Cymorth Tai. Mae'r ffocws yma ar ddiffinio gwerth am arian y grant mewn ystyr eang; edrych ar yr effaith gadarnhaol y mae'n ei chael ar fywydau unigolion yn ogystal â'r effaith ariannol ar wasanaethau cyhoeddus. Mae angen defnyddio cyfuniad o ddulliau ansoddol a meintiol yma, felly, ond mewn ffordd sy'n galluogi i honiadau cadarn gael eu gwneud am effaith y grant.

[14] Cymorth Cymru, 2019. *Housing Matters* https://www.cymorthcymru.org.uk/files/7915/7582/1535/Housing_Matters report_2019_-_Eng.pdf

Bydd yr adran hon o'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r heriau a'r hawl i fabwysiadu dull gweithredu o'r fath. Ceir amlinelliad o'r dulliau ymchwil ar gyfer yr effaith gymdeithasol a'r effaith ariannol yn yr adrannau canlynol o'r adroddiad.

# 3.1 Dull Methodolegol

Fel yr amlygwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth, datblygwyd nifer o wahanol fodelau yn seiliedig ar elfennau wedi'u costio ar gyfer cyllid Cefnogi Pobl. Maent yn darparu set o ddata am effaith ariannol y cyllid. Gyda hyn, gellir gwneud honiadau am effeithiolrwydd buddsoddi arian cyhoeddus yng ngwasanaethau'r Grant Cymorth Tai yn hytrach na gwasanaethau eraill, a'r effaith y gall gwasanaethau'r Grant ei chael o ran arbedion cost i wasanaethau cyhoeddus eraill fel iechyd.

Tynnir sylw hefyd at y syniad bod y mesuriadau ariannol hyn yn rhoi cyfrif rhannol o effaith Cefnogi Pobl. Gallwn weld gwerthusiadau o Cefnogi Pobl sy'n seiliedig ar fesurau ariannol yn unig fel rhai lleihaol. Mae'r mesuriadau hyn yn dangos effeithiolrwydd y gwasanaethau i gyfryngau sefydliadol neu gyfryngau llywodraethol, lle mae'r gwerthusiad yn seiliedig ar ariannu a darparu gwasanaethau mewn un ffordd yn hytrach nag un arall. Fodd bynnag, mae effaith heb ei chostio Cefnogi Pobl ar ddefnyddwyr gwasanaethau yr un mor bwysig. Fel y noda Stirling[15], mae Cefnogi Pobl yn seiliedig ar yr egwyddor o rymuso unigolion; mae defnyddio dull seiliedig ar gryfderau'n golygu mai defnyddwyr gwasanaethau, nid sefydliadau, sy'n cael y clod am ganlyniadau. Mae'n ymddangos yn briodol datblygu dull gwerthuso sy'n seiliedig ar gryfderau ar gyfer rhaglen bolisi sy'n seiliedig ar gryfderau. Byddai'n rhaid i'r math hwn o ddull ystyried mesuriadau wedi'u costio a heb eu costio o effaith cyllid y Grant Cymorth Tai, ac felly defnyddio setiau data ansoddol a meintiol.

Gellir gweld bod y dull cymysg hwn o werthuso yn mynd i'r afael hefyd â rhai o'r materion cymhlethdod a amlygwyd uchod. Wrth drafod y dull o fesur effaith gwasanaethau Cefnogi Pobl ar ddigartrefedd yng Nghymru, mae Stirling[16] yn nodi cymhlethdodau tebyg, sef:

- Bod gwasanaethau Cefnogi Pobl yn amrywiol iawn
- Bod Cefnogi Pobl yn cael ei ystyried yn aml yn ateb i nifer eang o faterion y mae unigolion yn eu profi
- Nad yw Cefnogi Pobl yn gweithredu mewn gwactod – mae unigolion sy'n cael cymorth drwy gyllid Cefnogi Pobl yn aml yn defnyddio gwasanaethau eraill hefyd

Daw i'r casgliad bod angen cyfuniad o ddata meintiol ac ansoddol i ddarparu gwerthusiad cadarn. Mae'n nodi ei bod yn fuddiol cynnwys gwahanol safbwyntiau yn y gwerthusiad, er enghraifft defnyddwyr gwasanaethau a darparwyr gwasanaethau ond mae'n rhybuddio yn erbyn y posibilrwydd o wneud gormod o honiadau ar sail y data. Fel y nodwyd eisoes, bydd unigolion yn cael cymorth gan amrywiaeth o wasanaethau ac felly mae'n anodd gweld sefyllfaoedd gwrthffeithiol. Mae perygl hefyd o geisio defnyddio set ddata i adrodd stori na all

[15] Stirling, 2015. *Evaluating the Contribution the Supporting People Programme makes to Preventing and Tackling Homelessness in Wales – Feasibility Study*
[16] Ibid.

ei hadrodd[17], felly dylai fod yn glir pa lefel y mae'r set ddata yn cyfeirio ati: unigol, lleol, neu genedlaethol.

# 4.0 Yr Effaith Gymdeithasol

## 4.1 Dulliau Ymchwil: Yr Effaith Gymdeithasol

Casglwyd y data ar gyfer y prosiect hwn rhwng mis Medi 2019 a mis Ionawr 2020. Dechreuwyd recriwtio cyfranogwyr drwy anfon negeseuon e-bost at y prif gysylltiadau yn aelodau Cymorth Cymru sy'n darparu gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai a Chydgysylltwyr Datblygu Rhanbarthol y Grant, ac fe'u dilynwyd gan ddau e-bost arall. Roedd cysylltu â'r prif gysylltiadau'n golygu ei bod wedi cymryd amser i'r fenter gyrraedd y rheolwyr prosiect a chynllun a fyddai'n mynd ati i recriwtio'r cyfranogwyr. Ar ôl canfod cleientiaid a oedd yn fodlon cymryd rhan, cysylltwyd â'r tîm ymchwil ac aethpwyd ati i weithio ar logisteg cynnal yr arolygon.

Gwnaed y rhan fwyaf o gyfweliadau wyneb yn wyneb yn y man lle'r oedd cleientiaid yn cael cymorth, ond cynhaliwyd nifer dros y ffôn am amrywiaeth o resymau megis cyfyngiadau daearyddol neu ddewis cyfranogwyr. Waeth beth fo'r cyfrwng, gofynnwyd i gleientiaid ddarllen taflen wybodaeth yn esbonio'r arolwg a chytuno i gymryd rhan drwy lofnodi taflen ganiatâd. Pe bai cleientiaid yn cael unrhyw anhawster darllen y daflen wybodaeth, byddai'r ymchwilydd neu weithiwr cymorth yn eu cynorthwyo. Cyn i'r arolygon gael eu cynnal, gofynnwyd i gleientiaid a fyddai'n well ganddynt i weithiwr cymorth fod yn bresennol yn ystod yr arolwg. Mae'n werth nodi, yn yr achosion hynny pan oedd gweithwyr cymorth yn bresennol, diben hynny oedd i gynorthwyo'r cleient, nid i ddylanwadu arno neu roi atebion.

Er bod yr arolygon i fod i ddod i ben ganol mis Rhagfyr, cododd dadansoddiad rhagarweiniol o'r data rai pryderon ynghylch gwasgariad daearyddol ymatebwyr tan hynny. Felly, penderfynwyd ymestyn y cyfnod casglu data er mwyn gallu cynnwys cyfranogwyr o'r rhanbarthau hynny o Gymru nad oeddent yn cael eu cynrychioli neu nad oedd cynrychiolaeth ddigonol ohonynt bryd hynny.

Dewiswyd y cwestiynau yn yr arolwg o arolwg Cymru gyfan a oedd yn bodoli eisoes, sef Arolwg Cenedlaethol Cymru, fel y gellid cymharu canlyniadau arolwg y prosiect hwn â chanlyniadau'r arolwg o'r boblogaeth gyffredinol. Fodd bynnag, er mwyn cael darlun o daith cleient drwy gymorth, penderfynwyd gofyn yr un cwestiynau yn ôl-weithredol gyda'r nod o ganfod a fu gwelliant, drwy gymorth, yn llesiant cleientiaid. Roedd hyn yn golygu bod gan bob cwestiwn botensial i gynnwys tri cham yn dibynnu ar am ba hyd yr oedd y cleient wedi bod yn cael cymorth.

Er enghraifft, gellid gofyn Cwestiwn 1, am iechyd, mewn tair ffordd:

---

[17] Ibid, t.19.

a) "Sut mae eich iechyd yn gyffredinol, a yw'n…?";
b) "Gan feddwl yn ôl i ddechrau'r cymorth... Sut oedd eich iechyd yn gyffredinol, oedd e'n…?";
c) "Gan feddwl yn ôl i hanner ffordd drwy'r cymorth... Sut oedd eich iechyd yn gyffredinol, oedd e'n…?"

Yn gyffredinol, pe bai cleient wedi bod yn cael cymorth am lai na thri mis, dim ond cwestiwn 'a' y gofynnwyd iddo; byddai'r rhai sydd wedi bod yn cael cymorth am dri mis i hyd at flwyddyn yn cael ateb 'a' a 'b'; ac yn olaf, byddai'r rhai a oedd wedi bod yn cael cymorth am fwy na blwyddyn yn ateb 'a', 'b' ac 'c'. Mae rhai anghysondebau bach iawn yn y dull hwn, er enghraifft, lle gofynnwyd 'a' a 'b' i gleientiaid a oedd wedi bod yn cael cymorth am ddau fis a hanner, a gofynnwyd dim ond 'a' i gleientiaid a oedd wedi bod mewn cymorth am dri mis. Gofynnwyd 'a' i bawb a gymerodd ran yn yr arolwg.

Er bod y gwahaniaethu rhwng 'a', 'b' ac 'c' yn ddefnyddiol er mwyn canfod newid ar wahanol adegau o gymorth, roedd gan y dull hwn ei gyfyngiadau hefyd. Roedd yr holl ymatebion i 'b' yn cyfateb i gyfnod yn agos at ddechrau'r gefnogaeth, ac yn yr un modd, roedd ymatebion i 'c' yn cyfateb i bwynt hanner ffordd trwy daith cymorth y cleient hyd yma. Fodd bynnag, roedd yr ymatebion i 'a' yn ymwneud â'r adeg ar y pryd, waeth a oedd y cleient wedi bod yn cael cymorth am un mis, pum mis, deuddeg mis neu bum mis ar hugain. Felly, ni fyddai dadansoddi 'b', 'c' ac 'a' yn rhoi adlewyrchiad cywir o'r newidiadau a'r effaith trwy gydol y cymorth. O ganlyniad, cafodd yr holl ymatebion i 'a', 'b' ac 'c' eu rhoi ar amserlen h.y. gofynnwyd cwestiynau 'a', 'b' ac 'c' i gleient a oedd wedi bod yn cael cymorth am bedwar mis ar ddeg , lle byddai 'a' yn berthnasol i'r mis cyntaf, 'b' yn ymwneud â'r seithfed mis, ac 'c' yn ymwneud â mis pedwar ar ddeg. Gydag ymatebion yn cael eu rhoi ar amserlen fisol, cawsant eu rhannu i'r cyfnodau canlynol: hyd at ddau fis, 2 i 6 mis, 6 i 12 mis, 12 i 24 mis, a mwy na 24 mis. Dewiswyd y cyfnodau hyn yn seiliedig ar wybodaeth bresennol am Cefnogi Pobl/y Grant Cymorth Tai. Ystyriwyd bod rhannu ymatebion i'r amserlen hon yn rhoi darlun tecach o'r rhaglen o ran sut y bwriedir iddi weithredu ac yn rhoi darlun mwy cywir o daith cleient drwy gymorth.

Er mwyn asesu effaith gyffredinol yr amser yn cael cymorth, defnyddiwyd yr ymatebion i 'a', 'b' ac 'c. Mesurir yr effaith hon, boed yn 'gadarnhaol', 'negyddol', 'niwtral', neu 'arall', gan y gwahaniaethau mewn ymatebion rhwng yr ateb cronolegol cynharaf, 'b', a'r cam presennol 'a'. Fel enghreifftiau, effaith gadarnhaol yw pan mai'r ymateb i 'b' oedd 'gwael' a'r ymateb i 'a' oedd 'da'; effaith niwtral oedd pan nad oedd unrhyw newid a'r ymatebion i 'b' ac 'a' oedd 'gweddol'; effaith negyddol yw pan mai 'b' oedd 'da' ac 'a' oedd 'gwael'; ac effaith 'arall' yw pan oedd naill ai'r ymateb i 'b' neu 'a' yn 'ddim yn gwybod', 'mae'n well gen i beidio â dweud' neu pan wrthododd y cyfranogwr ateb y cwestiwn penodol hwnnw, gan na ellir mesur unrhyw lwybr nac effaith o'r ymatebion hyn.

Datblygwyd y dull methodolegol o fesur yr effaith gymdeithasol ar y cyd â Grŵp Llywio Ymchwil sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol, y byd academaidd a darparwyr gwasanaethau Cefnogi Pobl/y Grant Cymorth Tai. Mewn trafodaethau gyda'r grŵp hwn y gwnaed yr awgrym i ddefnyddio Arolwg Cenedlaethol Cymru fel sail i gwestiynau'r arolwg ar gyfer yr ymchwil hon, gan fod y cwestiynau hyn eisoes wedi'u profi a'u cymeradwyo i'w defnyddio mewn arolygon cenedlaethol. Roedd mabwysiadu'r dull hwn yn golygu bod modd cymharu mesuriadau iechyd a llesiant rhwng y sampl o ddefnyddwyr gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai a phoblogaeth gyffredinol Cymru.

# 4.2 Dadansoddi Data: Yr Effaith Gymdeithasol

Cynhaliwyd sampl o 114 o arolygon gyda phobl yn defnyddio gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai ledled Cymru. Bydd adran gyntaf y dadansoddiad data yn edrych ar ddemograffeg cyfranogwyr, gan gynnwys eu hoedran, rhyw, ardal awdurdod lleol, y math o gymorth, eu prif angen am gymorth, hyd disgwyliedig y cymorth/gwasanaeth a cham y cymorth. Bydd yr adrannau canlynol o ddadansoddiadau data yn cyflwyno canfyddiadau'r 13 cwestiwn arolwg a ofynnwyd, gan gwmpasu'r meysydd canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Iechyd cyffredinol | Boddhad â bywyd | Bywyd yn werth chweil | Pethau pwysig |
| Rheolaeth dros fywyd | Diogelwch | Teimlo'n dda | Meddwl yn glir |
| Teimlo'n ddefnyddiol | Yn agos at bobl | Diddordeb mewn pethau newydd | Hyderus |
| | Gobeithiol am y dyfodol | | |

Roedd cwestiynau’r arolwg yn dibynnu ar ba gam o gymorth roedd y cyfranogwyr arno, e.e. a) sut roedd y cyfranogwr yn teimlo adeg cymryd rhan yn yr arolwg, b) sut roedd y cyfranogwr yn teimlo ar ddechrau ei gymorth ac, c) sut roedd y cyfranogwr yn teimlo hanner ffordd drwy ei gymorth. Cafodd y data ar gyfer y 13 o gwestiynau’r arolwg ei ddadansoddi gan ddefnyddio’r fformat canlynol:

Dadansoddiad o ganfyddiadau'r arolwg ar gyfer y boblogaeth sampl o gyfranogwyr → Astudiaeth gymharol ag Arolwg Cenedlaethol Cymru → Dadansoddiad o ganfyddiadau'r arolwg dros amser → Cydberthynas rhwng yr amser a dreuliwyd yn derbyn y Grant Cymorth Tai a'r effaith gadarnhaol neu negyddol a adroddwyd

Allweddi siartiau:

- **Cyfranogwyr** – Poblogaeth y cyfranogwyr ymchwil ar gyfer yr astudiaeth hon (114)
- **HSG** – Y boblogaeth gyfan o ddefnyddwyr gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai yng Nghymru (adeg yr astudiaeth)
- **NSW** – Y boblogaeth gyffredinol a gymerodd ran yn Arolwg Cenedlaethol Cymru (2018/19)
- **Cyfrifiad** – Poblogaeth Cymru (o Gyfrifiad 2011)

Ceir gwybodaeth bellach am gwestiynau'r arolwg a'r dull casglu data ar ddechrau pob is-adran.


# 4.3 Demograffeg Cyfranogwyr

Gwybodaeth:

- Grŵp oedran
- Rhyw
- Rhanbarth ac ardal Awdurdod Lleol
- Math o gymorth a dderbyniwyd
- Prif angen
- Math o gymorth – sefydlog/fel y bo'r angen


Er mwyn darparu astudiaeth gymharol, cymharwyd y data demograffig o ganlyniadau poblogaeth sampl yr arolwg gyda; phoblogaeth gyffredinol gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai yn ei chyfanrwydd a, naill ai poblogaeth Arolwg Cenedlaethol Cymru neu boblogaeth Cymru yn ei chyfanrwydd (Cyfrifiad 2011).

Siart 1: Oedran y Cyfranogwyr





**Oedran y Cyfranogwyr:**

Mae Siart 1 yn dangos oedran poblogaeth sampl arolwg gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai. Mae'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr (65) o fewn y grŵp oedran 26-54. Oedran canolrif cyfranogwyr yr ymchwil oedd 41 mlwydd oed (yr un oedran canolrif ag ymatebwyr Cyfrifiad Cymru yn 2011).





**Rhyw y Cyfranogwyr:**


Mae Siart 2 yn dangos rhyw poblogaeth sampl arolwg gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai. Er bod nifer uwch o gyfranogwyr gwryw yn yr ymchwil hon, mae'r cydbwysedd rhwng y rhywiau yn dal i ddarparu sampl gynrychioliadol o boblogaeth gwasanaethau'r Grant.



**Cynrychiolaeth Ranbarthol y Cyfranogwyr:**
Mae Siart 3 yn dangos gwasgariad rhanbarthol y boblogaeth sampl o gymharu â phoblogaeth gyffredinol gwasanaethau’r Grant Cymorth Tai yng Nghymru, a phoblogaeth gyffredinol Cymru (Cyfrifiad, 2011). Ceir gorgynrychiolaeth o'r boblogaeth sampl o'i chymharu â phoblogaeth gwasanaethau’r Grant yn ardaloedd Cwm Taf, Gwent, y Fro a Chaerdydd a Gorllewin Morgannwg. Mae’r rhan fwyaf o'r ardaloedd hyn wedi’u gorgynrychioli rhyw fymryn ac eithrio'r Fro a Chaerdydd sydd wedi'i gorgynrychioli'n sylweddol. Nid oedd y Canolbarth a'r Gorllewin wedi'u cynrychiolaeth’n ddigonol o dipyn (8 – 27%). Mae'r ymchwilwyr yn cydnabod bod hyn yn broblem, a gwnaed pob ymdrech i fynd i'r afael â'r gynrychiolaeth ddaearyddol hon.





**Cymorth (Sefydlog/Fel y bo’r angen):**
Mae Siart 4 yn dangos poblogaeth sampl gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai wedi'i rhannu yn ôl cymorth sefydlog a chymorth fel y bo’r angen. Er bod gorgynrychiolaeth o gyfranogwyr yn y categori 'cymorth sefydlog' a chynrychiolaeth annigonol o gyfranogwyr sy’n cael 'cymorth fel y bo’r angen', yn gyffredinol, mae'r ddau fath o gymorth wedi'u cynrychioli'n dda yn yr arolwg hwn.




**Prif Angen – Grŵp Cleientiaid:**

Un o'r heriau mwyaf i unrhyw astudiaeth sy'n cynnwys cynrychiolaeth sampl o boblogaeth gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai yw pa mor fawr yw rhai grwpiau cleientiaid, er enghraifft, 'pobl dros 55 oed' neu 'gymorth cyffredinol fel y bo'r angen'. O'i wneud yn gymesur, mewn sampl o gant, byddai 28 yn cael eu rhestru fel 'cymorth cyffredinol fel y bo'r angen' a 39 fel 'pobl dros 55 oed', sy'n 77% o'r arolwg. Er y gall hyn fod yn gymesur, mae'n cuddio profiadau niferus ac amrywiol yr anghenion lluosog sydd gan gleientiaid y Grant.


Er nad yw'n gymesur, llwyddodd ein harolwg i gynrychioli amrywiaeth ehangach o grwpiau cleientiaid. Fel y gwelir yn Siart 5, mae 'pobl â phroblemau iechyd meddwl' a 'phobl ifanc ag anghenion cymorth' wedi cael eu gorgynrychioli er mai'r grwpiau cleientiaid hyn yw rhai o'r categorïau gwariant mwyaf ar gyfer cyllid y Grant.





**Y math o gymorth:**
Mae dadansoddiad pellach o'r math o gymorth y mae cyfranogwyr yn ei gael, wedi'i rannu'n gategorïau cymorth sefydlog a chymorth fel y bo'r angen, yn dangos gorgynrychiolaeth yn y categori 'sefydlog' ar gyfer y meysydd; 'pobl ifanc', 'problemau iechyd meddwl' a 'camddefnyddio sylweddau (alcohol)', ond mae'r rhain yn feysydd gwariant uchel ar gyfer cyllid y Grant Cymorth Tai.

Nid oes cynrychiolaeth ddigonol o 'pobl dros 55 oed' a fyddai'n dominyddu'r ystadegau hyn fel arfer ym mhoblogaeth ehangach gwasanaethau'r Grant yn gyffredinol.

O fewn y categori 'fel y bo'r angen' eto, ceir cynrychiolaeth ormodol o'r maes 'iechyd meddwl' yn ogystal â chynrychiolaeth ormodol ym meysydd 'cymorth cyffredinol fel y bo'r angen' a 'pobl hŷn'.




**Hyd a chyfnod y cymorth:**

Mae Siart 7 yn dangos am ba hyd roedd cyfranogwyr wedi bod yn cael cymorth adeg yr arolwg. Ar wahân i'r cyfnod cyntaf, 'hyd at ddau fis', mae'r pedwar cyfnod arall wedi'u cynrychioli'n gyfartal. Dynodwyd y pum cyfnod hyn gan y tîm ymchwil yn seiliedig ar wybodaeth bresennol am y Grant Cymorth Tai.

Fel yr esboniwyd yn y cyflwyniad i'r adran hon, cafodd y cwestiynau a ofynnwyd yn yr arolwg eu pennu gan ba gam o gymorth roedd y cyfranogwyr arno. Cafodd cyfranogwyr a oedd wedi bod yn cael cymorth am hyd at dri mis eu categoreiddio fel cam (a), cafodd y rhai oedd wedi bod yn cael cymorth am hyd at flwyddyn eu categoreiddio fel cam (a) a (b), a mwy na blwyddyn yn (a), (b) ac (c). Mae Siart 8 yn dangos nifer y cyfranogwyr ym mhob un o'r camau hyn.

# 4.4 Iechyd Cyffredinol

Cwestiynau'r Arolwg:

a) Sut mae eich iechyd yn gyffredinol?

b) *Meddyliwch yn ôl i ddechrau'r cymorth…*
Sut oedd eich iechyd yn gyffredinol?


c) *Meddyliwch yn ôl i hanner ffordd drwy'r cymorth…*
Sut oedd eich iechyd yn gyffredinol?

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr raddio eu hiechyd cyffredinol yn y categori hwn fel 'da iawn', 'da', 'gweddol', 'gwael' neu 'gwael iawn'.


**Prif bwyntiau:**

- Nododd 6% o gyfranogwyr yr ymchwil fod eu hiechyd cyffredinol yn 'dda iawn' o gymharu â 37% o gyfranogwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19
- Nododd 27% o gyfranogwyr yr ymchwil fod eu hiechyd cyffredinol yn 'wael iawn' o gymharu â 6% o gyfranogwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19
- Nododd 38% o gyfranogwyr yr ymchwil fod eu hiechyd cyffredinol yn 'wael iawn' yn ystod 2 fis cyntaf eu cymorth. Mae hyn yn gostwng yn raddol trwy gydol eu cymorth gydag ymatebion mwy cadarnhaol yn cael eu cofnodi yn ystod gwahanol gamau o gymorth, fodd bynnag, nododd 44% o gyfranogwyr fod eu hiechyd cyffredinol yn 'wael' yn y cyfnod 'mwy na 24 mis'
- Dywedodd 67% o gyfranogwyr yr ymchwil eu bod wedi gweld effaith gadarnhaol barhaus ar eu hiechyd cyffredinol yn ystod yr amser y maent wedi bod yn derbyn cymorth y Grant Cymorth Tai

Siart 9: Iechyd cyffredinol





**'Iechyd cyffredinol':**
Mae Siart 9 yn dangos sut mae cyfranogwyr yr ymchwil yn graddio eu hiechyd yn gyffredinol, o 'gwael iawn' i 'da iawn', adeg yr arolwg. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr o'r farn bod cyflwr eu hiechyd cyffredinol naill ai'n 'wael', yn 'weddol' neu'n 'dda', gan osgoi eithafion gwael iawn neu dda iawn gan mwyaf.




**'Iechyd Cyffredinol' o'i gymharu ag Arolwg Cenedlaethol Cymru (NSW):**

Mae Siart 10 yn cymharu canfyddiadau'r ymchwil hon a chanfyddiadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19. Mae hyn yn dangos deuoliaeth wirioneddol rhwng iechyd canfyddedig poblogaeth sampl gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai a'r boblogaeth gyffredinol, yn enwedig i'r rhai sy'n ystyried bod eu hiechyd cyffredinol yn 'dda iawn'.

Mae'r siart hwn hefyd yn dangos i fwy o gyfranogwyr ym mhoblogaeth sampl gwasanaethau'r Grant ddewis y categori 'gweddol' a bod llawer mwy o gyfranogwyr wedi dewis y categori 'gwael', na'r boblogaeth gyffredinol (Arolwg Cenedlaethol Cymru).





**'Iechyd Cyffredinol' trwy gydol camau'r cymorth:**

O fewn poblogaeth sampl yr ymchwil, mae cyfranogwyr sy'n nodi bod eu hiechyd yn 'wael iawn' yn gostwng yn sylweddol yn dilyn eu camau cymorth cychwynnol (fel y dangosir yn Siart 11). Mae patrymau tebyg i'r ymatebion 'gweddol' a 'da', gyda'r ymateb 'da' ar ei agosaf i'r ymateb 'da' yn Arolwg Cenedlaethol Cymru (30% yn yr ymchwil a 35% yn yr Arolwg Cenedlaethol) yn y cam '2 i 6 mis'.

Ar bob cam o'r cymorth, mae'r ymatebion 'da iawn' yn eithaf pell o'r cyfartaleddau cenedlaethol, gan gyrraedd uchafbwynt o 9% yn unig yn y cam 'mwy na 24 mis'. Mae'r ymateb 'gwael', er ei fod yn cyd-fynd â chynnydd mewn ymatebion 'gweddol' a 'da', yn gweld cynnydd sylweddol i 44% ar gyfer y cam olaf, 'mwy na 24 mis'.

Siart 12: Cydberthyniad rhwng yr amser a dreuliwyd yn cael cymorth a'r effaith ar 'iechyd cyffredinol'




**Cydberthyniad rhwng yr amser a dreuliwyd yn derbyn cymorth y Grant Cymorth Tai a'r effaith ar 'iechyd cyffredinol':**
Mae Siart 12 yn darparu cydberthyniad rhwng yr amser a dreuliwyd yn cael cymorth y Grant a'r effaith ar 'iechyd cyffredinol'. Dywedodd 67% eu bod wedi gweld effaith gadarnhaol barhaus ar eu hiechyd cyffredinol yn ystod yr amser y maent wedi bod yn cael cymorth y Grant.

# 4.5 Boddhad â Bywyd

Cwestiynau'r Arolwg:

a) Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi gyda'ch bywyd ar hyn o bryd?


b) *Meddyliwch yn ôl i ddechrau'r cymorth…*
Yn gyffredinol, pa mor fodlon oeddech chi gyda'ch bywyd?

c) *Meddyliwch yn ôl i hanner ffordd drwy eich cymorth…*
Yn gyffredinol, pa mor fodlon oeddech chi gyda'ch bywyd?

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr raddio eu hymatebion i gwestiynau yn y categori hwn ar raddfa o 0-10 gyda 0 ar gyfer lleiaf bodlon a 10 ar gyfer mwyaf bodlon.


**Prif bwyntiau:**

- Pan ofynnwyd iddynt 'ar raddfa o 0-10' pa mor fodlon oedd cyfranogwyr yr ymchwil â'u bywyd, y sgôr gyfartalog oedd 6. Y sgôr gyfartalog ar gyfer cyfranogwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19 oedd bron 8
- Wrth ystyried 'boddhad â bywyd' dros amser, mae cyfranogwyr yr ymchwil yn nodi sgôr gyfartalog isel iawn ar ddechrau eu cymorth gan y Grant Cymorth Tai ac mae hyn yn cynyddu'n sylweddol wrth i gyfranogwyr symud ymlaen drwy gamau'r cymorth
- Dywedodd 79% o'r cyfranogwyr eu bod yn gweld effaith gadarnhaol barhaus ar eu boddhad â bywyd yn ystod yr amser y maent wedi bod yn derbyn cymorth y Grant.





**'Boddhad â bywyd':**
Ar raddfa o 0-10, mae'r golofn ar ochr chwith Siart 13 yn dangos bod cyfranogwyr y Grant Cymorth Tai ar gyfartaledd yn rhoi sgôr o 5.63 ar gyfer eu boddhad â bywyd.

Wrth gymharu hyn â chanfyddiadau Arolwg Cenedlaethol Cymru, mae gwahaniaeth sylweddol gyda chyfranogwyr yr Arolwg Cenedlaethol yn nodi 7.8 ar gyfer yr un cwestiwn.





**'Boddhad â bywyd' dros amser:**
Mae Siart 14 yn dangos plot gwasgariad o'r holl ymatebion rhifiadol a ddarparwyd ar gyfer y cwestiwn 'boddhad â bywyd'. Mae'r ymatebion hyn wedi'u plotio dros gyfnod o 84 mis er mwyn creu llinell dueddiadau o ymatebion. Fel y gwelir, ceir mwyafrif yr ymatebion yng nghamau cynharach y cymorth ac mae hyn yn lleihau dros amser, gan adlewyrchu'r amser roedd cyfranogwyr wedi bod yn cael cymorth adeg cwblhau'r arolwg.

Mae'r plot gwasgariad hwn yn dangos bod yr ymateb (negyddol) cyfartalog isel cychwynnol i'r cwestiwn hwn yn cynyddu'n sylweddol (i fod yn gadarnhaol) yn ystod camau cynnar y cymorth. Ar ôl 12 mis o gymorth, mae'r llinell duedd yn parhau i gynyddu'n gyson, er bod hyn ar gyfradd arafach o lawer.




**'Boddhad â bywyd' drwy gydol camau'r cymorth:**
Mae Siart 15 yn dangos yr ymateb cyfartalog (0-10) ar gyfer y categori 'boddhad â bywyd' ym mhob cyfnod. Gwelir y cynnydd mwyaf (ymateb cadarnhaol) rhwng y cyfnodau 'hyd at ddau fis' a '2 i 6 mis. Mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau'r siart flaenorol bod cyfranogwyr yn profi effaith gadarnhaol sylweddol yng nghamau cynnar eu cymorth gan y Grant.




**Cydberthyniad rhwng amser a dreuliwyd yn cael cymorth y Grant Cymorth Tai a'r effaith ar 'foddhad â bywyd':**
Mae Siart 16 yn darparu cydberthyniad rhwng yr amser a dreuliwyd yn derbyn cymorth y Grant Cymorth Tai a'r effaith ar 'foddhad â bywyd'. Dywedodd 79% eu bod wedi gweld effaith gadarnhaol barhaus yn ystod yr amser y maent wedi bod yn derbyn cymorth y Grant.

# 4.6 Mae Pethau mewn Bywyd yn Werth Chweil

Cwestiynau'r Arolwg:

a) Yn gyffredinol, i ba raddau ydych chi'n teimlo bod y pethau rydych chi'n eu gwneud yn eich bywyd yn werth chweil?


b) *Meddyliwch yn ôl i ddechrau'r cymorth…*
Yn gyffredinol, i ba raddau oeddech chi'n teimlo bod y pethau roeddech chi'n eu gwneud yn eich bywyd yn werth chweil?

c) *Meddyliwch yn ôl i hanner ffordd drwy eich cymorth…*
Yn gyffredinol, i ba raddau oeddech chi'n teimlo bod y pethau roeddech chi'n eu gwneud yn eich bywyd yn werth chweil?

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr raddio eu hymatebion i gwestiynau yn y categori hwn ar raddfa o 0-10 gyda 0 yn lleiaf gwerth chweil a 10 yn fwyaf gwerth chweil.


**Prif bwyntiau:**

- Pan ofynnwyd i gyfranogwyr yr ymchwil ar raddfa o 0-10 i ba raddau yr oeddent yn teimlo bod y 'pethau maent yn eu gwneud mewn bywyd yn werth chweil', roedd y sgôr gyfartalog bron yn 6. Y sgôr gyfartalog ar gyfer cyfranogwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19 oedd 8
- Wrth ystyried 'bod pethau mewn bywyd yn werth chweil' dros amser, yn debyg i'r cwestiwn blaenorol, mae cyfranogwyr yr ymchwil yn rhoi sgôr gyfartalog isel iawn ar ddechrau eu cymorth gan y Grant ac mae hyn yn cynyddu'n sylweddol wrth i gyfranogwyr symud ymlaen drwy gamau'r cymorth
- Nododd 74% o gyfranogwyr yr ymchwil eu bod wedi gweld effaith gadarnhaol barhaus ar y categori 'pethau mewn bywyd yn werth chweil' yn ystod yr amser y maent wedi bod yn derbyn cymorth gwasanaethau'r Grant.




**'Mae pethau mewn bywyd yn werth chweil':**


Ar raddfa o 0-10, mae'r golofn ar y chwith yn dangos bod cyfranogwyr yr arolwg hwn ar gyfartaledd yn rhoi sgôr o 5.86 ar gyfer 'mae pethau mewn bywyd yn werth chweil'. Mae hyn yn sylweddol is na chanfyddiadau Arolwg Cenedlaethol Cymru gyda chyfranogwyr yn rhoi sgôr o 8.01 ar gyfartaledd, ar gyfer yr un cwestiwn.





**'Mae pethau mewn bywyd yn werth chweil' dros amser:**

Mae siart 18 yn dangos plot gwasgariad o'r holl ymatebion rhifiadol a ddarparwyd ar gyfer y cwestiwn 'mae pethau mewn bywyd yn werth chweil'. Mae'r ymatebion hyn wedi'u plotio dros gyfnod o 84 mis er mwyn creu llinell duedd o ymatebion. Fel gyda'r plot gwasgariad blaenorol, ceir mwyafrif yr ymatebion yng nghamau cynharach y cymorth ac mae hyn yn lleihau dros amser, gan adlewyrchu'r amser yr oedd cyfranogwyr wedi bod yn cael cymorth adeg cwblhau'r arolwg.

Unwaith eto, fel gydag adran flaenorol yr arolwg, mae'r plot gwasgariad hwn yn dangos bod yr ymateb (negyddol) cyfartalog isel cychwynnol yn cynyddu'n sylweddol (i fod yn gadarnhaol) yn ystod camau cynnar y cymorth, gan ddangos effaith gynnar gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai ar y categori penodol hwn.




**'Mae pethau mewn bywyd yn werth chweil' trwy gydol camau'r cymorth:**
Mae Siart 19 yn dangos yr ymateb cyfartalog (0-10) ar gyfer y categori 'mae pethau mewn bywyd yn werth chweil' ym mhob cyfnod o fisoedd. Gwelir y cynnydd mwyaf (ymateb cadarnhaol) rhwng y cyfnodau 'hyd at ddau fis' a '2 i 6 mis. Ar ôl hynny, mae llawer llai o amrywiad rhwng cyfnodau amser, ond fel gyda'r cwestiwn boddhad, ymhell o hyd o gyfartaleddau Arolwg Cenedlaethol Cymru.




**Cydberthyniad rhwng yr amser a dreuliwyd yn derbyn cymorth y Grant Cymorth Tai a'r effaith ar 'Mae pethau mewn bywyd yn werth chweil':**
Mae'r siart hwn yn dangos i 74% o'r cyfranogwyr nodi effaith gadarnhaol barhaus ar y categori 'mae pethau mewn bywyd yn werth chweil' yn ystod yr amser y maent wedi bod yn derbyn cymorth y Grant Cymorth Tai.

# 4.7 Y Pethau sy'n Bwysig i Mi

Cwestiynau'r Arolwg:

a) I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â "Rwy'n gallu gwneud y pethau sy'n bwysig i mi”?

b) *Meddyliwch yn ôl i ddechrau'r cymorth…*
I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â "Roeddwn i'n gallu gwneud y pethau sy'n bwysig i mi”?


c) *Meddyliwch yn ôl i hanner ffordd drwy’r cymorth…*
I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â "Roeddwn i'n gallu gwneud y pethau a oedd yn bwysig i mi”?

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr i ba raddau y maent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad "Rwy'n gallu gwneud y pethau sy'n bwysig i mi”.

**Prif bwyntiau:**

- Roedd 30% o gyfranogwyr yr ymchwil yn 'cytuno'n gryf' â'r ymadrodd 'Rwy'n gallu gwneud y pethau mewn bywyd sy'n bwysig i mi' o gymharu â 31% o gyfranogwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19
- Roedd 8% o gyfranogwyr yr ymchwil yn 'anghytuno'n gryf' â'r ymadrodd o gymharu â 6% o gyfranogwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19
- Nododd 67% effaith gadarnhaol barhaus ar y categori 'y pethau sy'n bwysig i mi' yn ystod yr amser y maent wedi bod yn derbyn cymorth y Grant Cymorth Tai

Siart 21: 'Y pethau sy'n bwysig i mi'





**‘Y pethau sy'n bwysig i mi’:**

Roedd mwyafrif arwyddocaol o'r cyfranogwyr naill ai'n tueddu i gytuno (33%) neu gytuno’n gryf (30%) â'r datganiad hwn adeg cwblhau’r arolwg.


Fel y dangosir yn Siart 21, mae hyn yn ymateb cadarnhaol iawn i'r cwestiwn arolwg hwn.

Siart 22: 'Y Pethau sy'n bwysig i mi' o gymharu ag Arolwg Cenedlaethol Cymru




**'Y pethau sy'n bwysig i mi' o gymharu ag Arolwg Cenedlaethol Cymru:**
Mae Siart 22 yn cymharu arolwg sampl gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai a chanfyddiadau Arolwg Cenedlaethol Cymru. Mae'n yn dangos ymatebion tebyg ar gyfer y rhan fwyaf o'r categorïau gyda chanrannau cyfartal bron ar gyfer y categori 'cytuno'n gryf' mwyaf cadarnhaol.


Siart 23: 'Y pethau sy'n bwysig i mi' trwy gydol camau'r cymorth



**'Y pethau sy'n bwysig i mi' trwy gydol camau'r cymorth:**

Mae canran uchel o ymatebion 'anghytuno'n gryf' am y cyfnod o dan ddau fis, ond mae hyn yn lleihau ar gyfer camau diweddarach y cymorth gyda chynnydd yn yr ymatebion ar gyfer pob categori arall. Mae canran uchel iawn o ymatebion 'tueddu i gytuno', 41%, yn y cyfnod '2 i 6 mis' a '6 i 12 mis. Roedd 33% o gyfranogwyr yn cytuno'n gryf â'r ymadrodd 'Rwy'n gallu gwneud y pethau sy'n bwysig i mi' yn y categori '12 i 24 mis' a 32% yn y categori 'mwy na 24 mis' o'u cymorth.

Siart 24: Cydberthyniad rhwng yr amser a dreuliwyd yn cael cymorth a gallu gwneud 'y pethau sy'n bwysig i mi'




**Cydberthyniad rhwng yr amser a dreuliwyd yn cael cymorth y Grant Cymorth Tai a gallu gwneud 'y pethau sy'n bwysig i mi':**

Mae Siart 24 yn darparu cydberthyniad rhwng yr amser a dreuliwyd yn cael cymorth y Grant Cymorth Tai a'r effaith ar 'y pethau sy'n bwysig i mi'. Nododd 67% effaith gadarnhaol barhaus yn ystod yr amser y maent wedi bod yn cael cymorth y Grant.

# 4.8 Rheolaeth Dros Fywyd Bob Dydd

Cwestiynau'r Arolwg:

a) I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â "Fi sy'n rheoli fy mywyd bob dydd gymaint ag y gallaf"?


b) *Meddyliwch yn ôl i ddechrau'r cymorth...*
I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â "Fi oedd yn rheoli fy mywyd bob dydd gymaint ag y gallwn"?

c) *Meddyliwch yn ôl i hanner ffordd drwy'r cymorth...*
I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â "Fi oedd yn rheoli fy mywyd bob dydd gymaint ag y gallwn"?

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr i ba raddau y maent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad "Fi sy'n rheoli fy mywyd bob dydd gymaint ag y gallaf".


**Prif bwyntiau:**

- Roedd 39% o gyfranogwyr yr ymchwil yn cytuno'n gryf â'r ymadrodd 'Fi sy'n rheoli fy mywyd bob dydd' o gymharu â 38% o gyfranogwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19
- Roedd 34% yn tueddu i gytuno â'r un ymadrodd, adeg cwblhau'r arolwg, o gymharu â 42% o gyfranogwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru
- Dim ond 5% o gyfranogwyr yr ymchwil a 5% o gyfranogwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru a oedd yn anghytuno'n gryf â'r ymadrodd hwn
- Roedd 42% o'r cyfranogwyr ymchwil a oedd wedi bod yn cael cymorth Cefnogi Pobl am lai na dau fis yn anghytuno'n gryf â'r ymadrodd hwn, fodd bynnag, mae'r ganran hon yn gostwng yn sylweddol wrth i gyfranogwyr symud ymlaen drwy gamau eu cymorth
- Rhoddodd canran uchel o gyfranogwyr ymateb cadarnhaol o ddau fis ymlaen gyda 44% yn cytuno'n gryf o fewn 12 i 24 mis o gymorth
- Nododd 80% o'r cyfranogwyr effaith gadarnhaol barhaus ar y categori 'Fi sy'n rheoli fy mywyd bob dydd' yn ystod yr amser y maent wedi bod yn derbyn cymorth y Grant





**'Fi sy'n rheoli fy mywyd bob dydd':**

Mae Siart 25 yn dangos sut roedd cyfranogwyr yn teimlo am y datganiad 'Fi sy'n rheoli fy mywyd bob dydd gymaint ag y gallaf' yn amrywio o anghytuno'n gryf i gytuno'n gryf. Roedd mwyafrif sylweddol y cyfranogwyr naill ai'n tueddu i gytuno (34%) neu'n cytuno'n gryf (39%) â'r datganiad hwn adeg cwblhau'r arolwg.





**'Fi sy'n rheoli fy mywyd bob dydd' o gymharu ag Arolwg Cenedlaethol Cymru:**
Mae Siart 26 yn dangos set debyg iawn o ystadegau ar gyfer y datganiad 'Fi sy'n rheoli fy mywyd bob dydd gymaint ag y gallaf' gyda dim ond mân wahaniaethau yn y categorïau 'tueddu i gytuno' a 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno'. Yn ddiddorol, roedd 1% yn fwy o boblogaeth sampl gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai yn 'cytuno'n gryf' â'r datganiad hwn, o gymharu â chyfranogwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru.



**'Fi sy'n rheoli fy mywyd bob dydd' trwy gydol camau'r cymorth:**
Fel y dadansoddiadau blaenorol dros amser, derbyniwyd canran uchel o ymatebion 'anghytuno'n gryf' gan gyfranogwyr a oedd wedi bod yn cael cymorth am 'hyd at ddau fis'. Fodd bynnag, yn wahanol i ddadansoddiadau blaenorol, ceir ymateb mwy cadarnhaol yng nghamau diweddarach y gefnogaeth. Ymatebodd 54% 'tueddu i gytuno' am y cyfnod '2 i 6 mis', tra bod 44% o'r cyfranogwyr yn 'cytuno'n gryf' o fewn cyfnodau '12 i 24 mis' a 'mwy na 24 mis'. Mae'r tair enghraifft hyn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn Arolwg Cenedlaethol Cymru.

Siart 28: Cydberthyniad rhwng yr amser a dreuliwyd yn cael cymorth ac effaith ar 'Fi sy'n rheoli fy mywyd bob dydd'




**Cydberthyniad rhwng yr amser a dreuliwyd yn cael cymorth ac effaith ar 'fi sy'n rheoli fy mywyd bob dydd:**
Dengys Siart 28 fod 80% o'r cyfranogwyr wedi nodi effaith gadarnhaol barhaus ar y categori 'Fi sy'n rheoli fy mywyd bob dydd' yn ystod yr amser y maent wedi bod yn derbyn cymorth y Grant Cymorth Tai.

# 4.9 Teimlo'n Ddiogel

ℹ

Cwestiynau'r Arolwg:

a) I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â "Rwy'n teimlo'n ddiogel"?

b) *Meddyliwch yn ôl i ddechrau'r cymorth…*
I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â "Rwy'n teimlo'n ddiogel"?


c) *Meddyliwch yn ôl i hanner ffordd drwy'r cymorth…*
I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â "Roeddwn i'n teimlo'n ddiogel"?

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr i ba raddau y maent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad "Rwy'n teimlo'n ddiogel".

**Prif bwyntiau:**

- Roedd 46% o gyfranogwyr yr ymchwil yn cytuno'n gryf â'r ymadrodd 'Rwy'n teimlo'n ddiogel' o gymharu â 48% o gyfranogwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19
- Roedd 9% o gyfranongwyr yr ymchwil yn anghytuno'n gryf â'r ymadrodd hwn o gymharu â 4% o gyfranogwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru
- Roedd 39% o gyfranogwyr yr ymchwil yn anghytuno'n gryf â'r ymadrodd hwn yn ystod 2 fis cyntaf cymorth y Grant Cymorth Tai, ond mae'r ganran hon yn gostwng yn sylweddol wrth i gyfranogwyr symud ymlaen drwy gamau eu cymorth
- Roedd canran sylweddol uchel o gyfranogwyr yr ymchwil yn cytuno'n gryf â'r ymadrodd hwn ar ôl 3 mis o gymorth y Grant
- Nododd 63% o'r cyfranogwyr effaith gadarnhaol barhaus ar y categori 'Rwy'n teimlo'n ddiogel' yn ystod yr amser y maent wedi bod yn derbyn cymorth Cefnogi Pobl


Siart 29: 'Rwy'n teimlo'n ddiogel'





**'Rwy'n teimlo'n ddiogel':**

Mae Siart 29 yn dangos sut roedd cyfranogwyr yn teimlo am y datganiad 'Rwy'n teimlo'n ddiogel', yn amrywio o anghytuno'n gryf i gytuno'n gryf.

Roedd nifer sylweddol o gyfranogwyr yn tueddu i gytuno (27%) ac roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn cytuno'n gryf (46%) â'r datganiad hwn adeg cwblhau'r arolwg.





**'Rwy'n teimlo'n ddiogel' o gymharu ag Arolwg Cenedlaethol Cymru:**
Mae siart 30 yn dangos y gymhariaeth rhwng poblogaeth sampl gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai a chanfyddiadau Arolwg Cenedlaethol Cymru. Mae'n dangos set debyg iawn o ystadegau ar gyfer y datganiad 'Rwy'n teimlo'n ddiogel' gyda'r unig wahaniaeth sylweddol (10%) yn y categori 'tueddu i gytuno'. Yn wahanol i gategorïau eraill yr arolwg, mae canran uchel iawn o gyfranogwyr yr ymchwil (46%) cytuno'n gryf â'r datganiad hwn.



**'Rwy'n teimlo'n ddiogel' trwy gydol camau'r cymorth:**
Yn unol â'r tueddiadau blaenorol trwy gydol camau'r cymorth, mae Siart 31 yn dangos cyfradd ymateb uchel gychwynnol ar gyfer y categori 'anghytuno'n gryf'. Fodd bynnag, mae hyn yn lleihau'n sylweddol trwy gydol camau'r cymorth. At ei gilydd, mae'r ymateb 'cytuno'n gryf' yn gymharol uchel, er yn sylweddol uwch o ddau fis ymlaen.

Siart 32: Cydberthyniad rhwng yr amser a dreuliwyd yn cael cymorth a'r effaith ar 'Rwy'n teimlo'n ddiogel'




**Cydberthyniad rhwng yr amser a dreuliwyd yn cael cymorth y Grant Cymorth Tai a'r effaith ar 'Rwy'n teimlo'n ddiogel':**
Mae Siart 32 yn dangos i 63% o'r cyfranogwyr nodi effaith gadarnhaol barhaus ar y categori 'Rwy'n teimlo'n ddiogel' yn ystod yr amser y maent wedi bod yn derbyn cymorth y Grant Cymorth Tai. Er mai dyma un o'r effeithiau cadarnhaol is, mae'r ymatebion negyddol hefyd yn un ymhlith yr isaf hefyd, sef 5%.

# 4.10 Teimlo'n Dda


Cwestiynau'r Arolwg:

a) Rydw i wedi bod yn teimlo'n dda amdanaf fi fy hun
b) *Meddyliwch yn ôl i ddechrau'r cymorth…*
Roeddwn i'n teimlo'n dda amdanaf fi fy hun
c) *Meddyliwch yn ôl i hanner ffordd drwy'r cymorth…*
Roeddwn i'n teimlo'n dda amdanaf fi fy hun

Yn y categori hwn o'r arolwg, ac ar gyfer y saith categori sy'n weddill, cymerwyd cwestiynau o raddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Caeredin, sydd wedi cael eu gofyn yn Arolwg Cenedlaethol Cymru ar wahanol adegau hefyd. Yma, gofynnir i gyfranogwyr ddewis ateb sy'n disgrifio orau eu profiad o 'deimlo'n dda' dros y pythefnos blaenorol.


**Prif bwyntiau:**

- Roedd 10% o gyfranogwyr yr ymchwil yn teimlo'n dda amdanyn nhw eu hunain 'drwy'r amser' o gymharu ag 20% o gyfranogwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19
- Roedd 12% o gyfranogwyr yr ymchwil yn teimlo'n dda amdanyn nhw eu eu hunain 'dim o'r amser' o gymharu â 3% o gyfranogwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru
- Roedd 50% o gyfranogwyr yr ymchwil a oedd wedi bod yn cael cymorth y Grant Cymorth Tai am lai na 2 fis yn teimlo'n dda amdanyn nhw eu eu hunain 'dim o'r amser', ond mewn patrwm tebyg i gategorïau blaenorol, mae hyn yn lleihau'n sylweddol wrth i gyfranogwyr symud ymlaen drwy gamau eu cymorth
- Roedd 46% o gyfranogwyr yr ymchwil yn teimlo'n dda amdanyn nhw eu hunain 'peth o'r amser' ar ôl cael 12-24 mis o gymorth
- Nododd 72% o'r cyfranogwyr effaith gadarnhaol barhaus ar y categori 'teimlo'n dda amdanaf fi fy hun' yn ystod yr amser y maent wedi bod yn derbyn cymorth y Grant





**'Teimlo'n dda amdanaf fi fy hun':**


Ymatebodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr (30%), fel y dangosir yn Siart 33, 'peth o'r amser', gydag ymatebion 'yn aml' (28%) yn ail agos. Ymatebodd llai o gyfranogwyr gydag eithafion 'drwy'r amser' (10%) neu 'dim o'r amser' (12%).




**‘Teimlo'n dda amdanaf fi fy hun' o gymharu ag Arolwg Cenedlaethol Cymru:**
Wrth gymharu canlyniadau'r arolwg â chanfyddiadau Arolwg Cenedlaethol Cymru, gellir gweld gwahaniaethau amlwg (yn Siart 34) yn y categorïau 'dim o'r amser' a 'drwy'r amser' er bod yna gysondeb gyda’r rhan fwyaf o boblogaethau gwasanaethau’r Grant Cymorth Tai ac Arolwg Cenedlaethol Cymru yn ymateb 'peth o'r amser' ac 'yn aml’. Mae ymatebion cyffredinol cyfranogwyr yr ymchwil yn cyfrif am fwy o gategorïau negyddol na chyfranogwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru.




**'Teimlo'n dda amdanaf fi fy hun' trwy gydol camau'r cymorth:**
Fel gyda chwestiynau blaenorol yr arolwg, nododd y nifer uchaf (50%) o gyfranogwyr yng nghamau cynnar eu cymorth ('hyd at ddau fis') y categori 'dim o'r amser' ond mae hyn yn lleihau'n sylweddol wrth iddynt symud ymlaen drwy gamau'r cymorth. Er gwaethaf hyn, drwy gydol y cyfnod, mae'r ymatebion 'drwy'r amser' yn isel iawn, gan gyrraedd uchafbwynt o 13% yn y categori '12 i 24 mis'. Ymatebodd 41% 'yn aml' yn y cyfnod '2 i 6 mis.




**Cydberthyniad rhwng yr amser a dreuliwyd yn cael cymorth y Grant Cymorth Tai a'r effaith ar 'Rwy'n teimlo'n dda amdanaf fi fy hun':**
Nododd 72% o gyfranogwyr yr ymchwil effaith gadarnhaol barhaus ar y categori 'teimlo'n dda amdanaf fi fy hun' yn ystod yr amser y maent wedi bod yn derbyn cymorth y Grant Cymorth Tai, fel y dangosir yn Siart 36.

Cwestiynau'r Arolwg:

a) Rydw i wedi bod yn meddwl yn glir

b) *Meddyliwch yn ôl i ddechrau'r cymorth…*
Roeddwn i'n meddwl yn glir

c) *Meddyliwch yn ôl i hanner ffordd drwy'r cymorth…*
Roeddwn i'n meddwl yn glir


Yn y categori hwn gofynnir i gyfranogwyr ddewis ateb sy'n disgrifio orau eu profiad o 'feddwl yn glir' dros y pythefnos blaenorol.

# 4.11 Meddwl yn Glir


**Prif bwyntiau:**

- Mae 15% o gyfranogwyr yr ymchwil wedi bod yn meddwl yn glir 'drwy'r amser' o gymharu â 30% o gyfranogwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19
  Mae 7% o gyfranogwyr yr ymchwil wedi bod yn meddwl yn glir 'dim o'r amser' o gymharu â 2% o gyfranogwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru
- Roedd 41% o gyfranogwyr yr ymchwil a oedd wedi bod yn cael cymorth Cefnogi Pobl am lai na 2 fis yn teimlo eu bod wedi bod yn meddwl yn glir 'dim o'r amser' ond mae hyn yn lleihau wrth i gyfranogwyr symud ymlaen drwy gamau eu cymorth
- Nododd 70% o'r cyfranogwyr effaith gadarnhaol barhaus ar y categori 'Rydw i wedi bod yn meddwl yn glir' yn ystod yr amser y maent wedi bod yn derbyn cymorth y Grant Cymorth Tai


Siart 37: 'Rydw i wedi bod yn meddwl yn glir'




**'Rydw i wedi bod yn meddwl yn glir':**
Mae Siart 37 yn dangos ymatebion y cyfranogwyr i'r datganiad 'Rydw i wedi bod yn meddwl yn glir'. Yr ymatebion mwyaf poblogaidd oedd 'peth o'r amser' ac 'yn aml', a 'dim o'r amser' ac 'yn anaml' oedd yr atebion lleiaf poblogaidd.





**'Rydw i wedi bod yn meddwl yn glir' o gymharu ag Arolwg Cenedlaethol Cymru:**
Mae gwahaniaethau sylweddol yn amlwg yn y categorïau 'drwy'r amser' ac 'yn aml' (cadarnhaol) gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebion yn Arolwg Cenedlaethol Cymru yn perthyn i'r categorïau hyn. Fel gyda siartiau blaenorol, mae Siart 38 yn dangos bod y gwrthwyneb yn wir ar gyfer categorïau negyddol 'dim o'r amser', 'yn anaml' a 'peth o'r amser' gyda'r rhan fwyaf o ymatebion cyfranogwyr yr ymchwil yn perthyn i'r categorïau hyn.



**'Rydw i wedi bod yn meddwl yn glir' trwy gydol camau'r cymorth:**
Mae Siart 39 yn dilyn patrwm tebyg unwaith eto i ymatebion blaenorol i'r arolwg gyda'r categori 'dim o'r amser' fwyaf poblogaidd o dipyn ymhlith ymatebwyr sydd wedi bod yn cael cymorth 'hyd at ddau fis' (41%) ac yn lleihau trwy gydol camau'r cymorth yn y dyfodol. Mae'n werth nodi'r ymatebion uwch ar gyfer 'peth o'r amser', rhwng 39% a 41%, ar gyfer y tri chyfnod canol o gymorth, ac ymatebion is yn gyffredinol yn yr ymateb 'drwy'r amser', gan gyrraedd uchafbwynt o 19%, ar gyfer y cwestiwn hwn hefyd.

Siart 40: Cydberthyniad rhwng yr amser a dreuliwyd yn cael cymorth a'r effaith ar 'Rydw i wedi bod yn meddwl yn glir'




**Cydberthyniad rhwng yr amser a dreuliwyd yn cael cymorth y Grant Cymorth Tai a'r effaith ar 'Rydw i wedi bod yn meddwl yn glir':**
Mae'r siart hwn yn dangos bod 70% o gyfranogwyr yr ymchwil wedi nodi effaith gadarnhaol barhaus ar y categori 'Rydw i wedi bod yn meddwl yn glir' yn ystod yr amser y maent wedi bod yn derbyn cymorth y Grant Cymorth Tai.

# 4.12 Teimlo'n Ddefnyddiol

ℹ


Cwestiynau'r Arolwg:

a) Rydw i wedi bod yn teimlo'n ddefnyddiol
b) *Meddyliwch yn ôl i ddechrau'r cymorth...* Roeddwn i'n teimlo'n ddefnyddiol
c) *Meddyliwch yn ôl i hanner ffordd drwy'r cymorth...* Roeddwn i'n teimlo'n ddefnyddiol

Yn y categori hwn gofynnir i gyfranogwyr ddewis ateb sy'n disgrifio orau eu profiad o 'deimlo'n ddefnyddiol' dros y pythefnos blaenorol.


**Prif bwyntiau:**

- Mae 18% o gyfranogwyr yr ymchwil wedi bod yn teimlo'n ddefnyddiol 'drwy'r amser' o gymharu â 21% o gyfranogwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19
- Mae 25% o gyfranogwyr yr ymchwil wedi bod yn teimlo'n dda am eu hunain 'yn aml' o gymharu â 39% o gyfranogwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru
- Mae 10% o gyfranogwyr yr ymchwil wedi bod yn teimlo'n dda am eu hunain 'dim o'r amser' o gymharu â 4% o gyfranogwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru
- Roedd 45% o'r cyfranogwyr ymchwil a oedd wedi bod yn cael cymorth Cefnogi Pobl am lai na 2 fis yn teimlo'n ddefnyddiol 'dim o'r amser' ond mae hyn hefyd yn lleihau'n sylweddol wrth i gyfranogwyr symud ymlaen drwy gamau eu cymorth gyda'r rhan fwyaf o gyfranogwyr yn teimlo'n ddefnyddiol peth o'r amser o ddau fis ymlaen
- Nododd 62% o gyfranogwyr yr ymchwil effaith gadarnhaol barhaus ar y categori 'Rydw i wedi bod yn meddwl yn glir' yn ystod yr amser y maent wedi bod yn derbyn cymorth Cefnogi Pobl





**'Rydw i wedi bod yn teimlo'n ddefnyddiol':**

Ymatebodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr, fel y dangosir yn Siart 41, 'peth o'r amser' (31%), 'yn aml' (25%) a 'drwy'r amser' (18%). Mae 'dim o'r amser' ac 'yn anaml' yn ymatebion llai poblogaidd.





**'Rydw i wedi bod yn teimlo'n ddefnyddiol' o gymharu ag Arolwg Cenedlaethol Cymru:**
Ar ochr chwith Siart 42 ceir cyfradd uwch o ymatebion gan boblogaeth sampl gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai ar gyfer y categorïau 'dim o'r amser', 'yn anaml' a 'peth o'r amser'. Gwelir y gwrthwyneb ar ochr dde'r siart gyda mwy o ymatebion 'yn aml' a 'drwy'r amser' gan gyfranogwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19.



**‘Rydw i wedi bod yn teimlo’n ddefnyddiol' trwy gydol camau’r cymorth:**
Un o'r nodweddion mwyaf nodedig wrth ystyried Siart 43 yw'r gyfradd eithriadol o uchel o ymatebion 'dim o'r amser' yn ystod y ddau fis cyntaf o gymorth. Mae hyn yn lleihau'n gyflym wrth i gyfranogwyr symud ymlaen drwy eu cymorth gyda'r categori 'peth o'r amser' yn dod yn fwyaf amlwg. Mae hyn unwaith eto'n dilyn y duedd ar gyfer categorïau blaenorol ac yn dangos effaith gadarnhaol gwasanaethau’r Grant Cymorth Tai yng nghamau cynnar y cymorth. Ar gyfer ymatebion 'drwy'r amser', mae'r '2 i 6 mis' a'r '12 i 24 mis' yn gweld ymatebion tebyg i Arolwg Cenedlaethol Cymru.

Siart 44: Cydberthyniad rhwng yr amser a dreuliwyd yn cael cymorth a'r effaith ar 'Rydw i wedi bod yn teimlo'n ddefnyddiol'




**Cydberthyniad rhwng yr amser a dreuliwyd yn cael cymorth y Grant Cymorth Tai a'r effaith ar 'Rydw i wedi bod yn teimlo'n ddefnyddiol':**
Mae'r siart hwn yn dangos bod 62% o gyfranogwyr yr ymchwil wedi nodi effaith gadarnhaol barhaus ar y categori 'Rydw i wedi bod yn teimlo'n ddefnyddiol' yn ystod yr amser y maent wedi bod yn derbyn cymorth y Grant.

# 4.13 Teimlo'n Agos at Bobl Eraill


Cwestiynau'r Arolwg:

a) Rydw i wedi bod yn teimlo'n agos at bobl eraill
b) *Meddyliwch yn ôl i ddechrau'r cymorth...*
   Roeddwn i’n teimlo'n agos at bobl
c) *Meddyliwch yn ôl i hanner ffordd drwy’r cymorth...*
   Roeddwn i’n teimlo'n agos at bobl

Yn y categori hwn gofynnir i gyfranogwyr ddewis ateb sy'n disgrifio orau eu profiad o 'deimlo'n agos at bobl' dros y pythefnos blaenorol.


**Prif bwyntiau:**

- Mae 19% o gyfranogwyr yr ymchwil wedi bod yn teimlo'n agos at bobl eraill 'drwy'r amser' o gymharu â 27% o gyfranogwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19
- Mae 10% o gyfranogwyr yr ymchwil wedi bod yn teimlo'n agos at bobl eraill 'dim o'r amser' o gymharu â 2% o gyfranogwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru
- Roedd 37% o gyfranogwyr yr ymchwil a oedd wedi bod yn cael cymorth y Grant Cymorth tai am lai na 2 fis yn teimlo'n agos at bobl eraill 'dim o'r amser' ond mae hyn yn lleihau wrth i gyfranogwyr symud ymlaen drwy gamau eu cymorth
- Roedd 29% o gyfranogwyr yr ymchwil yn teimlo'n agos at bobl 'drwy'r amser' ar ôl 24 mis o'u cymorth
- Nododd 61% o gyfranogwyr yr ymchwil effaith gadarnhaol barhaus ar y categori 'Rydw i wedi bod yn teimlo'n agos at bobl eraill' yn ystod yr amser y maent wedi bod yn derbyn cymorth y Grant Cymorth Tai





**'Rydw i wedi bod yn teimlo'n agos at bobl eraill':**

Gellir gweld cyfanswm nifer yr ymatebion ar gyfer y datganiad 'Rydw i wedi bod yn teimlo'n agos at bobl eraill' yn Siart 45. Y categorïau 'peth o'r amser' (33%) ac 'yn aml' (29%) sydd â'r cyfraddau ymateb uchaf. Y categori nesaf yw 'drwy'r amser' (19%), sy'n dangos ymateb cadarnhaol ar y cyfan i'r datganiad hwn.




**'Rydw i wedi bod yn teimlo'n agos at bobl eraill' o gymharu ag Arolwg Cenedlaethol Cymru:** Wrth gymharu'r ddwy set o ganlyniadau yn Siart 46, gallwn weld patrwm tebyg i'r dadansoddiadau blaenorol, gyda chyfradd uwch o ymatebion 'dim o'r amser' gan boblogaeth sampl gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai. Mae'r rhan fwyaf o gyfranogwyr yr Arolwg Cenedlaethol wedi ymateb yn gadarnhaol gyda 'drwy'r amser' ac 'yn aml', ond ceir ymateb uwch gan boblogaeth sampl gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai yn y categori 'peth o'r amser.

Siart 47: 'Rydw i wedi bod yn teimlo'n agos at bobl eraill' trwy gydol camau'r cymorth




**'Rydw i wedi bod yn teimlo'n agos at bobl eraill' trwy gydol camau'r cymorth:** Er bod Siart 47 yn dangos y nifer fwyaf o ymatebion yn y categorïau 'dim o'r amser' ac 'yn anaml' ar gyfer pobl sydd wedi bod yn cael cymorth am 'hyd at ddau fis', mae'r ymatebion hyn yn lleihau wrth i gyfranogwyr symud ymlaen drwy eu cymorth, ac erbyn dau gyfnod olaf y cymorth, maent yn cynrychioli llai nag 20% gyda'i gilydd. Mae ymatebion 'peth o'r amser' yn gyson uchel ar ôl y cyfnod cyntaf.

Siart 48: Cydberthyniad rhwng yr amser a dreuliwyd yn cael cymorth a'r effaith ar 'Rydw i wedi bod yn teimlo'n agos at bobl eraill'




**Cydberthyniad rhwng yr amser a dreuliwyd yn cael cymorth y Grant Cymorth Tai a'r effaith ar 'Rydw i wedi bod yn teimlo'n agos at bobl eraill':**

Mae'r siart hwn yn dangos bod 60% o gyfranogwyr yr ymchwil wedi nodi effaith gadarnhaol barhaus ar y categori 'Rydw i wedi bod yn teimlo'n agos at bobl eraill' yn ystod yr amser y maent wedi bod yn derbyn cymorth y Grant Cymorth Tai. Roedd yr effaith negyddol, sef 4%, yn un o'r isaf a gofnodwyd ar gyfer y gwahanol gwestiynau.

# 4.14 Diddordeb mewn Pethau Newydd

Cwestiynau'r Arolwg:

a) Rydw i wedi bod yn cymryd diddordeb mewn pethau newydd

b) *Meddyliwch yn ôl i ddechrau'r cymorth…*

Roeddwn i'n cymryd diddordeb mewn pethau newydd

c) *Meddyliwch yn ôl i hanner ffordd drwy'r cymorth…*


Roeddwn i'n cymryd diddordeb mewn pethau newydd

Yn y categori hwn gofynnir i gyfranogwyr ddewis ateb sy'n disgrifio orau eu profiad o 'fod â diddordeb mewn pethau newydd' dros y pythefnos blaenorol.

**Prif bwyntiau:**


- Mae 20% o gyfranogwyr yr ymchwil wedi bod â diddordeb mewn pethau newydd 'drwy'r amser' o gymharu â 23% o gyfranogwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19
- Mae 30% o gyfranogwyr yr ymchwil wedi bod â diddordeb mewn pethau newydd 'yn aml' o gymharu â 33% o gyfranogwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru
- Mae 12% o gyfranogwyr yr ymchwil wedi bod â diddordeb mewn pethau newydd 'dim o'r amser' o gymharu â 3% o gyfranogwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru
- Mae 45% o gyfranogwyr yr ymchwil a oedd wedi bod yn cael cymorth Cefnogi Pobl am lai na 2 fis wedi bod â diddordeb mewn pethau newydd 'dim o'r amser' ond mae hyn yn lleihau'n sylweddol wrth i gyfranogwyr symud ymlaen drwy gamau eu cymorth
- Mae 37% o gyfranogwyr yr ymchwil wedi bod â diddordeb mewn pethau newydd 'yn aml' o fewn y cyfnod o 2 i 6 mis o'u cymorth drwy'r Grant Cymorth Tai
- Nododd 60% o gyfranogwyr yr ymchwil effaith gadarnhaol barhaus ar y categori 'Rydw i wedi bod â diddordeb mewn pethau newydd' yn ystod yr amser y maent wedi bod yn derbyn cymorth y Grant

Siart 49: 'Rydw i wedi bod â diddordeb mewn perthau newydd'





**'Rydw i wedi bod â diddordeb mewn pethau newydd':**

Mae Siart 49 yn dangos ymatebion y cyfranogwyr i'r datganiad 'Rydw i wedi bod â diddordeb mewn pethau newydd'. Y categorïau 'yn aml', 'peth o'r amser' a 'drwy'r amser' yw'r uchaf yn yr adran hon sy'n dangos ymateb cadarnhaol ar y cyfan i'r cwestiwn hwn.





**'Rydw i wedi bod â diddordeb mewn pethau newydd' o gymharu ag Arolwg Cenedlaethol Cymru:**

Ceir nifer sylweddol uwch o ymatebion yn y categori 'dim o'r amser' ar gyfer poblogaeth sampl gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai yn Siart 50. Ar wahân i hyn, mae'r ymatebion ar gyfer pob categori arall yn debyg sy'n dangos synergedd rhwng poblogaeth sampl gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai a phoblogaeth Arolwg Cenedlaethol Cymru.



**‘Rydw i wedi bod â diddordeb mewn pethau newydd' trwy gydol camau’r cymorth:**
Mewn patrwm tebyg i ddadansoddiadau blaenorol, mae'r rhan fwyaf o'r ymatebion (45%) ar gyfer y categori 'dim o'r amser' yn digwydd o fewn y 2 fis cyntaf o gymorth. Mae'r siart hwn yn dangos hefyd sut mae'r rhan fwyaf o'r ymatebion 'peth o’r amser' (29%) yn codi o fewn '6 i 12 mis' o gymorth. Ac eithrio atebion untro, mae'r ymatebion 'yn aml' a 'drwy'r amser' yn parhau'n debyg iawn ar ôl y cyfnod cyntaf.

Siart 52: Cydberthyniad rhwng yr amser a dreuliwyd yn cael cymorth a'r effaith ar 'Rydw i wedi bod â diddordeb mewn pethau newydd'




**Cydberthyniad rhwng yr amser a dreuliwyd yn cael cymorth y Grant Cymorth Tai a'r effaith ar 'Rydw i wedi bod â diddordeb mewn pethau newydd’:**
Mae'r siart hwn yn dangos bod 60% o gyfranogwyr yr ymchwil wedi nodi effaith gadarnhaol barhaus yn y categori hwn yn ystod yr amser y maent wedi bod yn derbyn cymorth y Grant Cymorth Tai. Dyma'r gyfradd isaf o ymatebion cadarnhaol ar gyfer pob categori.

# 4.15 Teimlo'n Hyderus

Cwestiynau'r Arolwg:

a) Rydw i wedi bod yn teimlo'n hyderus
b) *Meddyliwch yn ôl i ddechrau'r cymorth…*
   Roeddwn i'n teimlo'n hyderus
c) *Meddyliwch yn ôl i hanner ffordd drwy’r cymorth…*
   Roeddwn i'n teimlo'n hyderus


Yn y categori hwn gofynnir i gyfranogwyr ddewis ateb sy'n disgrifio orau eu profiad o 'deimlo'n hyderus' dros y pythefnos blaenorol.

**Pwyntiau allweddol...parhad:**

- Mae 53% o gyfranogwyr ymchwil a oedd wedi bod yn cael cymorth y Grant Cymorth Tai am lai na 2 fis wedi bod yn teimlo'n hyderus 'dim o'r amser' ond mae hyn yn lleihau'n sylweddol wrth i gyfranogwyr symud ymlaen drwy gamau eu cymorth
- Mae 43% o gyfranogwyr yr ymchwil wedi bod yn teimlo'n hyderus 'peth o'r amser' yn y categori 6 i 12 mis o'u cymorth gan y Grant
- Nododd 67% o gyfranogwyr yr ymchwil effaith gadarnhaol barhaus ar y categori 'Rydw i wedi bod yn teimlo'n hyderus' yn ystod yr amser y maent wedi bod yn derbyn cymorth y Grant.

**Prif bwyntiau:**

- Mae 14% o gyfranogwyr yr ymchwil wedi bod yn teimlo'n hyderus 'drwy'r amser' o gymharu ag 20% o gyfranogwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19
- Mae 14% o gyfranogwyr yr ymchwil wedi bod yn teimlo'n hyderus 'dim o'r amser' o gymharu â 3% o gyfranogwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru






**'Rydw i wedi bod yn teimlo'n hyderus':**

Mae Siart 53 yn dangos yr ymatebion i'r datganiad 'Rydw i wedi bod yn teimlo'n hyderus'. Adeg cwblhau'r arolwg, mae'r rhan fwyaf o boblogaeth sampl Cefnogi Pobl (32%) yn ymateb 'peth o'r amser'. Yr ymateb mwyaf poblogaidd wedyn oedd 'yn aml' (22%) ac 'yn anaml' (17%).


**'Rydw i wedi bod yn teimlo'n hyderus' o gymharu ag Arolwg Cenedlaethol Cymru:**

Mae Siart 54 yn cynnal y duedd flaenorol o nifer sylweddol uwch o ymatebion gan boblogaeth sampl Cefnogi Pobl ar gyfer y categori 'dim o'r amser'. Cyfranogwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru sy'n bennaf gyfrifol am yr ymatebion yn y categorïau cadarnhaol sef 'drwy'r amser' ac 'yn aml' hefyd, fel gyda siartiau blaenorol. Mae'r ymatebion ar gyfer y categori 'peth o'r amser' ar gyfer y cwestiwn penodol hwn bron yr un fath ar draws y ddwy set ddata gymharol.






**'Rydw i wedi bod yn teimlo'n hyderus' trwy gydol camau'r cymorth:**
Yn unol ag ymatebion eraill a fesurwyd trwy gydol camau'r cymorth, mae Siart 55 yn dangos bod mwyafrif sylweddol yr ymatebion 'dim o'r amser' yn y categori cymorth 'hyd at ddau fis', sef 53%, sy'n ganran sylweddol. Mae hyn yn gostwng yn sylweddol dros amser gydag ymatebion 'peth o'r amser' ac 'yn aml' fwyaf poblogaidd ar gyfer y cyfnod diweddarach.




**Cydberthyniad rhwng yr amser a dreuliwyd yn cael cymorth y Grant Cymorth Tai a'r effaith ar 'Rydw i wedi bod yn teimlo'n hyderus':**
Mae Siart 56 yn dangos bod 67% o gyfranogwyr yr ymchwil wedi nodi effaith gadarnhaol barhaus ar y categori 'Rydw i wedi bod yn teimlo'n hyderus' yn ystod yr amser y maent wedi bod yn derbyn cymorth y Grant Cymorth Tai.

# 4.16 Gobeithiol am y Dyfodol

Cwestiynau'r Arolwg:

a) Rydw i wedi bod yn teimlo'n obeithiol am y dyfodol


b) *Meddyliwch yn ôl i ddechrau'r cymorth…*
Roeddwn i'n teimlo'n obeithiol am y dyfodol

c) *Meddyliwch yn ôl i hanner ffordd drwy'r cymorth…*
Roeddwn i'n teimlo'n obeithiol am y dyfodol

Yn y categori hwn gofynnir i gyfranogwyr ddewis ateb sy'n disgrifio orau eu profiad o 'deimlo'n obeithiol' dros y pythefnos blaenorol.


**Prif bwyntiau:**

- Mae 26% o gyfranogwyr yr ymchwil wedi bod yn teimlo'n obeithiol am y dyfodol 'drwy'r amser' o gymharu â 17% o gyfranogwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19
- Mae 31% o gyfranogwyr yr ymchwil wedi bod yn teimlo'n obeithiol am y dyfodol 'yn aml' o gymharu â 34% o gyfranogwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru
- Mae 9% o gyfranogwyr yr ymchwil wedi bod yn teimlo'n obeithiol am y dyfodol 'dim o'r amser' o gymharu â 5% o gyfranogwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru
- Mae 45% o gyfranogwyr yr ymchwil a oedd wedi bod yn cael cymorth y Grant Cymorth Tai am lai na 2 fis wedi bod yn teimlo'n obeithiol am y dyfodol 'dim o'r amser'
- Mae 31% o gyfranogwyr yr ymchwil wedi bod yn teimlo'n obeithiol am y dyfodol 'peth o'r amser' ar ôl cael cymorth am 12 i 24 mis, 31% yn 'aml' yn yr un cyfnod o gymorth, a 35% 'drwy'r amser' ar ôl cael mwy na 24 mis o gymorth
- Nododd 70% o gyfranogwyr yr ymchwil effaith gadarnhaol barhaus ar y categori 'Rydw i wedi bod yn teimlo'n obeithiol am y dyfodol' yn ystod yr amser y maent wedi bod yn derbyn cymorth y Grant Cymorth Tai





**‘Rydw i wedi bod yn teimlo'n obeithiol am y dyfodol’:**

Mae siart 57 yn dangos bod y rhan fwyaf o boblogaeth sampl gwasanaethau’r Grant Cymorth Tai (31%) wedi ymateb i'r datganiadau 'Rydw i wedi bod yn obeithiol am y dyfodol' gydag 'yn aml’. Dilynwyd hyn yn agos gyda 'drwy'r amser' (26%) a 'peth o'r amser' (24%). Mae hyn yn adlewyrchu barn





**‘Rydw i wedi bod yn teimlo'n obeithiol am y dyfodol' o gymharu ag Arolwg Cenedlaethol Cymru:**

Mae Siart 58 yn dangos rhywfaint o gyferbyniad â'r holl ddadansoddiadau data blaenorol ar gyfer y categori penodol hwn gyda llai o ymatebion a llai o wahaniaeth rhwng poblogaeth sampl gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai ac Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer y categori 'dim o'r amser’. Cafwyd ymateb tebyg ar gyfer y categori 'yn aml', a chanran uwch (26%) o boblogaeth sampl gwasanaethau'r Grant yn ymateb gyda 'drwy'r amser' o gymharu â 17% ar gyfer cyfranogwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru.




**'Rydw i wedi bod yn teimlo'n obeithiol am y dyfodol' trwy gydol camau'r cymorth:**
Mae Siart 59 yn darparu dadansoddiad tebyg o fewn y categori 'dim o'r amser' gyda 45% o'r cyfranogwyr yn y cyfnod 'hyd at ddau fis' yn darparu'r ymateb hwn. Fel yn y siartiau eraill fodd bynnag, mae hyn yn lleihau'n sylweddol trwy gydol y camau cymorth dilynol. Ar gyfer y cwestiwn hwn, ceir nifer fawr o ymatebion ar gyfer 'peth o'r amser' ac 'yn aml' trwy gydol camau'r cymorth ar ôl y cyfnod cyntaf. Mae'r ymateb 'drwy'r amser' ar gyfer y cyfnod 'mwy na 24 mis', sef 35%, yn cynrychioli canran ymateb uwch o gymharu â'r cwestiynau eraill.




**Cydberthyniad rhwng yr amser a dreuliwyd yn cael cymorth y Grant Cymorth Tai a'r effaith ar 'Rydw i wedi bod yn teimlo'n obeithiol am y dyfodol':**
Mae'r siart hwn yn dangos bod 70% o gyfranogwyr yr ymchwil wedi nodi effaith gadarnhaol barhaus ar y categori 'Rydw i wedi bod yn teimlo'n obeithiol' yn ystod yr amser y maent wedi bod yn derbyn cymorth y Grant Cymorth Tai. Yr effaith negyddol, sef 3%, oedd yr isaf yn yr arolwg cyfan.

# 5.0 Yr Effaith Ariannol

## 5.1 Dulliau Ymchwil: Yr Effaith Ariannol

Nod yr elfen hon o'r ymchwil yw amcangyfrif effaith y Grant Cymorth Tai ar ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus, yn benodol arbedion cost i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae mesur costau a buddiannau anniriaethol neu eilaidd y Grant (er enghraifft, gwerth unrhyw ostyngiad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol i gymunedau lleol) y tu allan i gwmpas y prosiect ymchwil hwn. I'r graddau y gallai buddiannau ychwanegol o'r fath fodoli, gellid ystyried yr arbedion cost yn yr astudiaeth hon fel isafswm buddiannau economaidd a chymdeithasol y Grant.

Yn y lle cyntaf, defnyddiwyd dull "o'r brig i lawr" i fodelu arbedion cost ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, gydag amcangyfrifon o'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (CLG) 2009 o arbedion cost net fesul £ o gyllid y Grant Cymorth Tai yn cael eu cymhwyso i lefelau ariannu'r Grant er mwyn cynhyrchu amcangyfrifon o arbedion cost i Gymru'n benodol. Ategwyd y dull "o'r brig i lawr" hwn gan fodelu arbedion cost "o'r gwaelod i fyny" ar gyfer rhai grwpiau defnyddwyr arwyddocaol, sy'n cael eu hamcangyfrif yn fanylach gan ddefnyddio amrywiaeth o dybiaethau. Mae'r dull cyffredinol ar gyfer elfen "o'r gwaelod i fyny" yr ymchwil yn debyg iawn i'r fethodoleg a ddefnyddiwyd gan y CLG yn *Research into the financial benefits of the Supporting People programme, 2009* sy'n amcangyfrif yr arbedion cost ariannol a gynhyrchwyd gan y rhaglen yn Lloegr. Mae astudiaeth y CLG yn rhoi amcangyfrif cynhwysfawr a manwl o'r arbedion cost i wasanaethau cyhoeddus a gynhyrchwyd gan y Grant Cymorth Tai, gyda dull "o'r gwaelod i fyny" trylwyr o fodelu'r rhaglen a tybiaethau maint a chost trylwyr a gwrthffeithiol wedi'u llywio gan rai yn y diwydiant, gan gynnwys yr Adran Iechyd ac ymgynghorydd annibynnol arbenigol (CLG 2009, Adran 2. 3 a 2.4).

Dylid nodi bod yr amcangyfrifon o arbedion cost sy'n deillio o'r astudiaeth hon yn debygol o fod yn geidwadol. Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn amcangyfrif arbedion cost yn seiliedig ar gategorïau o brif angen heb ystyriaeth gyffredinol o achosion cymhleth lle mae gan rai defnyddwyr anghenion eilaidd neu drydyddol. Er enghraifft, gall defnyddiwr sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau fod ag angen eilaidd yn ymwneud â phroblemau iechyd meddwl hefyd; nod pennaf dull yr astudiaeth hon yw ceisio canfod yr arbedion cost sy'n cronni i anghenion sylfaenol yn absenoldeb data cadarn ar anghenion eilaidd a thrydyddol defnyddwyr.

Gellir rhannu'r dull o amcangyfrif yr arbedion cost ariannol sy'n deillio o'r Grant Cymorth Tai yng Nghymru yn dri cham bras, a amlinellir isod:

**Cam 1:** Amcangyfrif poblogaeth a lefelau cyllid y Grant Cymorth Tai → **Cam 2:** Amcangyfrif effaith y Grant Cymorth Tai ar y galw am wasanaethau cyhoeddus → **Cam 3:** Amcangyfrif costau darparu gwasanaethau

## Cam 1: Amcangyfrif poblogaeth a lefelau cyllid y Grant Cymorth Tai

Bydd hyd a lled manteision ariannol y Grant Cymorth Tai yn cael eu pennu nid yn unig gan lefelau'r cyllid a nifer y bobl y mae'r rhaglen yn eu gwasanaethu, ond hefyd gan nodweddion y grwpiau defnyddwyr y mae'n eu cefnogi. Mae nodweddion allweddol yn y cyd-destun hwn yn cynnwys y ffactorau risg y mae pob grŵp defnyddwyr yn agored iddynt. Elfen bwysig o'r ymarfer modelu felly fydd amcangyfrif nifer y bobl sy'n perthyn i grwpiau defnyddwyr amrywiol, y gellir gwneud tybiaethau priodol ynghylch pob un ohonynt am eu defnydd o wasanaethau cyhoeddus. Disgwylir y byddai pob un o'r grwpiau hyn, heb gymorth y Grant, yn defnyddio gwahanol wasanaethau cyhoeddus i wahanol raddau – er enghraifft, efallai y bydd galw cymharol uchel am gymorth gofal preswyl ymhlith pobl hŷn sydd ag anghenion cymorth, y tybir eu bod yn dod o dan ofal cymdeithasol i oedolion, tra gellid disgwyl i ddioddefwyr cam-drin domestig fod â galw cymharol uchel am wasanaethau iechyd (GIG) a'r system cyfiawnder troseddol. Felly, mae'r gwahaniaeth rhwng grwpiau defnyddwyr yn un pwysig.

Mae'r tabl isod yn crynhoi nifer yr unedau a wasanaethir a lefelau cyllid y Grant Cymorth Tai yn ôl grŵp defnyddwyr sylfaenol. Mae'r categorïau grwpiau defnyddwyr a ddadansoddwyd yn yr astudiaeth hon yn cyfateb i'r 18 grŵp defnyddwyr penodol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhai sy'n gymwys i gael mynediad at gymorth y Grant (ynghyd â chategori ychwanegol ar gyfer cymorth cyffredinol fel y bo'r angen i atal digartrefedd). Mae'r astudiaeth hon yn defnyddio data Cynllun Gwariant cyfunol awdurdodau lleol fel y cyllidebwyd ar ei gyfer yn 2019/20, ond nodwn nad yw data gwariant y Grant Cymorth Tai yn cael ei gyhoeddi'n rheolaidd a bod y datgeliad diweddaraf sydd ar gael i'r cyhoedd ar gyfer 2016/17 mewn cyhoeddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru.[18]

Tabl 2: **Darparu gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai yng Nghymru, yn ôl grŵp defnyddwyr**

| Grŵp defnyddwyr | Amcangyfrif o'r unedau cymorth | Cyfanswm y gwariant (£ miliwn) | Cyllid % |
|---|---|---|---|
| Pobl ag anawsterau dysgu | 3,221 | 27.6 | 22.3% |
| Cymorth cyffredinol fel y bo'r angen i atal digartrefedd | 9,504 | 21.8 | 17.6% |
| Pobl â phroblemau iechyd meddwl | 2,524 | 13.3 | 10.8% |
| Pobl ifanc ag anghenion cymorth (16-24) | 1,747 | 13.7 | 11.1% |

[18] Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru: https://www.audit.wales/cy/system/files/publications/Supporting-People-2017-Welsh.pdf

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pobl dros 55 oed ag anghenion cymorth (ac eithrio gwasanaethau larwm) | 13,038 | 8.8 | 7.1% |
| Menywod sy'n profi cam-drin domestig | 1,512 | 9.6 | 7.8% |
| Gwasanaethau larwm (gan gynnwys llety gwarchod / gofal ychwanegol) | 19,541 | 1.6 | 1.3% |
| Pobl â salwch cronig | 14 | 0.1 | 0.0% |
| Pobl ifanc sy'n gadael gofal | 86 | 0.8 | 0.6% |
| Pobl sengl ag anghenion cymorth (25 i 54) | 783 | 5.0 | 4.0% |
| Pobl ag anableddau corfforol a/neu synhwyraidd | 406 | 1.4 | 1.1% |
| Pobl â hanes o droseddu | 687 | 2.5 | 2.1% |
| Pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau (cyffuriau a sylweddau anweddol) | 580 | 3.9 | 3.1% |
| Teuluoedd ag anghenion cymorth | 804 | 4.4 | 3.5% |
| Teuluoedd un rhiant ag anghenion cymorth | 104 | 0.8 | 0.6% |
| Pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau (alcohol) | 160 | 1.1 | 0.9% |
| Dynion sy'n profi cam-drin domestig | 49 | 0.4 | 0.3% |
| Pobl â statws ffoadur | 73 | 0.3 | 0.2% |
| Pobl ag anhwylderau datblygu | 87 | 0.3 | 0.2% |
| Gwariant nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â chategorïau'r cynllun gwariant | 1,013 | 6.4 | 5.2% |
| **Cyfanswm** | **55,933** | **123.7** | 100.0% |

Ffynhonnell: Cynllun Gwariant Llywodraeth Cymru 2019/20

At ddibenion y dadansoddiad "o'r brig i lawr", mae amcangyfrifon Lloegr o CLG 2009 o'r arbediad cost blynyddol net fesul £1 o wariant y Grant Cymorth Tai wedi'u cymhwyso i lefelau cyllid Cymru er mwyn rhoi amcangyfrif o'r arbedion costau ar gyfer pob grŵp o ddefnyddwyr y Grant yng Nghymru. Oherwydd nad yw'r grwpiau defnyddwyr a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth hon yn cyfateb yn uniongyrchol i'r rhai yn y data a gyhoeddwyd ar gyfer Cymru, gwnaed tybiaethau mapio ynghylch pa grŵp defnyddwyr sy'n cyfateb i bob grŵp o ddefnyddwyr y Grant yng Nghymru. Dewiswyd rhai grwpiau defnyddwyr ar gyfer amcangyfrif "o'r gwaelod i fyny" manylach, ar y sail eu bod naill ai'n grwpiau defnyddwyr mawr o ran cyllid neu fod ganddynt arbedion cost amcangyfrifedig mawr fel y nodwyd gan y dadansoddiad "o'r

brig i lawr”:

- **Amcangyfrif o arbedion cost ar gyfer gwasanaethau iechyd:** Menywod sy'n profi cam-drin domestig, Pobl â phroblemau iechyd meddwl, Pobl dros 55 oed ag anghenion cymorth (ac eithrio gwasanaethau larwm), Pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau (cyffuriau a sylweddau anweddol).
- **Amcangyfrif o arbedion cost ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol:** Pobl ag anawsterau dysgu, Pobl â phroblemau iechyd meddwl, Pobl dros 55 oed ag anghenion cymorth (ac eithrio gwasanaethau larwm), Pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau (cyffuriau a sylweddau anweddol) a Pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau (alcohol).

### Cam 2: Amcangyfrif effaith y Grant Cymorth Tai ar y galw am wasanaethau cyhoeddus

Bydd maint yr arbedion cost i wasanaethau cyhoeddus sy'n deillio o’r Grant Cymorth Tai yng Nghymru yn dibynnu i raddau helaeth ar y graddau y mae’r Grant yn hwyluso gostyngiad yn y galw am wasanaethau cyhoeddus sylfaenol, boed y GIG, gofal cymdeithasol neu'r system cyfiawnder troseddol. Mae'r astudiaeth hon wedi ceisio mesur yr arbedion cost sy’n deillio o’r Grant mewn perthynas â gwrthffaith briodol; hynny yw, amcangyfrif faint yn fwy neu’n llai y mae defnyddwyr sy’n cael cymorth y Grant yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus o gymharu â phobl sy'n rhannu nodweddion tebyg ond sydd ddim yn cael cymorth y Grant.

Tybir bod llawer o'r galw am wasanaethau iechyd (GIG) a'r system cyfiawnder troseddol yn cael ei lywio gan ddigwyddiadau, gyda thybiaethau'n cael eu gwneud ynghylch lefel y galw am wasanaethau cyhoeddus gan bob grŵp defnyddwyr y mae'r rhaglen yn ei gefnogi. Mae tybiaethau o'r fath yn cynnwys pa mor aml y caiff gwasanaethau eu defnyddio yn ogystal â hyd pob digwyddiad. Yna caiff y gostyngiad yn y galw am wasanaethau cyhoeddus o ganlyniad i’r Grant ei fodelu fel gosyngiad tybiedig yn y tebygolrwydd y bydd yna ddigwyddiad iechyd neu droseddu andwyol; er enghraifft, tybir bod y Grant yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd dioddefwyr cam-drin domestig yn profi achos o drais difrifol 80%. At ddibenion yr astudiaeth hon, mae'r gostyngiadau yn y tebygolrwydd o ddigwyddiadau y tybir eu bod yn deillio o’r Grant yn seiliedig ar y rhai a amcangyfrifwyd yn adroddiad CLG 2009. Ar gyfer rhai grwpiau defnyddwyr a ariennir gan y Grant, tybir bod defnyddwyr yn defnyddio gofal ysbyty cleifion mewnol hirdymor yn absenoldeb y rhaglen; er enghraifft, y rhai â phroblemau iechyd meddwl difrifol. Mae'r modelu’n amcangyfrif yr arbedion cost sy'n deillio o’r gostyngiad yn y defnydd o ofal hirdymor hefyd, gyda thybiaethau'n cael eu gwneud ynghylch cyfran poblogaeth y grwpiau defnyddwyr a fyddai'n defnyddio gwasanaethau o'r fath yn absenoldeb y Grant a hyd cyfartalog yr arhosiad mewn blwyddyn benodol.

Mae'r newidiadau i'r galw am ofal cymdeithasol a ysgogwyd gan y Grant wedi'u modelu'n bennaf fel yr arbediad cost o newid i sefyllfa fyw fwy annibynnol gyda chymorth gofal cymdeithasol cyfyngedig o gymorth preswyl hirdymor mwy costus. Mae tybiaethau allweddol yn cynnwys cyfran poblogaeth pob grŵp defnyddwyr a fyddai'n defnyddio gwasanaethau cymorth preswyl hirdymor yn absenoldeb y Grant. Er enghraifft, efallai y bydd angen cymorth gofal preswyl hirdymor cymharol ddrud ar gyfran o'r rhai ag anawsterau dysgu oni bai am y cymorth a ddarperir drwy’r Grant. Mewn rhai achosion, tybir bod yr arbedion cost hyn yn cael

eu gwrthbwyso'n rhannol gan y cynnydd mewn darpariaeth gofal dydd a chymorth gofal cartref sydd wedi'i hintegreiddio yn nhrefniadau byw'r Grant. Yn unol â'r dull a gymerwyd yn CLG 2009, mae'r astudiaeth hon wedi tybio bod yr holl wasanaethau gofal cymdeithasol perthnasol yn cael eu hariannu'n gyhoeddus. Dylid nodi bod eithriadau i'r dybiaeth hon gyda throthwyon cyfalaf a chynilion ar waith a gofyniad i ddefnyddwyr dalu am eu gofal cymdeithasol eu hunain uwchben y trothwyon hyn (yng Nghymru mae trothwy cyfalaf o £50,000 ar gyfer taliadau cartrefi gofal).[19] I'r graddau y byddai'n ofynnol i rai defnyddwyr ddefnyddio eu cyfalaf eu hunain i ariannu eu gofal cymdeithasol, gallai hyn weithredu i orddatgan gwerth arbedion cost a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer gofal cymdeithasol.

### Cam 3: Amcangyfrif costau darparu gwasanaethau

Gellir cyfrifo'r arbedion cost cyffredinol i wasanaethau cyhoeddus sy'n deillio o’r Grant Cymorth Tai yng Nghymru drwy gyfuno'r gostyngiad amcangyfrifedig yn y galw am wasanaethau cyhoeddus â chostau uned amcangyfrifedig ar gyfer pob gwasanaeth. Er enghraifft, bydd cyfuno'r gostyngiad amcangyfrifedig yn y galw (derbyniadau) am wasanaethau damweiniau ac achosion brys o ganlyniad i’r Grant gyda chost amcangyfrifedig derbyn claf i’r adran damweiniau ac achosion brys a’r gwasanaeth ambiwlans yn cynhyrchu amcangyfrif o arbediad cost y Grant i adrannau damweiniau ac achosion brys y GIG.

Prin yw'r dystiolaeth o ran amcangyfrifon cadarn o gostau gwasanaeth i Gymru yn benodol, ac felly mae amcangyfrifon cost wedi'u seilio'n bennaf ar ddata costau Lloegr, sydd wedi'i asesu fel y data sy’n darparu'r amcangyfrifon mwyaf perthnasol ar gyfer Cymru. Daw tystiolaeth ar gyfer y costau a ddefnyddir yn yr astudiaeth hon o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys *Unit Costs of Health and Social Care 2019,*[20] astudiaeth flynyddol a gynhyrchir gan ymchwilwyr ym Mhrifysgol Caint, a'r Unit Cost Database a gynhyrchwyd gan Awdurdod Cyfunol Manceinion Fwyaf. Lle na chanfuwyd ffynonellau cyfredol priodol, defnyddiwyd costau uned o astudiaeth CLG 2009 hefyd, sydd yn eu tro yn deillio o arbenigwyr yn y diwydiant megis yr Adran Iechyd ac ymgynghorydd annibynnol. I'r graddau y mae amcangyfrifon cost yn deillio o dystiolaeth hanesyddol, aethpwyd ati i fynegeio costau i lefelau 2019 yn seiliedig ar lefelau prisiau amcangyfrifedig ar gyfer defnydd y llywodraeth a gyhoeddwyd gan Swyddfa Ystadegau Gwladol y DU, sydd ar gael ar wahân ar gyfer gwariant iechyd a diogelwch cymdeithasol y Llywodraeth.

[19] Llywodraeth Cymru: https://llyw.cymru/gall-pobl-mewn-gofal-preswyl-gadw-hyd-yn-oed-mwy-o-arian-yng-nghymru-bron-i-ddwbl-gweddill-y-du

[20] Unit Costs of Health and Social Care (2019): https://www.pssru.ac.uk/project-pages/unit-costs/unit-costs-2019/

# 5.2 Dadansoddi Data: Yr Effaith Ariannol

**Prif bwyntiau:**

- Mae gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai yn cynhyrchu arbediad blynyddol gros o £300.4 miliwn i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru
- Mae gwasanaethau'r Grant yn cynhyrchu arbediad net blynyddol i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru (wrth ystyried y gwariant blynyddol ar y Grant) o £176.7 miliwn
- Mae hyn yn arbediad net amcangyfrifedig i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru o £1.40 am bob £1 o gyllid ar gyfer y Grant
- Mae pob £1 o gyllid y Grant yn cynhyrchu arbediad net amcangyfrifedig o £5.20 ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru

Yn seiliedig ar y fethodoleg ar gyfer effaith ariannol y Grant Cymorth Tai, amcangyfrifir bod y Grant yng Nghymru yn cynhyrchu arbediad blynyddol gros o £300.4 miliwn i wasanaethau cyhoeddus, neu arbediad blynyddol net o £176.7 miliwn ar ôl tynnu cyfanswm y cyllid ar gyfer Cefnogi Pobl yng Nghymru sef £123.7 miliwn.

**Tabl 3:** Arbedion cost gros o'r Grant Cymorth Tai yng Nghymru, fesul grŵp defnyddwyr (£ miliwn y flwyddyn)

| Grŵp defnyddwyr | Arbedion cost gros (£ miliwn) | Ar gyfer: Iechyd (£ miliwn) | Ar gyfer: Gofal cymdeithasol (£ miliwn) | Ar gyfer: Troseddu (£ miliwn) | Ar gyfer: Arall* (£ miliwn) |
|---|---|---|---|---|---|
| Pobl ag anawsterau dysgu | **58.5** | *1.4* | *62.7* | *0.0* | *-5.6* |
| Cymorth cyffredinol fel y bo'r angen i atal digartrefedd | **33.6** | *5.7* | *0.2* | *15.0* | *12.7* |
| Pobl â phroblemau iechyd meddwl | **82.1** | *97.9* | *-13.7* | *0.0* | *-2.2* |
| Pobl ifanc ag anghenion cymorth (16-24) | **18.7** | *0.9* | *7.2* | *6.5* | *4.0* |
| Pobl dros 55 oed ag anghenion cymorth (ac eithrio gwasanaethau larwm) | **21.2** | *2.0* | *40.8* | *-0.1* | *-21.5* |
| Menywod sy'n profi cam-drin domestig | **35.8** | *14.4* | *0.0* | *18.2* | *3.2* |
| Gwasanaethau larwm (gan gynnwys llety cymorth / gofal ychwanegol) | **2.2** | *0.1* | *0.8* | *0.8* | *0.5* |
| Pobl â salwch cronig | **0.2** | *0.0* | *0.2* | *0.0* | *-0.1* |
| Pobl ifanc sy'n gadael gofal | **1.0** | *0.0* | *0.4* | *0.4* | *0.2* |
| Pobl sengl ag anghenion cymorth (25 i 54) | **6.8** | *0.3* | *2.6* | *2.4* | *1.5* |
| Pobl ag anableddau corfforol a/neu synhwyraidd | **5.0** | *0.9* | *5.4* | *0.0* | *-1.3* |
| Pobl â hanes o droseddu | **4.4** | *0.0* | *0.0* | *3.8* | *0.6* |
| Pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau (cyffuriau a sylweddau anweddol) | **17.2** | *7.6* | *12.4* | *0.0***** | *-2.8* |
| Teuluoedd ag anghenion cymorth | **6.8** | *3.1* | *0.0* | *0.1* | *3.6* |
| Teuluoedd un rhiant ag anghenion cymorth | **1.2** | *0.6* | *0.0* | *0.0* | *0.7* |
| Pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau (alcohol) | **3.1** | *3.0* | *0.5* | *0.0* | *-0.4* |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Dynion sy'n profi cam-drin domestig | **1.5** | *0.6* | *0.0* | *0.8* | *0.1* |
| Pobl â statws ffoadur | **0.4** | *0.0* | *0.1* | *0.1* | *0.1* |
| Pobl ag anhwylderau datblygu | **0.8** | *0.0* | *0.9* | *0.0* | *-0.1* |
| Gwariant nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â chategorïau'r cynllun gwariant | Dim arbedion cost gros wedi'u tybio | | | | |
| Cyfanswm | 300.4 | *138.7* | *120.6* | *47.9* | *-6.7* |

Ffynhonnell: Amcangyfrifon Alma Economics

*Mae arall yn cynnwys arbedion cost sy'n ymwneud â chostau tai, costau gwasanaeth digartrefedd, costau methiant tenantiaeth a budd-daliadau a chostau gwasanaethau cysylltiedig

** Yn y dadansoddiad CLG gwreiddiol, tybiwyd y byddai mwy o gyfle i gyflawni troseddau yn arwain at fwy o droseddau'n cael eu cyflawni. Caiff y dybiaeth hon ei haddasu yn y dadansoddiad hwn fel nad yw cyfle ychwanegol i gyflawni troseddu yn arwain at fwy o droseddu. Mae hyn yn cael ei ystyried yn dybiaeth ofalus oherwydd byddai disgwyl i gynorthwyo unigolion â phroblemau camddefnyddio sylweddau leihau troseddu (er nad yw hyn wedi'i fesur).

## Tabl 4: Arbedion cost net o'r Grant Cymorth Tai yng Nghymru, fesul grŵp defnyddwyr (£ y flwyddyn)

| Grŵp defnyddwyr | Amcangyfrif o'r unedau cymorth | Arbedion cost gros (£ miliwn) | Cyfanswm y gwariant (£ miliwn) | Arbedion cost net (£ miliwn) | Arbediad cost net fesul £1 o gyllid CP (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| Pobl ag anawsterau dysgu | 3,221 | 58.5 | 27.6 | 30.9 | 1.1 |
| Cymorth cyffredinol fel y bo'r angen i atal digartrefedd | 9,504 | 33.6 | 21.8 | 11.8 | 0.5 |
| Pobl â phroblemau iechyd meddwl | 2,524 | 82.1 | 13.3 | 68.7 | 5.2 |
| Pobl ifanc ag anghenion cymorth (16-24) | 1,747 | 18.7 | 13.7 | 5.0 | 0.4 |
| Pobl dros 55 oed ag anghenion cymorth (ac eithrio gwasanaethau larwm) | 13,038 | 21.2 | 8.8 | 12.4 | 1.4 |
| Menywod sy'n profi cam-drin domestig | 1,512 | 35.8 | 9.6 | 26.2 | 2.7 |
| Gwasanaethau larwm (gan gynnwys llety cymorth / gofal ychwanegol) | 19,541 | 2.2 | 1.6 | 0.6 | 0.4 |
| Pobl â salwch cronig | 14 | 0.2 | 0.1 | 0.1 | 2.6 |
| Pobl ifanc sy'n gadael gofal | 86 | 1.0 | 0.8 | 0.3 | 0.4 |
| Pobl sengl ag anghenion cymorth (25 i 54) | 783 | 6.8 | 5.0 | 1.8 | 0.4 |
| Pobl ag anableddau corfforol a/neu synhwyraidd | 406 | 5.0 | 1.4 | 3.6 | 2.6 |
| Pobl â hanes troseddau troseddol | 687 | 4.4 | 2.5 | 1.9 | 0.7 |
| Pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau (cyffuriau a sylweddau anweddol) | 580 | 17.2 | 3.9 | 13.3 | 3.4 |
| Teuluoedd ag anghenion cymorth | 804 | 6.8 | 4.4 | 2.4 | 0.6 |
| Teuluoedd un rhiant ag anghenion cymorth | 104 | 1.2 | 0.8 | 0.4 | 0.6 |
| Pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau (alcohol) | 160 | 3.1 | 1.1 | 2.0 | 1.9 |
| Dynion sy'n profi cam-drin domestig | 49 | 1.5 | 0.4 | 1.1 | 2.7 |
| Pobl â statws ffoadur | 73 | 0.4 | 0.3 | 0.1 | 0.4 |
| Pobl ag anhwylderau datblygu | 87 | 0.8 | 0.3 | 0.5 | 1.9 |
| Gwariant nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â chategorïau'r cynllun gwariant | 1,013 | 0.0 | 6.4 | -6.4 | -1.0 |
| Cyfanswm | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **55,933** | **300.4** | **123.7** | **176.7** | **1.4** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, amcangyfrifon
Alma Economics

Un mesur defnyddiol o effeithiolrwydd arian cyhoeddus o ran cynhyrchu arbedion cost yw'r gymhareb arbedion net ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus am bob £1 o gyllid y Grant Cymorth Tai. At ei gilydd, amcangyfrifir bod y Grant Cymorth Tai yng Nghymru yn cynhyrchu £1.4 o arbedion cost blynyddol net ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus am bob £1 o gyllid a ddyrennir i'r rhaglen. Fodd bynnag, mae'r ffigur cyfartalog hwn yn cuddio amrywiad sylweddol ar draws grwpiau defnyddwyr, gyda'r mesur yn amrywio o £5.2 i £0.4 o fudd net am bob £1 o gyllid y Grant.[21] Yn gyffredinol, mae'r astudiaeth hon yn canfod mai'r grwpiau defnyddwyr sy'n cynhyrchu arbedion ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn y ffordd fwyaf cost effeithiol yw'r rhai sydd fel arfer yn rhoi’r galw mwyaf ar wasanaethau cyhoeddus. Yn y rhan fwyaf o achosion mae hyn yn golygu’r angen am ofal hirdymor neu debygolrwydd uchel o ymwneud â digwyddiadau â chanlyniadau andwyol i iechyd neu droseddu. Er enghraifft, amcangyfrifir mai darparu cymorth y Grant Cymorth Tai i'r rhai â phroblemau iechyd meddwl sy’n creu'r arbedion cost mwyaf i wasanaethau cyhoeddus am bob £1 o gyllid y Grant; mae hyn i raddau helaeth oherwydd bod cyfran dybiedig o ddefnyddwyr o'r fath, yn absenoldeb cymorth y Grant, angen gofal preswyl hirdymor costus neu arosiadau estynedig mewn ysbytai fel cleifion mewnol.

Mae'r is-adrannau isod yn trafod yn fanylach y ffactorau sy'n sbarduno arbedion cost o fewn categorïau cost iechyd, gofal cymdeithasol a’r system cyfiawnder troseddol a grwpiau defnyddwyr allweddol, yn ogystal ag amlygu lle mae amcangyfrifon yn fwyaf sensitif i'r tybiaethau a wnaed yn yr ymarfer modelu hwn. Dylid nodi bod cyfanswm yr arbedion cost gros yn cynnwys cynnydd o £6.7 miliwn mewn costau “eraill”. Mae'r categori hwn yn nodi'r holl arbedion cost sy'n gysylltiedig â chostau tai, costau gwasanaeth digartrefedd, costau methiant tenantiaeth a budd-daliadau a chostau gwasanaethau cysylltiedig. Mae dadansoddiad manwl o arbedion cost eraill y tu allan i gwmpas yr astudiaeth hon.

[21] Ac eithrio gwariant nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â chategorïau'r cynllun gwariant.

# 5.3 Arbedion i'r Gwasanaeth Iechyd

**Prif bwyntiau:**

- Mae gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai yn cynhyrchu arbediad gros blynyddol amcangyfrifedig o £138.7 miliwn i wasanaethau iechyd
- Mae'r arbedion a gynhyrchir ar gyfer gwasanaethau iechyd yn cyfrif am 46% o gyfanswm budd gros y grant
- Mae gwasanaethau'r Grant yn cynhyrchu arbediad blynyddol amcangyfrifedig o £97.9 miliwn ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl
- Mae gwasanaethau'r Grant yn cynhyrchu arbediad blynyddol amcangyfrifedig o £14.4 miliwn i wasanaethau iechyd ar gyfer cymorth i fenywod sy'n profi cam-drin domestig
- Mae gwasanaethau'r Grant yn cynhyrchu arbediad blynyddol amcangyfrifedig o £10.6 miliwn ar gyfer cymorth ar gyfer camddefnyddio cyffuriau ac alcohol

Mae'r astudiaeth hon yn amcangyfrif bod y Grant Cymorth Tai yng Nghymru yn darparu cyfanswm o £138.7 miliwn mewn arbedion cost gros i wasanaethau iechyd y flwyddyn, gan gyfrif am 46% o gyfanswm budd gros amcangyfrifedig y rhaglen. Dangosir dadansoddiad o'r arbedion cost blynyddol gros i'r gwasanaeth iechyd fesul grŵp defnyddwyr yn y siart isod.

Cyllid y Grant ar gyfer defnyddwyr â phroblemau iechyd meddwl sy'n cyfrannu fwyaf at y cyfanswm hwn, gan roi £97.9 miliwn (71%) o'r arbedion amcangyfrifedig i'r gwasanaeth iechyd. Tybir y byddai 33% o ddefnyddwyr iechyd meddwl yn defnyddio gofal cleifion mewnol hirdymor ar gyfer iechyd meddwl pe na baent yn cael cymorth y Grant, a hynny sy'n arwain at y rhan fwyaf o'r arbedion hyn. Dylid nodi bod yr arbediad ar gyfer y gwasanaeth iechyd yn sensitif iawn i'r dybiaeth hon, yn ogystal â'r gost a ragdybir ar gyfer darparu gofal hirdymor i gleifion mewnol.


Amcangyfrifir mai cyllid y Grant i fenywod sy'n profi cam-drin domestig sy'n rhoi'r arbediad cost blynyddol uchaf ond un, sef £14.4 miliwn, neu 10% o'r arbedion cost gros blynyddol amcangyfrifedig i'r gwasanaeth iechyd. Mae'r gostyngiad yng nghostau gwasanaethau iechyd i ddioddefwyr cam-drin domestig yn deillio'n bennaf o'r dybiaeth bod cymorth y Grant yn lleihau'r tebygolrwydd o ddigwyddiadau sy'n sbarduno'r angen am wasanaethau iechyd cyhoeddus, megis achosion difrifol o drais. Mae'r modelu a wnaed yn yr astudiaeth hon yn dangos bod yr arbedion cost hyn yn dibynnu'n fawr ar effeithiolrwydd tybiedig y Grant o ran lleihau'r tebygolrwydd o ddigwyddiadau iechyd andwyol ar gyfer cam-drin domestig, yn ogystal â chostau gwasanaethu'r digwyddiadau hyn, ac ni chanfuwyd unrhyw amcangyfrifon penodol ar eu cyfer ar gyfer y Grant yng Nghymru yn benodol.

I raddau llai, mae'r astudiaeth hon yn canfod bod arbedion sylweddol i'r gwasanaeth iechyd yn deillio o gefnogi defnyddwyr sydd â phroblemau camddefnyddio cyffuriau neu alcohol, gyda £7.6 miliwn (6%) yn achos cyffuriau a £3.0 miliwn (2%) yn achos alcohol o'r arbedion cost blynyddol gros i iechyd.[22] Mae'r arbedion iechyd a gynhyrchir gan y grwpiau defnyddwyr hyn

[22] Mae'r dybiaeth wrthffeithiol a ddefnyddiwyd yn CLG 2009 o 52 wythnos y flwyddyn o adsefydlu preswyl neu ofal cleifion mewnol ar gyfer y categorïau defnyddwyr camddefnyddio cyffuriau ac alcohol wedi'i diwygio i 26

yn arbennig o sensitif i'r defnydd tybiedig o wasanaethau gofal cleifion mewnol ac adsefydlu costus yn absenoldeb y Grant yn ogystal â chost y gwasanaethau hyn. Mae'r astudiaeth hon yn tybio y byddai angen gofal cleifion mewnol neu adsefydlu'r GIG ar 20% o ddefnyddwyr sy'n camddefnyddio cyffuriau ac alcohol yn absenoldeb y Grant, ond o ystyried y diffyg tystiolaeth gallai'r nifer hwn fod gryn dipyn yn fwy neu'n llai yn dibynnu ar y graddau y gallai defnyddwyr o'r fath osgoi triniaeth yn gyfan gwbl neu ddefnyddio'r gwasanaethau gofal cymdeithasol sydd ar gael. Yn ogystal, o ystyried y cymorth hirdymor cyfyngedig sydd ar gael gan y GIG, mae'n bosibl y byddai rhai defnyddwyr yn dewis talu am glinigau adsefydlu preifat, heb greu unrhyw arbedion cost i wasanaethau cyhoeddus.

**Siart 61: Arbedion cost gros i'r gwasanaeth iechyd gan y Grant Cymorth Tai yng Nghymru, fesul grŵp defnyddwyr (£ miliwn y flwyddyn)**




yn achos adsefydlu preswyl ac 8 wythnos yn achos gofal cleifion mewnol. Er y gallai fod angen 52 wythnos mewn achosion difrifol, mae'r astudiaeth hon yn tybio'n geidwadol na fydd angen gofal 24/7 parhaus ar rai cleifion o reidrwydd ar y sail y gall rhai, yn absenoldeb Cefnogi Pobl wella o'u problemau camddefnyddio, o leiaf dros dro.

# 5.4 Arbedion i'r Sector Gofal Cymdeithasol


**Prif bwyntiau:**

- Mae gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai yn cynhyrchu arbediad gros blynyddol amcangyfrifedig o £120.6 miliwn i'r sector gofal cymdeithasol
- Mae'r arbedion a gynhyrchir i'r sector gofal cymdeithasol yn cyfrif am 40% o gyfanswm budd gros y grant
- Mae gwasanaethau'r Grant yn cynhyrchu arbediad blynyddol amcangyfrifedig o £62.7 miliwn ar gyfer cymorth i bobl ag anableddau dysgu
- Mae gwasanaethau'r Grant yn cynhyrchu arbediad blynyddol amcangyfrifedig o £40.8 miliwn ar gyfer cymorth i wasanaethau pobl hŷn
- Mae'r astudiaeth hon yn amcangyfrif bod darparu gwasanaethau'r Grant i ddefnyddwyr â phroblemau iechyd meddwl yn arwain mewn gwirionedd at gost flynyddol net o £13.7 miliwn i ofal cymdeithasol yng Nghymru

Amcangyfrifir bod y Grant Cymorth Tai yng Nghymru yn sicrhau £120.6 miliwn o arbedion blynyddol gros i'r sector gofal cymdeithasol, sy'n cynrychioli 40% o'r arbedion gros a amcangyfrifwyd. Dangosir dadansoddiad o'r arbedion cost gros i ofal cymdeithasol fesul grŵp defnyddwyr yn y siart isod.

Cyllid y Grant ar gyfer defnyddwyr ag anableddau dysgu yw'r cyfrannwr mwyaf at y ffigur hwn, sy'n cynrychioli £62.7 miliwn (52%) o'r arbedion amcangyfrifedig y flwyddyn i ofal cymdeithasol. Mae'r rhan fwyaf o'r arbedion hyn yn cael eu llywio gan y gostyngiad yn y galw am wasanaethau gofal preswyl, y tybir y mae eu hangen ar 65% o'r grŵp defnyddwyr anabledd dysgu yn absenoldeb cyllid Cefnogi Pobl.

**Siart 62: Gwerth ac arbedion cost gros i ofal cymdeithasol gan y Grant Cymorth Tai yng Nghymru, fesul grŵp defnyddwyr (£ miliwn y flwyddyn)**



Mae cymorth i ddefnyddwyr hŷn ag anghenion cymorth yn cyfrannu £40.8 miliwn (34%) amcangyfrifedig o arbedion blynyddol at y sector gofal cymdeithasol. Amcangyfrifir bod y rhan fwyaf o'r arbedion hyn yn deillio o ostyngiad yn y galw am ofal preswyl hirdymor, y tybir y mae 10% o ddefnyddwyr yn defnyddio gwasanaethau o'r fath yn absenoldeb y Grant Cymorth Tai. Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth i fesur cyfran y defnyddwyr yn y grŵp hwn a fyddai angen gofal preswyl hirdymor yn absenoldeb y Grant yng Nghymru yn benodol, fodd bynnag, o ystyried y nifer gymharol fawr o ddefnyddwyr yn y grŵp hwn, byddai cynnydd yn y gyfran hon yn debygol o arwain at arbedion cost dipyn uwch i'r sector gofal cymdeithasol.

Mae'r astudiaeth hon yn amcangyfrif bod darpariaeth y Grant i ddefnyddwyr â phroblemau iechyd meddwl yn golygu cost flynyddol net ychwanegol i ofal cymdeithasol yng Nghymru o £13.7 miliwn mewn gwirionedd. Er yr amcangyfrifir bod rhai arbedion i'r system gofal cymdeithasol ar ffurf llai o alw am ofal preswyl gan gyfran o ddefnyddwyr, mae hyn yn cael ei fwy na'i wrthbwyso gan y cynnydd tybiedig yn y gofal dydd a gofal cartref sydd ei angen i gefnogi defnyddwyr y tybir na fyddent yn cael unrhyw gymorth neu y byddent yn cael eu derbyn i'r ysbyty yn absenoldeb y Grant. Mae'r canfyddiad hwn yn tynnu sylw at y cyfnewidiad posibl rhwng arbedion cost iechyd a gofal cymdeithasol; er yr amcangyfrifir bod iechyd, a ddiffinnir yn fras fel gofal iechyd a ariennir gan y GIG a'r awdurdod lleol, yn elwa ar y cyfansymiau, mewn rhai achosion gall y Grant arwain at newid yn y galw o ofal cymdeithasol i ofal iechyd a ariennir gan y GIG, neu i'r gwrthwyneb. O ystyried bod gan iechyd a gofal cymdeithasol eu cyllidebau annibynnol eu hunain, mae hyn yn dangos pwysigrwydd ystyried y newid mewn costau ar draws pob un o'r ddau gategori ar wahân hyn, gan y gallai un gwasanaeth cyhoeddus brofi pwysau ariannol hyd yn oed os yw'r Grant o fudd i wasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol.

## 5.5 Arbedion i'r System Cyfiawnder Troseddol


**Prif bwyntiau:**

- Mae gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai yn cynhyrchu arbediad gros blynyddol amcangyfrifedig o £47.9 miliwn i'r system cyfiawnder troseddol
- Mae'r arbedion a gynhyrchir i'r system cyfiawnder troseddol yn cyfrif am 16% o gyfanswm budd gros y grant
- Mae cyllid y Grant i fenywod sy'n profi cam-drin domestig yn cynrychioli £18.2 miliwn o arbedion
- Mae cymorth cyffredinol fel y bo'r angen i atal digartrefedd yn arbed £15 miliwn i'r system cyfiawnder troseddol

Mae'r astudiaeth hon yn amcangyfrif bod y Grant Cymorth Tai yng Nghymru yn cynhyrchu £47.9 miliwn o arbedion cost gros i'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru bob blwyddyn, sy'n cynrychioli 16% o gyfanswm yr arbedion cost a amcangyfrifwyd. Ceir dadansoddiad isod o'r arbedion cost blynyddol gros i'r system cyfiawnder troseddol fesul grŵp defnyddwyr.

Cyllid y Grant i fenywod sy'n profi cam-drin domestig yw'r cyfrannwr unigol mwyaf i'r ffigur hwn, sy'n cynrychioli £18.2 miliwn (38%) o gyfanswm yr arbedion cost gros blynyddol i'r system cyfiawnder troseddol. Yn debyg i'r achos ar gyfer arbedion iechyd, tybir bod cymorth y Grant yn lleihau'r tebygolrwydd o ddigwyddiadau treisgar a thrwy hynny, amcangyfrifir ei fod yn lleihau'n sylweddol y costau i'r system cyfiawnder troseddol sy'n deillio o ddigwyddiadau o'r fath; er enghraifft, costau cyhoeddus ymchwilio ac erlyn sy'n gysylltiedig ag ymdrin ag unrhyw droseddau honedig.

**Siart 63: Arbedion cost gros i'r system cyfiawnder troseddol gan y Grant Cymorth Tai yng Nghymru, fesul grŵp defnyddwyr (£ miliwn y flwyddyn)**




Amcangyfrifir y bydd dyrannu cyllid y Grant Cymorth Tai fel cymorth cyffredinol i atal digartrefedd yn cynhyrchu £15.0 miliwn o arbedion cost blynyddol i'r system cyfiawnder troseddol, gyda'r dybiaeth bod atal digartrefedd yn llwyddiannus yn lleihau'n sylweddol y tebygolrwydd y bydd defnyddwyr yn troseddu ac yn dioddef trosedd. Drwy gefnogi pobl iau sydd ag anghenion cymorth i fyw'n fwy annibynnol, amcangyfrifir bod y Grant yn cynhyrchu £6.5 miliwn o arbedion cost. Tybir bod y grŵp defnyddwyr hwn mewn perygl penodol o ddigartrefedd ac felly, unwaith eto, mae arbedion cost yn deillio o'r gostyngiad tybiedig mewn gweithgarwch troseddol wrth lwyddo i atal defnyddwyr rhag mynd yn ddigartref.

# 6.0 Casgliad

Nodau Cefnogi Pobl oedd galluogi pobl, gan gynnwys y rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, i fyw mor annibynnol â phosibl.[23] Yn ogystal, bwriad Cefnogi Pobl oedd darparu arbedion 'buddsoddi i arbed' i wasanaethau cost uchel eraill fel iechyd, gofal cymdeithasol a chyfiawnder troseddol.[24] Er iddo newid i fod yn Grant Cymorth Tai, nid yw'r egwyddorion allweddol hyn wedi'u newid mewn unrhyw ffordd nodedig. Cynhaliwyd nifer o astudiaethau

[23] Llywodraeth Cymru, 2013. Grant Rhaglen Cefnogi Pobl - Canllawiau – Cymru. http://www.westernbay.org.uk/wp-content/uploads/Guidance-Doc-SPPG-June-2013.pdf
[24] Ibid.

blaenorol ledled y DU i ddangos cost a budd y Rhaglen Cefnogi Pobl, gan gynnwys; The Matrix Evidence Report[25], Capgemini[26] a'r Matrix Evidence Report[27]. Yn ogystal, datblygwyd y Fframwaith Canlyniadau yng Nghymru[28] a'r Astudiaeth Cysylltu Data[29]. O ran astudiaethau ansoddol i effaith Cefnogi Pobl yng Nghymru, cynhyrchodd The Wallich 'Cymorth sy'n Achub'.[30] Bwriad yr astudiaeth hon yw cyfrannu at y drafodaeth barhaus am gost a budd drwy fesur arbedion i sectorau eraill, a thrwy lenwi'r bwlch yn y dystiolaeth mewn perthynas â 'buddiannau heb eu costio'.

Nod yr astudiaeth hon oedd datblygu ffordd o fesur buddiannau wedi'u costio a heb eu costio gwasanaethau Cefnogi Pobl/y Grant Cymorth Tai drwy ddefnyddio cymysgedd o ddulliau. Datblygwyd y dull hwn er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r cymhlethdodau a drafodwyd gan Stirling[31]:

- Mae gwasanaethau Cefnogi Pobl yn amrywiol iawn
- Mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn cael ei gweld yn aml fel ateb i amrywiaeth eang o broblemau sydd gan unigolion
- Nid yw Cefnogi Pobl yn gweithredu mewn gwactod – mae unigolion sy'n cael cymorth drwy gyllid Cefnogi Pobl yn aml yn defnyddio gwasanaethau eraill

Daw Stirling[32] i'r casgliad bod angen cyfuniad o ddata meintiol ac ansoddol i ddarparu gwerthusiad cadarn.

Mae'r ymchwil hon yn dangos bod buddiannau wedi'u costio gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai, o ran arbedion i wasanaethau (cost uchel) eraill yn glir. Amcangyfrifir bod gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai yng Nghymru yn cynhyrchu arbediad gros amcangyfrifedig o £300.4 miliwn. Wrth ystyried gwariant blynyddol y Grant Cymorth Tai yng Nghymru, mae hyn gyfwerth ag arbediad net amcangyfrifedig o £176.7 miliwn.




[25] Llywodraeth Cynulliad Cymru a Matrix Research & Consultancy, 2006. Costs and Benefits of the Supporting People Programme.
[26] Communities and Local Government, 2009. Research into the Financial Benefits of the Supporting People Programme. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/16136/1274439.pdf
[27] Matrix Evidence a Chyngor Sir Caerfyrddin, 2010. Carmarthenshire County Council Cost Benefit Review of Supporting People.
[28] Llywodraeth Cymru, Fframwaith Canlyniadau, 2015. https://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/supporting-people/publications/outcomesframework-old/?lang=en
[29] Llywodraeth Cymru (2015. Astudiaeth Ddichonoldeb Cysylltu Data Cefnogi Pobl: Adroddiad ar Ganfyddiadau sy'n Dod i'r Amlwg
[30] The Wallich, Alex Osmond, 2017. Cymorth sy'n Achub.
[31] Stirling, 2015. Evaluating the Contribution the Supporting People Programme makes to Preventing and Tackling Homelessness in Wales – Feasibility Study
[32] Ibid.

O ran y gwasanaeth iechyd, mae gwasanaethau'r Grant yng Nghymru yn cynhyrchu arbediad blynyddol gros o £138.7 miliwn, sef 46% o gyfanswm budd gros y grant.

O ran iechyd meddwl, mae gwasanaethau'r Grant yng Nghymru yn cynhyrchu arbediad blynyddol gros amcangyfrifedig o £97.9 miliwn. Mae hyn gyfwerth ag arbediad o £4.50 am bob £1 a werir (yr uchaf o'r holl gategorïau). Amcangyfrifir bod yr arbedion a gynhyrchir ar gyfer y sector gofal cymdeithasol yn £120.6 miliwn (40% o fudd gros y grant), ac ar gyfer y system cyfiawnder troseddol amcangyfrifir bod yr arbedion yn £47.9 miliwn a mwy.

**Iechyd**

- **£138.7 miliwn** o arbediad gros blynyddol i'r gwasanaeth iechyd
- **46%** o fudd gros gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai
- **£97.9 miliwn** o arbedion blynyddol i'r gwasanaeth iechyd ar gyfer defnyddwyr â phroblemau iechyd meddwl
- **71%** o arbedion iechyd amcangyfrifiedig

**Iechyd**

- **£14.4 miliwn** o arbediad blynyddol i'r gwasanaeth iechyd ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig
- **10%** o arbediad iechyd blynyddol
- **£7.6 miliwn** ar gyfer camddefnyddio cyffuriau
- **£3.0 miliwn** o arbedion ar gyfer camddefnyddio alcohol

**Gofal Cymdeithasol**

- **£120.6 miliwn** o arbediad gros blynyddol i'r sector gofal cymdeithasol
- **40%** o fudd gros y rhaglen
- **£62.7 miliwn** o arbedion i'r sector gofal cymdeithasol i ddefnyddwyr ag anableddau dysgu
- **£40.8 miliwn** o arbedion i'r sector gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn

**Cyfiawnder Troseddol**

- **£47.9 miliwn** o arbediad gros blynyddol i'r gwasanaeth cyfiawnder troseddol
- **16%** o fudd gros y rhaglen
- **£15 miliwn** o arbediad i'r gwasanaeth cyfiawnder troseddol drwy atal digartrefedd

I gyd-fynd â'r budd hwn sydd wedi’i gostio, mae'r astudiaeth hon wedi nodi nifer o ganlyniadau pwysig heb eu costio. Dim ond 6% o boblogaeth sampl yr astudiaeth hon a nododd fod eu hiechyd yn 'dda iawn' adeg cwblhau’r arolwg, o gymharu â 37% o boblogaeth Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19. Mae'r astudiaeth hon hefyd wedi nodi i 27% o'r boblogaeth sampl ddweud bod eu hiechyd yn 'wael iawn' o gymharu â dim ond 6% o boblogaeth yr Arolwg Cenedlaethol. Mae bwlch clir yma sy'n dangos gwahaniaeth sylweddol rhwng iechyd (neu iechyd canfyddedig) pobl sy'n cael cymorth y Grant Cymorth Tai yng Nghymru, a'r boblogaeth gyffredinol. Fodd bynnag, wrth ystyried yr ymatebion i'r cwestiwn hwn drwy gydol gwahanol gyfnodau o gymorth y Grant, mae'n amlwg bod iechyd pobl yn gyffredinol (neu eu hiechyd canfyddedig) yn gwella'n sylweddol yng nghamau cynnar eu cymorth gan y Grant. Yn y categori penodol hwn, mae'r gwelliant yn parhau tan fyddant wedi bod yn cael cymorth am fwy na 24 mis, pan mae ymatebion negyddol yn cynyddu eto.

Yn ogystal, mae'r dadansoddiad ansoddol wedi nodi, er nad yw pobl sy'n cael cymorth y Grant yn teimlo mor gadarnhaol ar y cyfan am bynciau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol yng Nghymru, unwaith eto mae eu hymatebion negyddol yn lleihau'n sylweddol yng nghamau cynnar eu cymorth gan y Grant, ac yn parhau i leihau trwy gydol y cymorth. Ceir eithriadau i hyn, gydag ymatebion mwy 'cadarnhaol' gan boblogaeth gwasanaethau’r Grant a holwyd yn y categorïau 'rheolaeth dros fywyd' a 'gobeithiol am y dyfodol.

Amlygwyd amrywiaeth o ganfyddiadau sy'n ymwneud ag arbedion cost i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a'r berthynas rhwng gwasanaethau’r Grant a gwell ansawdd bywyd i unigolion yn yr adroddiad. Y canfyddiadau mwyaf arwyddocaol yw:

1. Drwy bob rhan o'r dadansoddiad data ar gyfer effaith gymdeithasol Cefnogi Pobl, nododd cyfranogwyr effaith gadarnhaol ers iddynt ddechrau cael cymorth. Roedd hyn yn amrywio o leiafswm o 60% yn nodi effaith gadarnhaol, i uchafswm o 80%.
2. O fewn holl gategorïau'r astudiaeth ansoddol, nododd cyfranogwyr welliant sylweddol yng nghamau cynnar iawn eu cymorth (ar ôl y cyfnod 'hyd at ddau fis). Yn gyffredinol, caiff y gwelliant hwn ei gynnal tra byddant yn parhau i dderbyn cymorth gan y Grant.
3. Mae gwasanaethau’r Grant yng Nghymru yn creu arbedion sylweddol i wasanaethau a sectorau eraill.

Yr un mor bwysig os nad pwysicach yw effaith gymdeithasol gwasanaethau’r Grant Cymorth Tai ar unigolion sy'n derbyn ei wasanaethau. Yn y gyfres o gwestiynau ynghylch newid yn y gallu i unigolion deimlo eu bod yn rheoli eu bywydau, gwelir newid gwirioneddol dros y cyfnod y maent yn cael cymorth. Mae'n amlwg, felly, fod iechyd a lles unigolion yn gwella'n sylweddol wrth iddynt gael cymorth. Mae hyn yn cwmpasu iechyd corfforol a meddyliol, ond hefyd meysydd fel boddhad â bywyd, teimlo'n ddiogel, teimlo'n agos at bobl, a bod yn obeithiol am y dyfodol. Nid yn unig y mae gwasanaethau’r Grant yn creu arbedion cost ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ehangach, maent yn galluogi unigolion i ystyried eu hunain a'u bywydau'n fwy gwerth chweil hefyd.

# 7.0 Llyfryddiaeth

Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2017. *Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru*

Ashton, Tom a Claire Hempenstall, Capgemini UK plc, 2009. *Research into the financial benefits of the Supporting People programme* (Llundain: Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol)

Ashton, Tom a Dan Turl, Capgemini UK plc, 2009. *Research into the financial benefits of the Supporting People programme* (Llundain: Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol)

Caulfield, Maria, Corff Comisiynu Cefnogi Pobl Cyngor Dinas Brighton a Hove, 2009. *Commissioning Support Services for Vulnerable People in Brighton & Hove*

Centre for Economic Empowerment ar ran NICVA, 2015. *The Financial Benefits of the Supporting People Programme in Northern Ireland*

Curtis, L., Burns, A., 2019. *Unit costs of health and social care 2019*

Cymorth Cymru, 2017. *Cymorth Cymru responds to detailed Welsh budget and disappearance of Supporting People budget line in 2019/20* https://www.cymorthcymru.org.uk/en/news-blog/news/cymorth-cymru-responds-detailed-welsh-budget-and-disappearance-supporting-people-budget-line-201920 (Fel ar 14 Mai 20)

Cymorth Cymru, 2019. *Housing Matters* https://www.cymorthcymru.org.uk/files/7915/7582/1535/Housing_Matters_report_2019_-_Eng.pdf (Fel ar 14 Mai 20)

Awdurdod Cyfunol Manceinion Fwyaf, 2019. *Unit Cost Database (2019)*

Y Swyddfa Gartref, 2019. *The economic and social costs of domestic abuse*

Homeless Link, 2014. *The unhealthy state of homelessness - Health audit results 2014*

Homeless Watch, 2013. *Who is Supporting People Now? Experiences of Local Authority Commissioning After Supporting People,* https://www.homeless.org.uk/sites/default/files/site-attachments/Who%20is%20supporting%20people%20now%20Report%20Jan13_0.pdf (Fel ar 14 Mai 20)

Jarrett, T., 2012. *The Supporting People Programme: Housing of Commons Research Paper 12/40,* https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/RP12-40/RP12-40.pdf (Fel ar 14 May 20)

Matrix Evidence a Chyngor Sir Caerfyrddin, 2010. *Carmarthenshire County Council Cost Benefit Review of Supporting People*

NHS England a NHS Improvement, 2020. *National Cost Collection (2019)*

NHS Improvement, 2020. *National schedule of NHS costs (2019)*

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, *2020. Breakdown of General Government Final Consumption Expenditure (2019)*

Swyddfa'r Prif Ddadansoddwr, Yr Adran Iechyd, 2010. *Healthcare for Single Homeless People*

Adda, N., Bretherton, J., 2019. *The cost effectiveness of Housing First in England*

Stirling, T., 2015. *Evaluating the Contribution the Supporting People Programme makes to Preventing and Tackling Homelessness in Wales – Feasibility Study*

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth yr Alban a Tribal Consulting, 2008. *Supporting People: Costs and Benefits – Final Report* (Caeredin: Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth yr Alban)

Corff Comisiynu Cefnogi Pobl Cyngor Dinas Brighton a Hove, 2013. *Cost Benefit Analysis: An update on the 2009 analysis including further analysis*

The Wallich, Alex Osmond, 2017. *Cymorth sy'n Achub*

Llywodraeth Cymru, Nicholas Pleace, Ymchwil Gymdeithasol Rhif: 78/2013, 2013. *Mesur Effaith Cefnogi Pobl: Adolygiad Cwmpasu* (Caerdydd: Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2020)

Truscott, Claire a Chyngor Torbay, 2010. *Evidencing the financial benefits of the Supporting People programme in Torbay*

Llywodraeth Cynulliad Cymru a Matrix Research and Consultancy, 2006. *Costs and Benefits of the Supporting People Programme*

Llywodraeth Cymru, Rhif: WG16047, 2012. *Canllawiau Llywodraeth Cymru: Grant Rhaglen Cefnogi Pobl - Canllawiau (Cymru)*

Llywodraeth Cymru, *Canllawiau ar y Grant Cymorth Tai – Canllawiau Ymarfer i Awdurdodau Lleol*, Ebrill 2020 *https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/grant-cymorth-tai-canllawiau-ymarfer_0.pdf*

Llywodraeth Cymru, *Fframwaith Canlyniadau* 2015. https://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/supporting-people/publications/outcomesframework-old/?lang=en (fel ar 20 Chwefror 2019)

Llywodraeth Cymru, yr Athro Syr Mansel Aylward CB, Dr Kerry Bailey, Yr Athro Ceri Phillips, Keith Cox ac Eleanor Higgins, 2010. *Y Rhaglen Cefnogi Pobl yng Nghymru: Adroddiad terfynol ar Adolygiad a gomisiynwyd gan Jocelyn Davies AC, y Dirprwy Weinidog Tai ac Adfywio, 'Adolygiad Aylward' Llywodraeth Cynulliad Cymru* (Caerdydd: Llywodraeth Cymru)

Llywodraeth Cymru, Rhif Crynodeb Ymchwil: 65/2015, 2015. *Astudiaeth Ddichonoldeb Cysylltu Data Cefnogi Pobl: Adroddiad ar Ganfyddiadau sy'n Dod i'r Amlwg* (Caerdydd: Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2020)

Llywodraeth Cymru, Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 16/2016, Laura McGin, Sarah Lowe, Martin Heaven a Lucie Griffiths, 2016. *Prosiect Dichonoldeb Cysylltu Data Cefnogi Pobl: Adroddiad Ymchwil* (Caerdydd: Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru)

Llywodraeth Cymru, Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 32/2017, Rhodri Johnson, Sarah Lowe, Donna Lemin, Laura McGinn a Lucie Griffiths, 2017. *Astudiaeth Cysylltu Data Cefnogi Pobl: Adroddiad Cynnydd* (Caerdydd: Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth)

Llywodraeth Cymru, Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 41/2018, Rhodri Johnson, Sarah Lowe ac Ian Jones, 2018. *Astudiaeth Cysylltu Data Cefnogi Pobl: Adroddiad Cynnydd Blwyddyn Dau* (Caerdydd: Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth)

Llywodraeth Cymru, Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 57/2018, Rhodri Johnson, 2018. *Astudiaeth Cysylltu Data Cefnogi Pobl: Adroddiad ar Ganfyddiadau sy'n Dod i'r Amlwg* (Caerdydd: Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth)

# 8.0 Atodiadau

## 8.1 Atodiad A – Astudiaethau Blaenorol i Gyllid Cefnogi Pobl

### Model 1: Adroddiad Matrix Evidence (Llywodraeth Cymru, 2006)

Yn 2004 comisiynodd Llywodraeth y DU Matrix Evidence i gyflwyno adroddiad ar y Manteision a Wireddwyd gan y Rhaglen Cefnogi Pobl. Canfu'r canlyniadau cychwynnol fod y Rhaglen yn costio mwy i'r cyhoedd na phe na bai cymorth yn cael ei gynnig. Fodd bynnag, nid oedd y model dadansoddi cost a budd wedi'i ddatblygu'n llawn bryd hynny, ac mae pob adroddiad dilynol wedi dangos bod Cefnogi Pobl yn fuddsoddiad rhatach na naill ai gwneud dim neu unrhyw ddarpariaeth arall. Hefyd, mae gan y Rhaglen gyfres o fanteision sydd heb eu costio, megis gwell ansawdd bywyd drwy fwy o annibyniaeth, llai o freguster, gwell iechyd, mwy o ddewis o opsiynau o ran ble a sut i fyw, mwy o sefydlogrwydd, llai o ofn; a mwy o gyfranogiad yn y gymuned (er budd yr unigolyn a chymdeithas), ymhlith llawer o fanteision eraill.[33]

Matrix oedd yn gyfrifol hefyd am gynnal astudiaeth gyntaf Cymru, a gyhoeddwyd ym Medi 2006. Canfu'r adroddiad fod Cefnogi Pobl wedi costio £107,091,845 ar gyfer y naw grŵp o gleientiaid[34] a oedd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad (83.3% o gyfanswm gwariant Cefnogi Pobl, a rannwyd ar y pryd rhwng dau grant gwahanol) o'i gymharu â chost o £180,064,389 i'r pwrs cyhoeddus pe na bai Cefnogi Pobl wedi bod ar waith a phe na bai cronfeydd Cefnogi Pobl o unrhyw fath wedi'u dosbarthu i lywodraeth neu wasanaethau lleol, budd net o £72,972,545.[35] Mewn geiriau eraill, am bob £1 a fuddsoddwyd yn y cynllun Cefnogi Pobl, arbedwyd £0.68 o'r gost o £1.68 heb Cefnogi Pobl.

Ar gyfer eu hastudiaethau cost a budd hyd at 2008, defnyddiodd Matrix ddull costau a osgowyd, neu 'fodel gwrthbwyso costau', lle nad oes unrhyw fath arall o gymorth ar gael. Ni chyflawnodd yr adroddiad unrhyw ddata ymchwil sylfaenol ei hun gan adeiladu ar adroddiad cynharach Matrix, a defnyddio'r un adolygiadau llenyddiaeth ymchwil blaenorol (a gasglwyd drwy alwadau am dystiolaeth, chwiliadau ar y rhyngrwyd a dilyn cyfeiriadau), ymgynghori â rhanddeiliaid a modelu economaidd, gan fynd i'r afael ar yr un pryd â phrif gyfyngiadau eu gwaith cynharach.[36] Canfu'r ddwy astudiaeth gan Matrix, er bod corff o ymchwil ansoddol a

[33] Llywodraeth Cynulliad Cymru a Matrix Research and Consultancy, 2006. *Costau a Manteision y Rhaglen Cefnogi Pobl.* t. 23.

[34] Menywod sy'n ceisio lloches rhag trais domestig, Pobl ag anableddau dysgu, Pobl â phroblemau iechyd meddwl, Pobl â dibyniaeth ar alcohol, Pobl â phroblemau cyffuriau, Pobl ifanc sengl ddigartref a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, Cyn-droseddwyr, Pobl ddigartref neu a allai gael eu gwneud yn ddigartref, a Phobl hŷn. Nid oedd saith grŵp arall o gleientiaid wedi'u cynnwys: Pobl â salwch cronig gan gynnwys AIDS/HIV a chyflyrau cysylltiedig, Rhieni sengl agored i niwed, Ffoaduriaid, Pobl ag anabledd corfforol sydd angen cymorth, Larymau, Gofal cymunedol, a Math arall o gyllid Cefnogi Pobl.

[35] *Costau a Manteision y Rhaglen Cefnogi Pobl*, tud 6 a 9-10.

[36] *Costau a Manteision y Rhaglen Cefnogi Pobl*, t. 5.

oedd wedi nodi'r mathau o fuddion a adroddwyd, neu a ddisgwylid gan wasanaethau Cefnogi Pobl, na fu unrhyw werthusiadau ar raddfa fawr o gymorth sy'n gysylltiedig â thai ar gyfer unrhyw grwpiau o gleientiaid ac nad oedd unrhyw wybodaeth ar gael am effaith y gwasanaethau hyn ar ymddygiad a phrofiadau'r rhai sy'n eu derbyn.[37] Er bod adroddiadau dilynol wedi ceisio asesu hyn, nid yw lefel gyffredinol yr effaith yn hysbys.

Gan nad oedd y data hwn ar gael, datblygodd Matrix rai rhagdybiaethau gweithio ar effaith Cefnogi Pobl ac ar ei absenoldeb. I'w dilysu, lluniwyd holiadur yn caniatáu i randdeiliaid roi sylwadau ar y rhagdybiaethau hyn a'i anfon at arweinwyr Cefnogi Pobl o bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, aelodau o Grŵp Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan (yn cynnwys swyddogion prawf yn bennaf), a chynrychiolwyr darparwyr, yn ogystal â chynnal cyfweliadau gyda rhanddeiliaid allweddol o ddwy adran gwasanaethau cymdeithasol (Powys a Thorfaen).[38] Defnyddiwyd pump y cant (5%) fel lefel safonol lle nad oedd unrhyw resymeg na thystiolaeth ddibynadwy amlwg a fyddai'n awgrymu fel arall.

Roedd rhanddeiliaid yn ei chael yn anodd rhoi sylwadau ar y ffigurau yn yr holiadur a ddosbarthwyd, yn bennaf oherwydd diffyg tystiolaeth empirig i gefnogi heriau i'r rhagdybiaethau cychwynnol a ddatblygwyd gan Matrix.[39] Fodd bynnag, canfuwyd bod y rhanddeiliaid hynny a ddychwelodd holiaduron, yn amcangyfrif lefelau effaith uwch na'r rhai yn y model, ac felly, ystyriwyd bod amcangyfrifon effaith y model yn geidwadol.[40] Serch hynny, ystyriodd Matrix bob ateb gan estyn eu model i gynnwys eu hamcangyfrifon, y cymedr (cyfartaledd) o'u hymgynghoriad, ac uchafswm ymatebion yr ymgynghoriad.

Ffigur 1: Enghraifft o asesu effaith gan ddefnyddio rhagdybiaeth Matrix, cymedr ac uchafswm ar gyfer pobl ag anableddau dysgu

[37] Ibid.
[38] Ibid.
[39] *Costau a Manteision y Rhaglen Cefnogi Pobl*, t. 12.
[40] Ibid.

| Area of impact | Impact | Model | Mean | Max |
|---|---|---|---|---|
| Physical health | Reduction in admission rate for population receiving Supporting People | 5% | 24% | 30% |
| | Reduction in A&E attendances | 5% | 25% | 30% |
| | Reduction in length of stay (general admissions) | 50% | 26% | 50% |
| | Reduction in use of GP for those with learning disabilities | 5% | 23% | 30% |
| | Reduction in outpatient attendances of those with learning disabilities | 5% | 17% | 30% |
| Mental Health | Reduction in length of stay (mental health admissions) | 50% | 50% | 50% |
| | Reduction in mental health admittances due to Supporting People | 5% | 14% | 30% |
| | Reduction in community mental health contacts for population receiving Supporting People | 5% | 11% | 20% |
| Crime | Reduction in burglaries due to advice from Supporting People services | 5% | 38% | 75% |
| | Reduction in violent crime through advice on personal safety from Supporting People services | 5% | 38% | 75% |
| Homelessness | Percentage of people with LD prevented from becoming homeless though receiving Supporting People | 5% | 38% | 75% |
| Social Care | Percentage of Supporting People population who would receive non-statutory social services interventions (home care – 2 hours per week) | 20% | 35% | 80% |
| Residential Care | Percentage of Supporting People population that would require residential care if Supporting People was removed. | 50% | - | - |
| | Percentage of Supporting People population that would require respite adult placement if Supporting People was removed. | 24% | - | |
| | Percentage of Supporting People population that would require permanent adult placement if Supporting People was removed. | 6% | - | - |

Ffynhonnell*: Costau a Manteision y Rhaglen Cefnogi Pobl,* t. 13.

Aeth Matrix ymlaen wedyn i asesu manteision posibl gwasanaethau Cefnogi Pobl i'r grwpiau cleientiaid a ddewiswyd dros gyfnod o ddeuddeg mis gan ragdybio bod yr holl fuddion yn digwydd o fewn blwyddyn o ddarparu'r gwasanaethau i'r unigolion.[41] Mae'n bwysig nodi bod gan bobl sy'n defnyddio Cefnogi Pobl anghenion amrywiol a chymhleth lluosog, felly dim ond ychydig fisoedd o gymorth sydd eu hangen ar rai cleientiaid, tra bod angen dros ddwy flynedd ar eraill. Felly, efallai na fydd mesur effaith gwasanaethau dros gyfnod o ddeuddeg mis yn unig yn rhoi'r darlun cyfan.

Gyda'r model hwn hefyd, cafodd cost ac effaith rhagdybiaethau eu cyfrif ar y sail bod cleientiaid yn perthyn i un grŵp cleientiaid yn unig neu mai un prif angen oedd ganddynt. Fodd bynnag, ceir anghenion eilaidd a thrydyddol yn aml. Fel y mae ar hyn o bryd, mae cleientiaid Cefnogi Pobl yn cael eu dosrannu i un o 19 o grwpiau cleientiaid ar sail eu prif angen cymorth. Nid yw hyn yn ystyried eu hanghenion eilaidd neu drydyddol, felly, er enghraifft, gallai camddefnyddio sylweddau alcohol fod yn brif angen i gleient, iechyd meddwl yn angen eilaidd a hanes troseddol yn angen trydyddol.

Un pwynt allweddol o'r astudiaeth oedd rhagdybiaeth Matrix yn eu gwaith modelu, sef na fyddai gwasanaethau a ariennir gan Cefnogi Pobl yn cael eu nodi gan ffynonellau cyllid eraill.[42] Roedd eu dull gweithredu yn cymharu'r Rhaglen Cefnogi Pobl bresennol â'r sefyllfa lle na ddosbarthwyd cronfeydd Cefnogi Pobl ar unrhyw ffurf i lywodraethau lleol neu wasanaethau eraill.[43] Dadleuwyd y gellid dychmygu heb y rhagdybiaeth hon fod y cronfeydd Cefnogi Pobl yn cael eu hailddosbarthu fel arall drwy ffrydiau ariannu lleol neu ganolog eraill y llywodraeth i gyrraedd yr un gwasanaethau a chleientiaid (er y barnwyd bod hyn yn annhebygol iawn yn ymarferol).[44] Dadleuodd Matrix os mai yn erbyn hyn roedd y Rhaglen Cefnogi Pobl gyfredol yn

[41] *Costau a Manteision y Rhaglen Cefnogi Pobl*, t. 6.
[42] Ibid.
[43] Ibid.
[44] Ibid.

cael ei chymharu, y byddai manteision y Rhaglen wedi bod yn sero, gan mai dim ond ffordd syml o ddosbarthu arian i wasanaethau fyddai'r rhaglen wedi bod, yn hytrach na sicrhau bod y gwasanaethau hynny'n cael eu darparu.[45]

**Ffigur 2: Enghraifft weithredol o sut mae model Matrix yn gweithredu gyda 'lleihau derbyniadau ar gyfer iechyd meddwl' fel enghraifft**Ffynhonnell: *Costau a Manteision y Rhaglen Cefnogi Pobl*, tt. 6-7.

Er ei fod yn ddefnyddiol, nid yw'r dull hwn heb ei ddiffygion. Yn bwysicaf oll, mae'r prinder o ddata arwyddocaol er mwyn cyfiawnhau rhagdybiaethau a wneir yn golygu bod rhai yn cael eu gorliwio, rhai heb eu cynrychioli, ac eraill yn cael llinell sylfaen o 5%. O ganlyniad, gallai effaith wirioneddol Cefnogi Pobl a'r dewisiadau amgen fod yn wahanol iawn.

Y brif broblem, fodd bynnag, oedd bod y modelu'n cynnwys y rhagdybiaeth mai dim ond un prif angen oedd gan gleient a'i fod yn perthyn i un grŵp o gleientiaid. Felly, dim ond mesur yr effaith ar hanes troseddol fyddai'r model yn ei wneud ar gyfer cleient oedd â phrif angen o hanes troseddu, tra byddai unrhyw anghenion eilaidd neu drydyddol yn cael eu hanwybyddu. Nid yw'r effeithiau mor gyfyngedig i bob grŵp cleient ag y mae gwaith modelu'r adroddiad yn ei awgrymu. Gyda'r grwpiau cyffredinol (megis pobl sengl (25-54)) mae'n anodd iawn amcangyfrif beth fyddai'r effeithiau gan nad ydynt wedi'u diffinio cystal â grwpiau cleientiaid sydd wedi eu neilltuo i gamddefnyddio sylweddau neu drais domestig. Nid yw hynny'n golygu nad yw cleientiaid y grwpiau hyn yn elwa ar effeithiau amhrisiadwy'r cymorth. Nid oedd Adroddiad Matrix 2006 ychwaith yn gwahaniaethu rhwng mathau sefydlog o gymorth a chymorth fel y bo'r angen.

At hynny, nid oedd Matrix yn awgrymu gwasanaethau amgen y gellid eu gweithredu yn absenoldeb y rhaglen Cefnogi Pobl. Yn hytrach, dim ond modelu senario lle nad oedd unrhyw gymorth yn cael ei ddarparu a wnaethant. Ers hynny, mae modelau darpariaeth amgen wedi'u datblygu gan Capgemeni neu'n seiliedig ar fodel Capgemeni.

## Model 2: Adroddiad Matrix Evidence (Cyngor Sir Caerfyrddin, 2010)

Mae Capgemeni yn defnyddio methodoleg wahanol sy'n ystyried beth fyddai'r effaith ariannol pe bai gwasanaethau a ariennir gan raglen Cefnogi Pobl yn cael eu dileu a'u disodli gan y dewisiadau amgen cadarnhaol mwyaf priodol ar gyfer diwallu anghenion grŵp yn y modd mwyaf effeithiol posibl (h.y. dull a fyddai, yn absenoldeb rhaglen Cefnogi Pobl, yn darparu'r gyfradd uchaf o fyw'n annibynnol).[46]
Unwaith eto comisiynwyd Matrix gan Gyngor Sir Caerfyrddin (y Cyngor) i baratoi adroddiad tebyg ar gyfer costau a manteision rhaglen Cefnogi Pobl o fewn y cyngor, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2010. Nod yr adroddiad oedd adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd o'u dwy astudiaeth flaenorol. Yn yr astudiaeth hon sy'n benodol i Sir Gaerfyrddin, diweddarwyd y sylfaen dystiolaeth i gynnwys unrhyw ymchwil berthnasol a gyhoeddwyd rhwng 2006 a 2010 gan deilwra'r dystiolaeth ymhellach i gynnwys gwybodaeth sy'n benodol i Sir Gaerfyrddin lle

[45] Ibid.
[46] *Research into the financial benefits of the Supporting People programme*, t. 18.

bynnag roedd hynny'n bosibl.[47] Mae'r modelu ar gyfer yr adroddiad hwn yn adlewyrchu datblygiad y model Capgemeni gan ei fod yn cyfrifo manteision Cefnogi Pobl o gymharu â'r senario cymorth amgen mwyaf tebygol (y gwrthffeithiol).[48] Ar gyfer hyn, aethpwyd ati i nodi ac yna i fodelu'r gwasanaethau y byddai cleientiaid ym mhob grŵp cleientiaid yn eu derbyn pe na bai gwasanaethau Cefnogi Pobl ar gael ac effaith y newid hwn i ffurfweddiad y gwasanaeth ar ganlyniadau andwyol i gleientiaid ym mhob grŵp o gleientiaid.[49]

Addaswyd y rhagdybiaethau a wnaed yn adroddiad 2006 ymhellach i fod yn fwy penodol i Sir Gaerfyrddin drwy gynnal cyfres o gyfweliadau gyda swyddogion y Cyngor sy'n gyfrifol am wasanaethau tai a darparwyr gwasanaethau, y tu mewn a'r tu allan i'r Cyngor.[50] Nodwyd sampl o ddarparwyr a oedd wedi eu dewis i adlewyrchu'r gyfran fwyaf bosibl o werth contract gan hefyd gwmpasu'r holl grwpiau o gleientiaid a wasanaethir yn benodol gan raglen Cefnogi Pobl Sir Gaerfyrddin o gronfa ddata a ddarparwyd i Matrix gan y Cyngor gan nad oedd digon o amser ac adnoddau i gyfweld â phawb.[51] Arweiniodd hyn at nodi wyth darparwr a oedd yn cwmpasu bron i 73% o gyfanswm gwerth y contract ac yn cynnwys pob grŵp o gleientiaid, a chytunodd pob un ohonynt i gymryd rhan yn yr astudiaeth.[52] Er mwyn ehangu cwmpas eu hastudiaeth, ymgysylltodd Matrix hefyd ag ystod ehangach o grwpiau darparu na'r darparwyr a samplwyd er mwyn sicrhau bod barn a dirnadaeth darparwyr sydd â chontractau Cefnogi Pobl llai gyda'r Cyngor yn cael eu hystyried hefyd.[53] Yn olaf, aeth Matrix i gyfarfod darparwyr yn Llanelli lle bu darparwyr yn rhannu eu profiadau o'r gwasanaethau y maent yn eu darparu.[54] Yn ystod y sesiwn hon, cyflwynodd Matrix amcanion a methodoleg arfaethedig yr astudiaeth hon a gwahoddodd ddarparwyr i ofyn cwestiynau, trafod eu profiad a darparu unrhyw ddata perthnasol.[55]

Ar gyfer pob un o'r grwpiau o gleientiaid Cefnogi Pobl yn Sir Gaerfyrddin, datblygwyd sefyllfa wrthffeithiol ar ffurf senario amgen a oedd yn adlewyrchu'r hyn y credai rhanddeiliaid ac arbenigwyr y byddai'n debygol o ddigwydd i'r cleientiaid Cefnogi Pobl presennol yn absenoldeb gwasanaethau Cefnogi Pobl cyfredol fel y'u dilyswyd gan yr ymgynghoriadau. Roedd yn anodd amcangyfrif y costau amgen gan fod Cefnogi Pobl wedi bod yn elfen allweddol o wasanaethau tai ers 2003.[56]

Rhwystr arall i Matrix oedd y ffaith nad oedd data ar ganlyniadau ar gael am nad oeddent yn cael eu casglu'n briodol ar y pryd.[57] Yn ffodus, cafwyd gwelliant o ran casglu'r data hwn yn sgil yr Holiadur Canlyniadau a Gadael Gwasanaethau Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru yn 2012, er bod yna feysydd o hyd lle gellir gwella'r broses o gasglu data.

---

[47] Tystiolaeth Matrix a Chyngor Sir Caerfyrddin, *Carmarthenshire County Council Cost Benefit Review of Supporting People* (Medi 2010), t. 14.
[48] *Carmarthenshire County Council Cost Benefit Review of Supporting People*, t. 15.
[49] *Carmarthenshire County Council Cost Benefit Review of Supporting People*, tt. 14-15.
[50] *Carmarthenshire County Council Cost Benefit Review of Supporting People*, t. 15.
[51] Ibid.
[52] Ibid.
[53] Ibid.
[54] Ibid.
[55] Ibid.
[56] *Carmarthenshire County Council Cost Benefit Review of Supporting People* t. 16.
[57] Ibid.

Ystyriwyd wyth grŵp o gleientiaid yn yr astudiaeth hon: pobl sy'n dianc rhag trais domestig, pobl ag anableddau dysgu, pobl â phroblemau iechyd meddwl, defnyddwyr cyffuriau, pobl ifanc sengl ddigartref, cyn-droseddwyr, pobl ddigartref, a phobl hŷn. Dangosodd y canlyniadau bod amcangyfrif o £32.5 miliwn wedi ei wario ar gleientiaid Cefnogi Pobl mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus, sef tai, iechyd, gofal cymdeithasol a chyfiawnder troseddol, ac y byddai amcangyfrif o £49.0 miliwn wedi ei wario oni bai am y cymorth a ddarperir gan y rhaglen Cefnogi Pobl, budd net o £7.9 miliwn bob blwyddyn.[58] Felly, am bob £1 a wariwyd, byddai £2.30 yn cael ei wario o dan senario amgen, gwahaniaeth o £1.30, sy'n arbediad sylweddol.

Mae'r adroddiad yn adlewyrchu cyfyngiadau adroddiadau blaenorol, gan gynnwys nad oes modd mesur manteision y rhaglen sydd heb eu costio, nid oes sail gref o dystiolaeth ar gael ar gyfer ffurfio rhagdybiaethau o effaith Cefnogi Pobl, nid yw'r gwahanol fathau o gefnogaeth wedi eu hystyried (sefydlog neu gymorth fel y bo'r angen) a'r rhagdybiaeth fod y gwasanaethau'n llwyddiannus ac yn cael eu darparu'n briodol , ymhlith sawl un arall.[59]

## Modelau Amgen: Lloegr a'r Alban

Er gwaethaf tystiolaeth gyfyngedig yng nghyd-destun Cymru, mae sawl astudiaeth wedi ceisio amcangyfrif yr arbedion cost i wasanaethau cyhoeddus sy'n deillio o'r rhaglen Cefnogi Pobl yng ngwledydd eraill y DU, gan gynnwys Lloegr a Gogledd Iwerddon. Amcangyfrifodd astudiaeth yn 2009 a gomisiynwyd gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG), gan ddefnyddio model buddion ariannol a ddatblygwyd gan Capgemini, mai £3.4bn oedd yr arbedion cost net blynyddol a gynhyrchwyd gan raglen Cefnogi Pobl yn Lloegr, yn erbyn cyfanswm cost flynyddol gweithredu'r rhaglen Cefnogi Pobl o £1.6bn.[60] Mae'r ffigurau hyn yn dangos budd ariannol net o £2.10 i wasanaethau cyhoeddus am bob £1 o gyllid Cefnogi Pobl. Mae'r gwasanaethau cyhoeddus y nodir bod y Rhaglen yn effeithio arnynt yn eang eu cwmpas ac yn cynnwys darpariaeth gofal preswyl, gwasanaethau tai a digartrefedd, gwasanaethau iechyd, gwasanaethau gofal cymdeithasol, troseddu a budd-daliadau, ymhlith eraill.

Mabwysiadwyd model Capgemini wedyn i amcangyfrif yr arbedion cost i wasanaethau cyhoeddus yng Ngogledd Iwerddon yn sgil Cefnogi Pobl, lle mae gan y Rhaglen gyllideb o £65.6 miliwn yn 2013/14 sy'n cyfrif am 19,324 o unedau cymorth blynyddol. Canfu'r astudiaeth hon, a gyhoeddwyd gan NICVA yn 2015, fod y rhaglen Cefnogi Pobl wedi cynhyrchu £125 miliwn o arbedion cost blynyddol ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus yng Ngogledd Iwerddon, sy'n cynrychioli £1.90 o arbedion cost i wasanaethau cyhoeddus am bob £1 o gyllid ar gyfer y Rhaglen.[61]

Mae nifer o adroddiadau eraill wedi'u comisiynu a'u cynnal ledled y DU, yn defnyddio gwahanol fodelau gan roi amrywiaeth o ganfyddiadau maes o law. Gwelwyd rhai o'r canlyniadau mwy

[58] *Carmarthenshire County Council Cost Benefit Review of Supporting People* t. 8.
[59] *Carmarthenshire County Council Cost Benefit Review of Supporting People* t. 17.
[60] Ymchwil i fanteision ariannol y rhaglen Cefnogi Pobl, 2009. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/16136/1274439.pdf
[61] Manteision Ariannol y Rhaglen Cefnogi Pobl yng Ngogledd Iwerddon. https://www.nicva.org/sites/default/files/d7content/attachments-resources/web_report.pdf

ceidwadol yn adroddiad Tribal Consulting yn yr Alban yn 2007[62] (gwario £402 miliwn – £1 – o'i gymharu â £441 miliwn – £1.10 – mewn senario arall, arbediad cydsoddiad £39 miliwn – £0.10) ac adroddiad Torbay 2010[63] (gwario £47.87 miliwn – £1 – o'i gymharu â £56.06 miliwn – £1.17 – gwahaniaeth o £8.19 miliwn – £0.17). Ar y llaw arall, gwelwyd y manteision mwyaf yn adroddiadau Cyngor Brighton & Hove 2011[64] (£11.3 miliwn – £1 – ond £36.6 miliwn – £3.24 – mewn senario amgen, gwahaniaeth o £25.3 miliwn – £2.24) a 2013[65] (gwario £10 miliwn – £1 – ond £41.1 miliwn – £4.11 mewn senario amgen, gwahaniaeth o £31.1 miliwn – £3.11).

## Adolygiad Aylward (2010)

Mater sy'n codi dro ar ôl tro wrth weithredu'r rhaglen Cefnogi Pobl yw'r prinder o ganlyniadau mesuradwy sy'n profi gwerth pob prosiect Cefnogi Pobl unigol. Mae goblygiadau i hyn gan gynnwys dyrannu cyllid ledled Cymru (roedd bodolaeth dwy ffrwd wahanol o gyllid tan 2012 yn gwneud hyn hyd yn oed yn fwy cymhleth[66]), y diffyg eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau'r cyfranogwyr dan sylw, a diffyg tryloywder ac eglurder yn nhrefniadau llywodraethu, trefniadau atebolrwydd, caffael a phroses gomisiynu'r Rhaglen.[67]

Comisiynwyd Adolygiad Aylward gan Jocelyn Davies AC, y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio ar y pryd, a gwnaeth argymhellion a fyddai'n cryfhau'r Rhaglen ac yn manteisio i'r eithaf ar ei chyfraniad at iechyd a llesiant y bobl y bwriadwyd y rhaglen Cefnogi Pobl ar eu cyfer.[68] Er mai prif ffocws yr adolygiad oedd ffrydiau ariannu a'u rheoli'n well, roedd materion yn ymwneud â darparu canlyniadau hefyd yn cael sylw. Cydnabu'r adolygiad ddilysrwydd a defnyddioldeb adroddiadau Matrics Cymru 2006 a dadansoddiad cost a budd Cyngor Sir Caerfyrddin 2011 gan gytuno i raddau helaeth â'u canlyniadau. Fodd bynnag, fel yr astudiaethau blaenorol, daeth i'r casgliad, hyd nes y byddai fframwaith canlyniadau cadarn ar waith gyda gwerthusiad mwy trylwyr o wasanaethau Cefnogi Pobl a chanlyniadau wedi'u gosod yn erbyn mecanweithiau cymorth amgen, na ellid casglu data cywir a dibynadwy ar gost-effeithiolrwydd.[69]

Argymhellodd Adolygiad Aylward y dylid bwrw ymlaen â'r gwaith o wireddu cronfa ddata gynhwysfawr i lywio'r gwaith o ddethol a gwerthuso canlyniadau diriaethol priodol ar draws ystod eang o ymyriadau presennol a rhai yn y dyfodol gyda rhywfaint o frys.[70]

---

[62] Scottish Government Social Research and Tribal Consulting, 2008. *Supporting People: Costs and Benefits – Final Report* (Edinburgh: Scottish Government Social Research)

[63] Claire Truscott a Chyngor Torbay, 2010. *Evidencing the financial benefits of the Supporting People programme in Torbay*

[64] Maria Caulfield, Supporting People Commissioning Body Brighton & Hove City Council, 2011. *Commissioning Support Services for Vulnerable People in Brighton & Hove*

[65] Supporting People Commissioning Body Brighton & Hove City Council, 2013. *Cost Benefit Analysis 2013: An update on the 2009 analysis including further analysis*

[66] Llywodraeth Cymru, 2012. Rhif: WG16047, *Canllawiau Llywodraeth Cymru: Supporting People Programme Grant (SPPG) Guidance (Wales)*, t. 3.

[67] Llywodraeth Cymru, yr Athro Syr Mansel Aylward CB, Dr Kerry Bailey , Yr Athro Ceri Phillips, Keith Cox ac Eleanor Higgins, 2010. *The Supporting People Programme in Wales: Final report on a Review commissioned by Jocelyn Davies AM, Deputy Minister for Housing and Regeneration, Welsh Assembly Government 'Aylward Review*, t. 4.

[68] Ibid.

[69] *Adolygiad Aylward*, t. 9.

[70] *Adolygiad Aylward*, t. 76.

## Datblygu Fframwaith Canlyniadau: Cymru

Ar gyfer data gwerthuso cadarn, mae'n hanfodol cael dull o fesur effaith rhaglenni polisi mewn ffordd gyson a safonol.[71] Ers mis Hydref 2008, roedd comisiynwyr a darparwyr yng Nghymru wedi bod yn dadlau dros ddull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau'r unigolyn.[72] Ym mis Gorffennaf 2009, cytunodd Llywodraeth Cymru i ddatblygu Cytundeb Canlyniadau gydag Awdurdodau Lleol fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Ddealltwriaeth Newydd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol.[73] Cymerodd 17 o Awdurdodau Lleol ledled Cymru ran mewn cynllun peilot i fesur canlyniadau gyda chyfran amrywiol o ddarparwyr, a gynhaliwyd o fis Tachwedd 2009 i fis Mai 2010.[74] Fodd bynnag, nid oedd y model peilot hwn yn safonedig.

Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, cafodd nifer o ddulliau gwahanol o lunio canlyniadau eu treialu neu eu cyflwyno, gan gynnwys y Rhwydwaith Technoleg Gwybodaeth Cefnogi Pobl. Er mwyn helpu'r gwaith hwn o gasglu canlyniadau, yn 2013 comisiynodd Llywodraeth Cymru astudiaeth gwmpasu i roi trosolwg o natur a graddau prosiectau Cefnogi Pobl ac archwilio'r opsiynau ar gyfer comisiynu prosiect ymchwil ar raddfa fawr i werthuso effaith Cefnogi Pobl.[75] Cydnabu'r adolygiad *Measuring the Impact of Supporting People: A Scoping Review* nad oes yna ddull gweithredu unigol y gellir ei ddefnyddio i ddeall canlyniadau ac effeithiau prosiectau Cefnogi Pobl yn llawn.[76] Mae dulliau megis systemau monitro canlyniadau, gwahanol fodelau o ddadansoddi cost a budd, arolygon sampl a gwerthusiadau gwasanaeth i gyd yn ddefnyddiol, a phob un ohonynt yn cynnig manteision yn ogystal â rhai cyfyngiadau hefyd.

Yn dilyn Adolygiad Aylward a cheisiadau lluosog gan y sector, penderfynodd Llywodraeth Cymru gasglu data sy'n seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer gwasanaethau a ariennir gan y rhaglen Cefnogi Pobl – Holiadur Canlyniadau a Gadael Gwasanaethau Cefnogi Pobl – oedd yn orfodol o fis Ebrill 2012 ymlaen ac sy'n dal i fod ar waith.[77]

Diben y fframwaith yw:

- mabwysiadu system i gasglu gwybodaeth ystyrlon am ganlyniadau.
- defnyddio'r wybodaeth i fesur, cynnal a gwella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir.
- cydnabod effeithiolrwydd Cefnogi Pobl.[78]

Nid yw fframwaith Llywodraeth Cymru wedi llwyddo i fesur canlyniadau mor drylwyr ag y bwriadwyd. Felly, mae wedi comisiynu dull amgen ar ffurf astudiaeth cyswllt data – nid yw hyn wedi'i ddatblygu'n llawn adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

---

[71] *Adolygiad Aylward*, t. 34.
[72] *Adolygiad Aylward*, t. 36.
[73] Ibid.
[74] Ibid.
[75] Llywodraeth Cymru, Nicholas Pleace, 2013. Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 78/2013, *Measuring the Impact of Supporting People: A Scoping Review* (Caerdydd: Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru),t. 7.
[76] *Measuring the Impact of Supporting People*, t. 51.
[77] Llywodraeth Cymru, *Outcomes Framework* 2015. https://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/supporting-people/publications/outcomesframework-old/?lang=en (fel ar 20 Chwefror. 2019)
[78] Ibid.

## Astudiaeth Ddichonoldeb Cysylltu Data Cefnogi Pobl: Adroddiad ar Ganfyddiadau sy’n Dod i’r Amlwg

Ym mis Tachwedd 2015, cyhoeddwyd adroddiad ar ganfyddiadau sy’n dod i’r amlwg ar gyfer yr astudiaeth ddichonoldeb cyswllt data.[79] Yn gryno, cynlluniwyd yr astudiaeth i asesu dichonoldeb defnyddio'r dull arloesol o gysylltu data er mwyn darparu elfen feintiol i werthuso Cefnogi Pobl.[80] Yn benodol, archwiliodd yr astudiaeth pa mor ddichonol oedd defnyddio data gweinyddol cysylltiedig i ddangos effaith y rhaglen Cefnogi Pobl ar ddefnyddio gwasanaethau iechyd.[81]

Cyhoeddwyd yr adroddiad ymchwil terfynol ar gyfer yr astudiaeth ddichonoldeb ym mis Mawrth 2016.[82] Canfu'r astudiaeth, a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ar y cyd â Phrifysgol Abertawe, er bod heriau sylweddol o ran caffael, cysoni a dadansoddi'r data presennol, y byddai astudiaeth o'r fath yn debygol o gynhyrchu canfyddiadau ystadegol gadarn o sylwedd.[83] Defnyddiodd yr astudiaeth gyfraddau cysylltu ar gyfer data gweinyddol rheolaidd Cefnogi Pobl ar gyfer dau awdurdod lleol braenaru – Blaenau Gwent (cymorth fel y bo'r angen a chymorth yn seiliedig ar lety) ac Abertawe – i brofi eu methodoleg.


Amcan hirdymor yr astudiaeth oedd casglu data gan y 22 awdurdod lleol a’u rhoi mewn un gronfa ddata drwy ddefnyddio'r Banc Data SAIL (Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw).[84] Nod yr astudiaeth oedd cymharu’r defnydd o’r gwasanaeth iechyd cyn ac ar ôl ymyriad Cefnogi Pobl (12 mis cyn ac ar ôl) i brofi bod gostyngiad yn y defnydd o'r GIG a gwasanaethau eraill o ganlyniad i gymorth y rhaglen Cefnogi Pobl.[85] Teimlwyd y gellid dilyn y dull hwn yn y tymor hir am gost ychwanegol gymharol isel mewn ffordd nad yw'n agored i gyfraddau gadael, gan oresgyn un o gyfyngiadau allweddol astudiaethau blaenorol sef diffyg asesiad effaith hirdymor.[86] Casglwyd gwybodaeth am ddata gweinyddol y Rhaglen Cefnogi Pobl a gedwir gan bob ALl ac mewn rhai achosion, gofynnwyd i ALlau ddarparu data gweinyddol Cefnogi Pobl fel y gellid eu cysylltu'n ddienw â chofnodion iechyd arferol defnyddwyr gwasanaeth a gedwir at ddibenion dadansoddi.[87] Fodd bynnag, oherwydd amserlen fer yr astudiaeth ddichonoldeb hon, ni lwyddwyd i gaffael yr holl wybodaeth, ac felly penderfynwyd defnyddio enghreifftiau braenaru. Yna crynhowyd y data crai a gaffaelwyd mewn set ddata 'barod ar gyfer ymchwil' a nodwyd newidynnau i'w dadansoddi mewn ymgynghoriad â'r Grŵp Llywio Ymchwil a Gwerthuso Cefnogi Pobl.[88] Y grwpiau hyn oedd: oedran a rhyw'r defnyddiwr gwasanaeth

[79] Llywodraeth Cymru (2015. Crynodeb o'r Ymchwil: 65/2015, *Prosiect Dichonoldeb Cysylltu Data’r Rhaglen Cefnogi Pobl: Adroddiad ar Ganfyddiadau sy'n Dod i'r Amlwg* (Caerdydd: Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2020)
[80] *Astudiaeth Dichonoldeb Cysylltu Data’r Rhaglen Cefnogi Pobl: Adroddiad ar Ganfyddiadau sy'n Dod i'r Amlwg*, t. 1.
[81] Ibid.
[82] Llywodraeth Cymru, Ymchwil Gymdeithasol Rhif: 16/2016, Laura McGin, Sarah Lowe, Martin Heaven a Lucie Griffiths, 2016. *Prosiect Dichonoldeb Cysylltu Data’r Rhaglen Cefnogi Pobl: Research Report* (Caerdydd: Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru)
[83] *Prosiect Dichonoldeb Cysylltu Data’r Rhaglen Cefnogi Pobl: Research Report* t. 64.
[84] *Prosiect Dichonoldeb Cysylltu Data’r Rhaglen Cefnogi Pobl: Research Report* t. 8.
[85] *Prosiect Dichonoldeb Cysylltu Data’r Rhaglen Cefnogi Pobl: Research Report* t. 9.
[86] Ibid.
[87] Ibid.
[88] *Prosiect Dichonoldeb Cysylltu Data’r Rhaglen Cefnogi Pobl: Research Report*, t. 11.

Cefnogi Pobl, 'grŵp gwasanaeth' defnyddwyr gwasanaeth Cefnogi Pobl neu 'brif angen', hyd y cymorth gan Cefnogi Pobl, cymhlethdod yr angen, lefel y cymorth gan Cefnogi Pobl (h.y. fel y bo'r angen, mewn llety ac ati), ac (os yw ar gael) rheswm dros adael gwasanaeth Cefnogi Pobl.[89]

Er mwyn mesur hyn, archwiliodd yr Astudiaeth Ddichonoldeb y defnydd a wnaed o'r gwasanaeth iechyd dros gyfnod o ddwy flynedd; roedd hyn yn cynnwys y cyfnod cyn i ddefnyddwyr gwasanaeth ddechrau derbyn cymorth a'r cyfnod ar ôl ymyriad y gwasanaeth Cefnogi Pobl. Er mwyn rhoi syniad o effaith bosibl y rhaglen Cefnogi Pobl ar y defnydd a wnaed o'r gwasanaeth iechyd, dadansoddwyd y canfyddiadau am gyfnodau o 30 diwrnod 12 mis cyn, 6 mis cyn, 3, 2 ac 1 mis cyn, 1, 2 a 3 mis ar ôl, 6 mis ar ôl a 12 mis ar ôl i ddefnyddwyr gwasanaeth ddechrau cael cymorth.[90] Dyma'r dangosyddion o effaith rhaglen Cefnogi Pobl ar y defnydd a wneir o'r gwasanaeth iechyd y gwnaed dadansoddiad ar ei gyfer: nifer y diwrnodau y galwyd ar wasanaeth meddygon teulu; nifer yr ymwelwyd ag adrannau damweiniau ac achosion brys; a nifer y derbyniadau brys i'r ysbyty.[91] Dadansoddwyd pob un o'r dangosyddion cyn ac ar ôl i ddefnyddwyr gwasanaeth ddechrau derbyn cymorth gan y gwasanaeth Cefnogi Pobl ac fe'u dadansoddwyd yn ystod y cyfnodau a eglurir uchod, lle maent ar gael, yn ôl rhyw, grŵp oedran o bum mlynedd a 'phrif angen' neu 'Grŵp Gwasanaeth' ac ar wahân ar gyfer Abertawe a Blaenau Gwent.[92]

**Ffigur 3: Nifer y diwrnodau y galwyd ar wasanaeth meddygon teulu fesul defnyddiwr gwasanaeth yn y misoedd cyn ac ar ôl dyddiad dechrau cymorth yn ôl Awdurdod Lleol a rhyw'r defnyddiwr gwasanaeth**




Ffynhonnell: : *Supporting People Data Linking Feasibility Project: Research Report*, t. 31.

[89] *Prosiect Dichonoldeb Cysylltu Data'r Rhaglen Cefnogi Pobl: Research Report* t. 11-12.
[90] *Prosiect Dichonoldeb Cysylltu Data'r Rhaglen Cefnogi Pobl: Research Report*, t. 13.
[91] *Prosiect Dichonoldeb Cysylltu Data'r Rhaglen Cefnogi Pobl: Research Report* t. 31.
[92] Ibid.

Yn dilyn llwyddiant yr adroddiad dichonoldeb, awdurdododd Llywodraeth Cymru astudiaeth derfynol bedair blynedd i'w cyflawni gan Brifysgol Abertawe. Cyhoeddwyd adroddiad cynnydd blwyddyn un ym mis Mehefin 2017,[93] adroddiad cynnydd blwyddyn dau ym mis Mehefin 2018 [94] ac yn olaf, adroddiad 'canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg' ym mis Tachwedd 2018.[95] Mae'r prosiect wedi ei ohirio ar hyn o bryd.

Y prif dasgau yn ystod y flwyddyn gyntaf oedd caffael data gan y gwahanol ALlau a'u trosglwyddo i fanc SAIL a gwneud y data crai'n barod ar gyfer ymchwil.[96] Roedd ymatebion yr ALlau yn uchel yn ogystal â'r cyfraddau cysylltu ar gyfer y rhan fwyaf o setiau data a ddarparwyd i'r astudiaeth (uwch na 85%), a lle'r oedd y cyfraddau'n is, roedd hyn yn gyffredinol am reswm roedd modd ei nodi y gallai ymchwilydd yr astudiaeth weithio gyda Thimau Cefnogi Pobl awdurdodau lleol i'w ddatrys yn ddiweddarach.[97] Ar yr adeg hon, anwybyddodd tîm yr astudiaeth y syniad a gynigiwyd yn yr astudiaeth ddichonoldeb o greu model gwrthbwyso costau fel ym model Capgemeni ar gyfer y prosiect pedair blynedd penodol hwn, er iddynt ddod i'r casgliad y gallai eu hymchwil fwydo i mewn i astudiaeth ar wahân ac roedd yn cynnwys astudiaeth ddichonoldeb ar y mater.[98]

Erbyn adroddiad yr ail flwyddyn, cwblhawyd cytundebau rhannu data a darparwyd data gan 19 o'r 22 ALl yng Nghymru.[99] Bryd hynny, datblygwyd rhestr o gwestiynau ymchwil a oedd yn cyd-fynd â nodau'r Rhaglen Cefnogi Pobl i'r graddau y gellid mesur y nodau hynny gan ddefnyddio'r data a oedd ar gael. Cynigwyd y rhestr gerbron y Grŵp Llywio Ymchwil a Gwerthuso Cefnogi Pobl ac fe'u cymeradwywyd ganddynt.[100] Nod cyffredinol yr ymchwil yw mesur effaith y Rhaglen Cefnogi Pobl ar lefel polisi cyffredinol ac fe'i diffinnir fel a ganlyn: "a yw'r Rhaglen Cefnogi Pobl wedi cyflawni ei nodau datganedig mesuradwy o ddarparu sefydlogrwydd preswyl a byw'n annibynnol, a oedd unrhyw effaith amlwg ar wasanaethau cyhoeddus eraill ac a oedd yn helpu i leihau anghydraddoldebau?"[101] Roedd y gwasanaeth cyhoeddus cyntaf – effaith ar y GIG – eisoes wedi ei archwilio yn yr astudiaeth ddichonoldeb, ac ystyriwyd hefyd fod yr effaith ar wasanaethau gofal cymdeithasol, y system cyfiawnder troseddol a'r farchnad lafur a'r economi yn brif amcanion hefyd.[102] Ystyriwyd hefyd fod effaith Cefnogi Pobl ar ganiatáu i ddefnyddwyr gwasanaeth gynnal sefydlogrwydd preswyl a byw'n annibynnol yn un o'r prif amcanion ond nid yr un mor bwysig.[103] Roedd y tîm ymchwil o'r farn fod angen llunio grŵp

---

[93] Llywodraeth Cymru, Ymchwil Gymdeithasol Rhif: 32/2017, Rhodri Johnson, Sarah Lowe, Donna Lemin, Laura McGinn a Lucie Griffiths, 2017. *Supporting People Data Linkage Study: Progress Report* (Caerdydd: Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth)

[94] Llywodraeth Cymru, Ymchwil Gymdeithasol Rhif: 41/2018, Rhodri Johnson, Sarah Lowe ac Ian Jones, 2018. *Supporting People Data Linkage Study: Year Two Progress Report* (Caerdydd: Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth)

[95] Llywodraeth Cymru, Ymchwil Gymdeithasol Rhif: 57/2018, Rhodri Johnson, 2018. *Astudiaeth Cysylltu Data'r Rhaglen Cefnogi Pobl: Adroddiad ar Ganfyddiadau sy'n Dod i'r Amlwg* (Caerdydd: Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth)

[96] *Supporting People Data Linkage Study: Progress Report*, t. 3-5.

[97] *Supporting People Data Linkage Study: Progress Report*, t. 6.

[98] *Supporting People Data Linkage Study: Progress Report*, t. 7-8 and *Supporting People Data Linkage Study: Year Two Progress Report*, t. 12.

[99] *Supporting People Data Linkage Study: Year Two Progress Report*, t. 7.

[100] *Supporting People Data Linkage Study:* t. 9.

[101] Ibid.


[102] *Supporting People Data Linkage Study: Year Two Progress Report* t. 17.

[103] Ibid.

rheoli cadarn, er mwyn casglu'r dystiolaeth fwyaf credadwy ynghylch a yw Cefnogi Pobl yn gwneud gwahaniaeth i fywydau defnyddwyr gwasanaethau mewn gwirionedd.[104] Fodd bynnag, gwelwyd yn fuan nad oedd modd cael grŵp rheoli perffaith ar gyfer y Prosiect oherwydd roedd mwyafrif helaeth y bobl sy'n gofyn am gymorth yn derbyn gwasanaethau.[105]

Canolbwyntiodd yr adroddiad ar y canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg yn benodol ar nodi unrhyw leihad yn y galw am ddarpariaeth y GIG gan ddefnyddwyr gwasanaethau Cefnogi Pobl. Roedd y dadansoddiad yn cymharu patrymau defnydd y GIG am y 24 mis cyn ac ar ôl y dyddiad roedd defnyddwyr gwasanaethau Cefnogi Pobl wedi dechrau derbyn cymorth (yn hytrach na'r 12 mis cyn ac ar ôl hynny yn yr adroddiad dichonoldeb gwreiddiol) gan 19 Awdurdod Lleol yng Nghymru gyda nifer o grwpiau cymharu.[106] Roedd defnyddwyr gwasanaeth Cefnogi Pobl wedi'u grwpio fel 'tymor hwy' (pobl hŷn a phobl ag anableddau dysgu, yn ddamcaniaethol fwy tebygol o fod â chyflyrau iechyd cronig) a 'thymor byrrach' (yn ddamcaniaethol o fod ag anghenion iechyd acíwt yn gysylltiedig â'r ffyrdd anhrefnus neu beryglus o fyw a allai roi pobl mewn perygl o ddigartrefedd e.e. camddefnyddio sylweddau, trais domestig).[107] I'r rhai yn y grŵp 'tymor byrrach', canfuwyd patrwm tri cham o 'argyfwng', yn cynnwys: 'cyn argyfwng' (wedi'i nodweddu gan ddefnydd o'r gwasanaeth iechyd oedd yn cynyddu'n araf); 'yn ystod argyfwng' (a nodweddir gan uchafbwynt yn y defnydd o'r gwasanaeth iechyd); ac 'ar ôl argyfwng' (wedi'i nodweddu gan ddefnydd sefydlog o'r gwasanaeth iechyd).

### Ffigur 4: Derbyniadau brys i'r ysbyty ar gyfer y grŵp Cefnogi Pobl cyffredinol a phoblogaeth gyffredinol Cymru wedi'u rhannu'n batrwm 'argyfwng' tri cham




Ffynhonnell: *Astudiaeth Cysylltu Data'r Rhaglen Cefnogi Pobl: Adroddiad ar Ganfyddiadau sy'n Dod i'r Amlwg*, t. 7

[104] *Supporting People Data Linkage Study: Year Two Progress Report* t. 10.
[105] Ibid.
[106] *Astudiaeth Cysylltu Data'r Rhaglen Cefnogi Pobl: Adroddiad ar Ganfyddiadau sy'n Dod i'r Amlwg*, t. 1.
[107] Ibid.

Er bod yr ymchwilwyr o'r farn bod angen rhagor o dystiolaeth ac ymchwil, daethant i rai damcaniaethau cychwynnol ynghylch pa effaith y gallai'r rhaglen Cefnogi Pobl fod wedi'i chael neu heb ei chael o ran lliniaru'r argyfwng.

1. Mae argyfwng cyffredin yn tueddu i ddilyn patrwm y graff (ffigur 4) o ran defnyddio'r gwasanaeth iechyd, sy'n golygu mai ychydig iawn o effaith a gaiff y rhaglen Cefnogi Pobl, h.y. mae ffigur 4 yn dangos patrwm cyffredinol o grŵp o bobl sy'n mynd drwy argyfwng digartrefedd posibl, bod yr argyfwng hwnnw'n gysylltiedig â dirywiad yn eu hiechyd yn arwain at yr argyfwng hwnnw, gan gyrraedd uchafbwynt ar anterth yr argyfwng cyn sefydlogi wrth i'r argyfwng ddod i ben;
2. Mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn cael rhywfaint o effaith, oherwydd hebddi mae'n bosibl y byddai'r defnydd o'r gwasanaeth iechyd wedi parhau ar lefel uwch, gan barhau â'r llwybr cyn argyfwng o gynyddu'r defnydd o'r gwasanaeth iechyd ac felly'n arwain at gost uwch i'r GIG;
3. Yn wir mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn cael effaith fwy o gofio y gallai'r defnydd o'r gwasanaeth iechyd fod wedi parhau ar y llwybr 'yn ystod argyfwng' heb ymyriad y Rhaglen, sy'n dangos cynnydd sylweddol yn y defnydd o'r gwasanaeth iechyd, unwaith eto, gan arwain at gost uwch i'r GIG.[108]

## Cymorth sy'n Achub (The Wallich, 2017)

Ym mis Awst 2017, cyhoeddodd The Wallich eu hymchwiliad 'Cymorth sy'n Achub',[109] sy'n ystyried gwerth am arian y cymorth a ddarparwyd ganddynt. Nid oedd The Wallich am gynnal dadansoddiadau cost a budd traddodiadol, gan eu bod yn teimlo na fyddai'r rhain yn gwneud cyfiawnder â holl raglen Cefnogi Pobl, yn enwedig y manteision hirdymor.[110] O ganlyniad, canolbwyntiodd eu hadroddiad ar yr arbedion tymor byrrach a geir yn sgil darparu lle mewn llety â chymorth i rywun, neu gymorth fel y bo'r angen.[111] Gyda'r nod o ddangos gwerth yr ymyriadau hyn, cynhaliwyd cyfweliadau â naw cleient ledled Cymru ac mewn rhai achosion hefyd y gweithwyr cymorth a oedd yn gweithio gyda'r cleientiaid hyn i fod yn sail i ddadansoddiad astudiaeth achos ddienw.[112] Pennwyd gwerth am arian drwy gymharu blwyddyn bywyd cleient cyn iddynt gael cynnig cymorth gan The Wallich, a'r flwyddyn ganlynol lle cawsant eu cefnogi gan The Wallich. Cyflwynodd y sefydliad yr achos eu bod wedi atal ailadrodd y sefyllfaoedd a ddigwyddodd yn y flwyddyn cyn derbyn cefnogaeth.[113]

Drwy bwyso a mesur y rhain yn erbyn costau cefnogi'r cleient, cyfrifwyd yr arbediad a'r gymhareb cost a budd. Cydnabu'r ymchwilwyr y byddai eu hamcangyfrifon yn geidwadol gan eu bod yn penderfynu y gallai sefyllfa cleient, heb ymyriad Cefnogi Pobl, droi'n sefyllfa fwy anhrefnus.[114] Canolbwyntiodd yr adroddiad ar bedwar categori y byddai'r astudiaethau achos yn cael eu mesur ar eu cyfer: troseddu, iechyd, cyffuriau ac alcohol, a theulu, tai a gofal cymdeithasol. Roedd costio a gwirio data ar gyfer yr astudiaethau achos (e.e. cost y pen, y

---

[108] *Astudiaeth Cysylltu Data'r Rhaglen Cefnogi Pobl: Adroddiad ar Ganfyddiadau sy'n Dod i'r Amlwg* t. 8.
[109] The Wallich, Alex Osmond, 2017. *Cymorth sy'n Achub*
[110] *Cymorth sy'n Achub*, t. 5.
[111] Ibid.
[112] *Cymorth sy'n Achub*, t. 6.
[113] Ibid.
[114] Ibid.

flwyddyn am brosiect preswyl penodol) yn bennaf o ddata mewnol yn The Wallich a'r Cyfrifiannell Arbedion Teuluol.[115]

### Ffigur 5. Canlyniadau astudiaeth achos gyda'r gymhareb arbed a chost a budd fesul astudiaeth achos

| Case study | Amount saved | Benefit-cost ratio |
|---|---|---|
| #1 - Brian | £41,745 | 2.56 |
| #2 - Craig | £5,787.63 | 1.30 |
| #3 - Thomas | £3,879.50 | 1.18 |
| #4 - Martin | £2,342.67 | 1.08 |
| #5 - Bella | £3,566.17 | 1.10 |
| #6 – Robert & Erica | £3,405.04 | 1.25 |
| #7 - Mandy | £67,178.27 | 14.40 |
| #8 - Tanya | £50,451.64 | 2.46 |
| #9 - Nick | £9,984.63 | 1.54 |
| BOSS – Charlie* | £66,805.68 | 182.87 |
| **Average excluding BOSS** | **£20,926.78** | **2.99** |
| **Average including BOSS** | **£25,514.60** | **20.97** |

Ffynhonnell: *Cymorth sy'n Achub*, t. 7 Sylwer: Mae’r acronym BOSS yn sefyll am Prosiect Adeiladu Cyfleoedd, Sgiliau a Llwyddiant, sy'n brosiect a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr. Ystyria'r ymchwilwyr y dylai fod ar wahân i'r lleill, gan ei fod yn canolbwyntio ar ddychwelyd cyn-droseddwyr i fyd gwaith. Cafodd ei gynnwys i dynnu sylw at y gefnogaeth amrywiol y mae The Wallich yn ei chynnig a'r potensial ar gyfer arbedion, ni waeth o ble y daw'r cyllid.

Yn unol ag astudiaethau blaenorol, mae hyn yn gyfystyr ag arbediad o £2.99 yn sgil y cymorth a ddarparwyd gan The Wallich am bob punt a wariwyd.[116] Mae'r canlyniadau hyn ar lwybr tebyg i'r dadansoddiad model gwrthbwyso cost a budd mwy optimistaidd a gynhaliwyd yn Lloegr, ond mae cyfyngiadau'r dull dadansoddi astudiaethau achos a ddefnyddir gan The Wallich yn golygu na ellir ystyried eu casgliadau'n gwbl derfynol.

[115] Ibid.
[116] *Cymorth sy’n Achub*, t. 8.

# 8.2 Atodiad B – Arbedion cost Cefnogi Pobl i Wasanaethau Cyhoeddus Eraill o Ymchwil Flaenorol

## Arbedion Cost i Wasanaethau Iechyd

Gellir diffinio gwasanaethau iechyd mewn sawl ffordd ond at ddibenion yr astudiaeth hon diffinnir gwasanaethau iechyd fel gwasanaethau iechyd cyhoeddus a ddarperir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Ymddengys fod y llenyddiaeth yn awgrymu bod arbedion cost i wasanaethau iechyd ymhlith yr arbedion cost mwyaf a gynhyrchir gan Cefnogi Pobl, gydag astudiaethau CLG 2009 a NICVA 2015 yn canfod bod Cefnogi Pobl yn cynhyrchu arbedion cost blynyddol o £315 miliwn a £26 miliwn yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn y drefn honno. Mae'r arbedion a fodelwyd yn yr astudiaethau yn cael eu llywio'n bennaf gan y cyfuniad o debygolrwydd rhagdybiedig is o episodau iechyd anffafriol, megis damweiniau neu ddioddef trais, yn ogystal â llai o angen am ofal iechyd costus i gleifion mewnol sy'n ofynnol gan rai grwpiau defnyddwyr; er enghraifft, y rhai â phroblemau iechyd meddwl difrifol.

Ceir corff o dystiolaeth sy'n dangos bod pobl ddigartref yn llawer mwy tebygol o ddioddef o broblemau iechyd na'r boblogaeth gyffredinol. Canfu adroddiad Homeless Link yn 2014 fod 45% a 41% o'r boblogaeth ddigartref yn Lloegr wedi cael diagnosis o broblemau iechyd corfforol a meddyliol, o gymharu â 28% a 25% o'r boblogaeth gyffredinol yn y drefn honno.[117] Canfu'r un adroddiad fod pobl ddigartref yn Lloegr 4.4 gwaith yn fwy tebygol o ymweld ag adrannau damweiniau ac achosion brys, 4.2 gwaith yn fwy tebygol o ymweld â'r ysbyty, a mynd i weld meddygon teulu tua 1.5-2 gwaith yn fwy na'r boblogaeth gyffredinol. Canfu adroddiad gan yr Adran Iechyd fod presenoldeb mewn adrannau damweiniau ac achosion brys a derbyniadau i'r ysbyty ar gyfer pobl ddigartref 5 a 3.2 gwaith yn uwch na chyfartaleddau lleol, gyda'r rhesymau mwyaf cyffredin dros dderbyn cleifion yn cynnwys gwenwyndra, alcohol neu gyffuriau a phroblemau iechyd meddwl.[118]

Felly, disgwylir y bydd ymyriadau, fel rhaglen Cefnogi Pobl (neu wasanaethau Grant Cymorth Tai) sy'n ceisio cefnogi pobl agored i niwed sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, yn lleihau'r galw am wasanaethau iechyd cyhoeddus yn sylweddol. Gall budd ariannol gronni i'r graddau bod cyllid Cefnogi Pobl yn lleihau'r angen i gleientiaid ddefnyddio gwasanaethau cymorth y tu allan i amgylchedd Cefnogi Pobl, er enghraifft, arbedion yn sgil llai o alw am wasanaethau adsefydlu a gofal cleifion mewnol i'r rhai sydd â hanes o gamddefnyddio sylweddau. Fel hyn, cynhyrchir arbedion cost ariannol felly drwy'r gwahaniaeth yn y defnydd o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i unigolion a gefnogir gan y rhaglen Cefnogi Pobl o'i gymharu â phe na bai'r unigolyn hwnnw'n cael ei gefnogi gan y rhaglen Cefnogi Pobl. Fodd bynnag, awgrymodd astudiaeth gan Homeless Link, sy'n ymchwilio i gost-effeithiolrwydd y cynllun Tai yn Gyntaf yn Lloegr, nad oes angen i lai o ddefnydd o rai gwasanaethau'r GIG droi'n arbedion cost

[117] Homeless Link, 2014. *The unhealthy state of homelessness - Health audit results 2014* https://www.homeless.org.uk/sites/default/files/site-attachments/The%20unhealthy%20state%20of%20homelessness%20FINAL.pdf

[118] Yr Adran Iechyd, Swyddfa'r Prif Ddadansoddwr, Mawrth 2010. *Healthcare for Single Homeless People* https://www.housinglin.org.uk/_assets/Resources/Housing/Support_materials/Other_reports_and_guidance/Healthcare_for_single_homeless_people.pdf

uniongyrchol o reidrwydd.[119] Maent yn dyfynnu adrannau damweiniau ac achosion brys fel enghraifft, lle mae'r galw, er bod llai o ddefnydd gan bobl ddigartref yn lliniaru'r pwysau ar adnoddau, yn dal i fod mor fawr fel mai prin y gellir lleihau gwariant o ganlyniad.

Mae'r ddogfen *Prosiect Cysylltu Data Rhaglen Cefnogi Pobl 2018: Adroddiad ar Ganfyddiadau sy'n Dod i'r Amlwg* yn manteisio ar ddata cysylltiedig sy'n cyfuno ystadegau defnydd demograffig a gwasanaethau iechyd â dangosyddion ar gyfer unigolion sy'n defnyddio'r rhaglen Cefnogi Pobl, gyda'r bwriad o nodi unrhyw ostyngiad yn y galw am wasanaethau'r GIG o ganlyniad i'r rhaglen.[120] Dylid nodi bod yr awduron wedi disgrifio'r dadansoddiad hwn fel un dangosol, i adlewyrchu'r ffaith bod y prosiect cysylltu data ehangach yn dal i fynd rhagddo. Mae'r astudiaeth yn mesur y defnydd o ofal iechyd 24 mis cyn ac ar ôl derbyn i'r rhaglen Cefnogi Pobl yn seiliedig ar y dangosyddion canlynol: Derbyniadau Brys i'r Ysbyty, mynychu Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, Apwyntiadau Cleifion Allanol ac Ymweliadau â Meddygfeydd. Mae'r canfyddiadau'n dangos bod defnydd aelodau'r rhaglen Cefnogi Pobl o wasanaethau'r GIG yn dilyn tuedd gyffredin fel arfer, gan gynyddu hyd at y pwynt lle cânt eu derbyn i'r Rhaglen ac yn lleihau neu o leiaf yn sefydlogi ar ôl eu derbyn i'r Rhaglen. Fodd bynnag, mae'n bwysig ystyried y gwrthffeithiol wrth gasglu tueddiadau cyffredinol. Os eir ati i gymharu tuedd y defnydd o ofal iechyd gan ddefnyddwyr y rhaglen Cefnogi Pobl yn y tymor byr â defnydd grŵp cyfeirio a luniwyd sy'n bodloni meini prawf y rhaglen Cefnogi Pobl ond sydd wedi gwrthod cymryd rhan, ymddengys na welwyd unrhyw wahaniaeth clir yn y defnydd o wasanaethau gofal iechyd.

## Arbedion Cost i Wasanaethau Gofal Cymdeithasol

At ddibenion yr astudiaeth hon, diffinnir gofal cymdeithasol i gynnwys darparu gwaith cymdeithasol, gofal personol a chymorth ymarferol i'r rhai ag anableddau corfforol neu afiechyd, anableddau dysgu, problemau iechyd meddwl, dibyniaeth ar gyffuriau neu alcohol, a phroblemau iechyd sy'n gysylltiedig ag oedran. Mae gofal cymdeithasol yn cynnwys cymorth i unigolion yn eu cartrefi eu hunain yn ogystal â gofal preswyl i grwpiau ag anghenion cymorth fel yr henoed. Dylid nodi nad yw gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cael ei ariannu'n gyfan gwbl gan awdurdodau lleol, gydag unigolion yn gymwys i wneud cyfraniadau i'r graddau bod eu hasedau neu eu hincwm yn uwch na throthwyon penodol.[121]

Mae'r llenyddiaeth bresennol yn awgrymu y bydd gofal cymdeithasol yng Nghymru yn gwneud arbedion cost sylweddol o ganlyniad i'r rhaglen Cefnogi Pobl. Er nad yw CLG 2009 yn amcangyfrif yn benodol arbedion cost i'r sector gofal cymdeithasol, mae canfyddiadau'r astudiaeth yn awgrymu arbedion cost sylweddol i'r sector gofal cymdeithasol yn Lloegr. Mae model Capgemini yn rhagdybio'n ddiamau y byddai angen cymorth gofal preswyl costus ar gyfran o ddefnyddwyr o grwpiau penodol yn absenoldeb Cefnogi Pobl; er enghraifft, pobl

[119] Nicholas Pleace a Joanne Bretherton, Homeless Link, Mawrth 2019. *The cost effectiveness of Housing First in England* https://hfe.homeless.org.uk/sites/default/files/attachments/The%20cost%20effectiveness%20of%20Housing%20First%20in%20England_March%202019.pdf

[120] *Prosiect Cysylltu Data Rhaglen Cefnogi Pobl 2018: Adroddiad ar Ganfyddiadau sy'n Dod i'r Amlwg*

[121] Mind. *Health and social care rights* https://www.mind.org.uk/information-support/legal-rights/health-and-social-care-rights/financial-assessments/#collapse33aea

oedrannus ag anghenion cymorth neu'r rhai ag anableddau dysgu. Mae CLG 2009 yn canfod bod Cefnogi Pobl yn Lloegr yn cynhyrchu £5.4bn o arbedion cost blynyddol o leihau'r galw am becynnau gofal preswyl, y mae llawer ohono'n ymwneud â gofal preswyl sy'n debygol o gael ei ariannu gan y sector gofal cymdeithasol. Amcangyfrifir bod yr arbediad cost hwn ynddo'i hun yn ddigon i dalu mwy na chost flynyddol darparu'r rhaglen Cefnogi Pobl yn Lloegr, ond mae CLG 2009 yn nodi bod yr arbedion cost yn sensitif iawn i'r gyfran o bobl mewn grwpiau defnyddwyr penodol y rhagdybir y byddent yn defnyddio gofal preswyl yn absenoldeb y rhaglen Cefnogi Pobl.

Fodd bynnag, mae yna rywfaint o gyfaddawd, gyda'r un astudiaeth yn amcangyfrif bod Cefnogi Pobl yn achosi cynnydd o £480 miliwn yng nghostau blynyddol gwasanaethau gofal cymdeithasol (sef gofal cartref personol, gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal a gofal dydd). Wrth gymryd gofal preswyl a gofal gwasanaethau cymdeithasol gyda'i gilydd, mae CLG 2009 yn nodi bod y rhaglen Cefnogi Pobl yn darparu arbedion cost sylweddol i ofal cymdeithasol yn Lloegr. Yn yr un modd, mae NICVA 2015 yn dangos bod Cefnogi Pobl yn cynhyrchu arbedion cost sylweddol i ofal cymdeithasol, gydag arbedion cost blynyddol o £114 miliwn yn cael eu hamcangyfrif ar gyfer gofal preswyl a gofal gwasanaethau cymdeithasol gyda'i gilydd.

## Arbedion Cost i'r System Cyfiawnder Troseddol

Yn yr astudiaeth hon, diffinnir y system cyfiawnder troseddol fel un sy'n cynnwys y gwasanaethau plismona sy'n ymwneud ag ymchwilio a phrosesu troseddau, yn ogystal â chostau cyhoeddus cysylltiedig ar gyfer y system gyfreithiol. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y bydd y system cyfiawnder troseddol yn elwa'n sylweddol i'r graddau y gall y rhaglen Cefnogi Pobl leihau'r tebygolrwydd y bydd ei defnyddwyr naill ai'n dioddef trosedd neu'n aildroseddu. Mae CLG 2009 yn canfod bod Cefnogi Pobl yn Lloegr yn cynhyrchu arbedion cost troseddu blynyddol gros o £413.6 miliwn. Mae model Capgemini yn rhagdybio bod rhai grwpiau defnyddwyr yn gwneud defnydd uwch na'r cyfartaledd o'r system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys y rhai sy'n fwy tebygol o ddioddef troseddau, megis y rhai sydd mewn perygl o drais domestig, a'r rhai sydd mewn perygl o aildroseddu. Wrth ragdybio bod Cefnogi Pobl yn lleihau amlder digwyddiadau o'r fath, cynhyrchir arbedion cost sylweddol i'r system cyfiawnder troseddol. Yn seiliedig ar fethodoleg debyg, mae NICVA 2015 yn canfod bod Cefnogi Pobl yn cynhyrchu £32.7 miliwn o arbedion cost net ar gyfer y system cyfiawnder troseddol yng Ngogledd Iwerddon.

## Gwasanaethau'r Grant Cynnal Tai a Thrais yn y Cartref

Mae cyfran sylweddol o gyllid Cefnogi Pobl/Grant Cynnal Tai yng Nghymru yn mynd tuag at ddarparu cymorth i bobl sy'n dianc rhag sefyllfa o gam-drin domestig; ar 31 Mawrth 2017, aeth 7.3% (£9.0 miliwn) o gyllid Cefnogi Pobl tuag at gefnogi menywod sy'n dioddef cam-drin domestig, sy'n cynrychioli 1,201 o unedau cymorth. Dyrannwyd 0.2% llai o gyllid Cefnogi Pobl i ddarparu cymorth i ddynion sy'n dioddef cam-drin domestig.

Mae costau cam-drin domestig yn uchel ac yn eang, ac maent yn cynnwys niwed corfforol ac emosiynol, allbwn a gollwyd a chostau uwch i wasanaethau cyhoeddus gan gynnwys gwasanaethau iechyd a'r system cyfiawnder troseddol. Mae adroddiad yn 2019 a gyhoeddwyd

gan Swyddfa Gartref y DU yn amcangyfrif bod cyfanswm cost cam-drin domestig wedi costio £66.2bn yng Nghymru a Lloegr yn 2016/17 ar draws 2.0 filiwn o ddioddefwyr cam-drin domestig.[122] Mae'r ffigur hwn yn cynnwys £2.3bn o gostau i wasanaethau iechyd ac £1.7bn o gostau i'r heddlu a'r system cyfiawnder troseddol. Mae ymchwil gan Awdurdod Cyfunol Manceinion Fwyaf yn amcangyfrif mai cost ariannol trais domestig yw £2,983 fesul digwyddiad, sy'n cynnwys costau i'r systemau iechyd a chyfiawnder troseddol yn bennaf.[123] Ar y sail hon, pe bai pob un o'r 1,201 o unedau a gefnogwyd gan raglen Cefnogi Pobl yng Nghymru yn profi un digwyddiad yn llai o drais domestig mewn blwyddyn byddai hyn yn cyfateb i arbediad cost gros blynyddol o £3.6 miliwn i wasanaethau cyhoeddus.

Ar y sail hon, mae gan raglenni fel Cefnogi Pobl sy'n ceisio gwarchod y rhai sydd mewn perygl o drais domestig y potensial i leihau'r galw am wasanaethau cyhoeddus yn sylweddol. Mae astudiaeth CLG 2009 yn dangos bod cymorth Cefnogi Pobl i fenywod sy'n dianc rhag sefyllfaoedd trais domestig yn Lloegr yn arwain at arbedion cost sylweddol i wasanaethau cyhoeddus, gydag arbedion cost blynyddol net yn £186.9 miliwn, sy'n cyfateb i £2.70 am bob £1 o gyllid Cefnogi Pobl. Mae'r ffigur cyffredinol yn cynnwys arbedion cost blynyddol i wasanaethau iechyd a throseddu neu £103.1 miliwn a £129.9 miliwn yn y drefn honno, gan adlewyrchu'n bennaf y gostyngiadau tybiedig yn amlder achosion o drais domestig o ganlyniad i'r rhaglen Cefnogi Pobl. Mae astudiaeth NICVA 2015 o'r farn bod yr arbediad cost blynyddol net yn sgil Cefnogi Pobl hyd yn oed yn uwch, gyda phob £1 o gyllid Cefnogi Pobl i fenywod sydd mewn perygl o drais domestig yn cynhyrchu £5.62 o elw net.

## Gwasanaethau Grant Cymorth Tai a Chamddefnyddio Sylweddau

Mae cymorth i'r rhai sydd â hanes o gamddefnyddio sylweddau yn elfen bwysig o Cefnogi Pobl yng Nghymru, gyda 3.2% ac 1.2% o'r cyllid yn mynd at ddefnyddwyr sydd â hanes o gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol yn y drefn honno.

Mae costau triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau yn uchel; yn ôl amcangyfrif Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf, mae cost camddefnyddio alcohol i'r GIG yn Lloegr yn £2,133 y flwyddyn fesul yfwr dibynnol.[124] Mae'r dystiolaeth yn dangos bod camddefnyddio sylweddau yn sylweddol uwch ymhlith poblogaethau digartref. Canfu archwiliad o bobl ddigartref yn Lloegr yn 2012 fod 36% o'r boblogaeth ddigartref yn dweud eu bod wedi cymryd cyffuriau yn ystod y mis diwethaf o gymharu â 5% o'r boblogaeth gyffredinol, gyda 27% yn dweud eu bod wedi neu'n gwella o broblem alcohol. Dywedwyd bod 15% o'r achosion o bobl ddigartref yn ymweld ag adrannau damweiniau ac achosion brys yn yr ymarfer hwn yn gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol neu gyffuriau.[125]

Mae'n dilyn felly fod gan raglenni fel gwasanaethau Cefnogi Pobl/Grant Cymorth Tai, sy'n ceisio atal digartrefedd a chefnogi grwpiau sy'n agored i niwed, megis y rhai sydd â hanes o

---

[122] Rhys Oliver, Barnaby Alexander, Stephen Roe a Miriam Wlasny, y Swyddfa Gartref, Ionawr 2019. *The economic and social costs of domestic abuse – Research Report 107* https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/772180/horr107.pdf

[123] Tîm Ymchwil GMCA, 2019. *GMCA Unit Cost Database 2019* https://www.greatermanchester-ca.gov.uk/what-we-do/research/research-cost-benefit-analysis/

[124] *GMCA Unit Cost Database 2019*

[125] *The unhealthy state of homelessness - Health audit results 2014*

gamddefnyddio sylweddau, y potensial i leihau'r galw am wasanaethau cyhoeddus yn sylweddol. Ymddengys fod y dystiolaeth bresennol yn awgrymu bod cyllid Cefnogi Pobl ar gyfer y rhai sydd â phroblemau alcohol a chyffuriau yn creu arbedion sylweddol i wasanaethau cyhoeddus. Canfuwyd bod cymorth i'r rhai sydd mewn perygl o gamddefnyddio alcohol yn cynhyrchu £92 miliwn o arbedion cost net yn Lloegr, tra gwelir bod cymorth i'r rhai â phroblemau cyffuriau yn cynhyrchu £157.8 miliwn o arbedion cost net, sy'n cyfateb i £32.2 miliwn a £26.4 miliwn o fudd ariannol fesul 1,000 o unedau cymorth yn y drefn honno (CLG 2009). Yn ôl NICVA 2015, mae pob £1 sy'n cael ei wario ar wasanaethau Cefnogi Pobl i rai â phroblemau alcohol a chyffuriau yng Ngogledd Iwerddon yn sicrhau arbedion cost net o £2.44 ac £11.18 ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn y drefn honno. Y gostyngiad rhagdybiedig yn y defnydd o ofal preswyl (adsefydlu) a gwasanaethau gofal cleifion mewnol gan unigolion yn y grwpiau hyn ar ôl iddynt gael eu derbyn i'r rhaglen Cefnogi Pobl sy'n gyfrifol am lawer o'r budd ariannol a amcangyfrifir.

Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Athena SWAN Bronze Award
disability confident EMPLOYER
Member Equality Challenge Unit
SMALL BUSINESS CHARTER | SIARTER BUSNESAU BACH
Stonewall CYMRU
TEF Silver
The Queen's Anniversary Prizes For Higher and Further Education 2015
APPROVED THE SOCIAL ENTERPRISE MARK